**Cyfansoddiad Athronyddol Enwau Lleoedd Cymreig yng Nghymru.**

Awdur: Gwynionydd (= Benjamin Williams, ganwyd Seilach, plwyf Penbryn, sir Aberteifi 1821 – 1891. Clerigwr ac awdur).

O gylchgrawn ‘Yr Haul, neu drysorfa o wybodaeth...’ Cyfrol 12. Blwyddyn 1868.

1 Ionawr 1868: tudalennau 7-11
2 Chwefror 1868: tudalennau 35-39
3 Mawrth 1868: tudalennau 77-82
4 Ebrill 1868: tudalennau 108-112
5 Mai 1868: tudalennau 140-144
6 Mehefin 1868: tudalennau 172-176
7 Gorphenaf 1868: tudalennau 206-210
8 Awst 1868: tudalennau 238-242
9 Medi 1868: tudalennau 267-270
10 Hydref 1868: tudalennau 309-311

# YR HAUL.

## 1868.

**Cyfres Caerfyrddin.**

CYFROL XII.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

CAERFYRDDIN: WILLIAM SPURRELL.

MDCCCLXVIII.

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 133. IONAWR, 1868. CYF. 12.

person of the name of Revet." See *Dugdale, &c.*

Claddwyd wrth y fynachlog hon uchelwyr o fri, ac yn eu plith amryw o dywysogion Dinefwr. Yma hefyd y claddwyd Dafydd ab Gwilym, prif fardd cenedl y Cymru trwy holl rawd ei hanesyddiaeth. Yn ol cofnodiad Thomas Jones, Tregaron, 1600, enciliodd Dafydd ab Gwylim ar brydnawn bywyd, ac a dreuliodd rywfaint o ddiwedd ei einioes, ym mynachlog Tal y Llychau, lle y bu farw, ac ei claddwyd ar brydnawn Nadolig, *anno.* 1368.

Hopcin ab Thomas ab Einion, o Ynys Dawy, yr hwn oedd gydoeswr â Dafydd ab Gwilym, a ganodd iddo farwnad. Rhoddir yma englyn neu ddau:—

"Wylwn a chwynwn och ini—mor wael
Marwolaeth saer cerddi,
Ni cheir awen ddadeni
Mwy ar waith yn ein iaith ni.

"Am Dafydd gelfydd goelfin—praff awdwr
Proffwydodd Taliesin,
Y genid ym mro Ginin,
Brydydd a'i gywydd fal gwin.

"Ym medd y gorwedd ar gareg—arnaw,
Mawr ernych gloew ofeg
Acw yn ynys cain waneg
Lle uwch dwr Tal Llychau deg."

Gwnawd marwnadau i Dafydd hefyd gan Gruffydd Grug, Madog Benfras, a Iolo Goch, oll yn feirdd o awenyddiaeth diledryw. Yn un o farwnadau Gruffydd Grug, dywedir ddarfod i Dafydd gael ei gladdu yn Ystrad Fflur.

"Yr ywen i oreuwas
Ger mur Ystrad Fflur a'i phlas,
Da Duw wrthyd gwynfyd gwydd
Dy dyfu yn dŷ Dafydd."

Ond mae yn weddus cofio ddarfod canu y farwnad dan sylw, pan daeth y sibrwd allan o farwolaeth y bardd, ag efe eto yn fyw. Mae llawer o gofnodwyr Dafydd gwedi dilyn tystiolaeth cynamserol Gruffydd Grug, parth claddedigaeth prif arwenydd Cymru, gan syrthio ar ol eu gilydd i amryfusedd. Pencampwr ac ymherawdwr beirdd Cymru ydoedd.

LLWYD.

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL. ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

### Y RHAGDRAITH.

Y MAE Cymru fechan, ac i raddau anfanteisiol, wedi cynnyrchu llawer o lenyddiaeth oddi ar y chwechfed ganrif hyd yn bresennol, ac ym mhlith y cyfansoddiadau, y mae llawer llenor wedi dwyn allan lawer o drysorau ar gyfansoddiad athronyddol iaith mewn ffordd o ieithadur, neu ramadeg a geiriadur. Ond nid rhyw lawer sydd wedi ei ysgrifenu ar gyfansoddiad athronyddol enwau lleoedd yng Nghymru: y mae yn wir fod yr enwogion Richards a Puw, yn cyffwrdd â hyny mewn ambell fan; ond nid yw hyny yn llawer. Talodd yr enwog Lewis Morris lawer o sylw i'r gangen hon o lenyddiaeth, ac nid oedd modd cael neb yn fwy cyfaddas, ac y mae yn drueni ac yn golled fawr i'r byd fod ei *Celtic Remains* heb eu dwyn allan. Y mae gohebiaethau dyddorol Edward Llwyd, William Wynn, Ieuan Brydydd Hir, James Phillips, Thomas Pegge, Edward Richard, ac ereill, yn y *Cambrian Register*, yn dra dyddorol. Y mae y Parch. Isaac Taylor, wedi talu llawer o sylw i enwau lleoedd ym Mhrydain, ac wedi dwyn allan gyfrol werthfawr ar y gangen bwysig hon o lenyddiaeth. Y mae Mr. Taylor, ar y cyfan, wedi trin ei bwnc yn lled dda, ac wedi treiddio yn yn lled bell i'r elfen Geltaidd o enwau ym Mhrydain, ac ar y Cyfandir; ond mae efe dan gryn anfantais i drin y gangen hòno, gan mai Sais, heb wybod y Gymraeg a'r cangen ieithoedd Celtaidd, ydyw. Gwelsom adolygiad manwl ar ei waith yn y *Quarterly Review*, ac ar ryw olwg yn ddysgedig; ond yr oedd yr adolygydd yn rhy anwybodus o'r Gymraeg i allu gwneyd cyfiawnder â'r testyn. Nid oes modd traethu y nifer o enwau lleoedd sydd yn Lloegr yn Gymraeg bur, ond eu bod wedi cael eu newid gan y Seison. Clywsom y diweddar John Fenton, Ysw., Glanamel, yn darllen papyr cynnwysfawr ar y pwys o iawn sillebu enwau lleoedd yng Nghymru, a dymunol fyddai i hyny gael ystyriaeth gyffredinol.

Y mae yr ysgrifenydd wedi talu llawer iawn o sylw i'r gangen hon o lenyddiaeth; ond gyda pha faint o lwyddiant, barned y darllenydd. Nid ydym wedi croesi afon na nant, heb holi eu henw, ac nid oes er ys blynyddau, un ty neillduol mewn ardal ddyeithr nad yw wedi cael ein sylw. Y mae y naill enw yn egluro y llall. Gwyddom, er ys blynyddau lawer, am afon yng Nghethiniog, o'r enw *Tyweli*, yr hon a eglurem yn Tawel wy; ac yr ydym yn ddiweddar wedi cael enw afon arall ym mhlwyf Llanbadarn Odwyn, ac un arall ger Caeyfyrddin, o'r enw *Tawelan*, yr hon sydd yn profi yr ystyr tu hwnt i ddadl. Y mae *Clydach* yn enw amryw afonydd; ac yr ydym yn ddiweddar wedi cael fod afon yn Llanrhystyd o'r enw *Cledan*. Y mae *an* (afonig) yn fenywaidd, ac yna y mae *Clyd* felly yn troi yn *Cled*. Mor athronyddol yw hyn! Y mae plasdy ger Aberteifi o'r enw *Trefigyn*, yr hyn a allesid gymmeryd yn *Tre Feigen;* ond wrth gael enwau lleoedd ger Corsydd y Fanod a'r Aeddwen, o'r enw *Gwarfigyn*,

Digitized by Google

sef oddi wrth y *Figyn*, Bigni (*bog*) mawr ger y fan, y mae yn amlwg mai dyma ystyr *Trefigyn*. Y mae lleoedd genym hefyd o'r enw *Trewaen*, a *Tregors*. Y mae hefyd le ym mhlwyf y Mwnt, o'r enw *Bigni*, oddi wrth gors ger y fan. Y mae sylwi ar enwau lleoedd mewn gwahanol fanau o'r wlad, a'u cymharu â'u gilydd yn llawer o rwyddineb i ddarllen ei hystyr.

Y mae enwau lleoedd yn yr oes hon, wedi myned yn ddirmygus a ffol i'r eithaf. Y mae yn gywilydd genym fod y fath enwau a *Sodom*, *Gomorah*, *Moloch*, *Soar*, *Tophet* a'u cyffelyb yng Nghymru. Nis gallwn chwaith edrych ryw lawer yn well ar *Salamanca*, *New York*, *Hungary Hall*, *Sebastopol*, *California*, a rhes o'u cyffelyb. Nis gallwn chwaith gymmodi ag enwau llawer o'n lleoedd addoliad; megys *Jerusalem*, *Engedi*, *Saron*, *Jezreel*, *Horeb*, *Jericho*, *St. Barnabas*, *St. Ethelreda*, a degau tebyg.

Yr ydym yn y gwaith hwn wedi gwneyd defnydd aml o Eiriadur y Dr. Puw, yn gystal ag o'i waith yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*, lle y mae enwau holl leoedd swydd Feirionydd yng nghyd â'i gwerth yn argraffedig. Teg yw cydnabod pob awdwr. Mewn llyfryn a gyhoeddasom er ys blynyddau yn ol, lle y mae llawer o enwau wedi eu hegluro, yr ydym yn gweled *golygydd* rhyw bapyryn Seisonig, a gyhoeddir yn fisol, yn gwneyd defnydd llythyrenol o'n heiddo heb eu cydnabod. Yr ydym ni yn y traethawd hwn wedi cydnabod pob peth a gawsom gan ereill.

## PENNOD I.

### SYLWADAU ARWEINIOL A CHYFFREDINOL.

Y CELTIAID ydyw yr ach henaf o bobl y byd. Y maent yn hanu o Gomer ab Iapheth. Y Celtiaid a ddaeth gyntaf i orllewin Ewrop; ac ymddengys mai y llinach henaf o honynt ydyw y Cymry. Y mae y Cymry wedi gadael eu hol mewn gwahanol fanau o Ewrop. Buont yn aros yn hir ar lanau y *Môr Du*; a dywed hynafiaethwyr fod yr enw *Crimea* yn perthyn i'r enw *Cymru*, a bod *Balaclava* yn debyg o'r un ystyr a *Bala* yng Ngogledd Cymru. Ystyr *bal* ydyw yr hyn sydd yn ymwthio allan, neu yn amlwg o draw. Ystyrir taw gair Cymraeg ydyw *Don** (Ton), enw afon fawr, yr hon sydd yn aberu i Fôr Asoff; a dywedir hefyd mai ystyr *Dniester*, ydyw y *Don Isaf*, a'r *Dnieper* y *Don Uchaf*. Y mae yn debyg hefyd mai gair Celtaidd ydyw *Danube*, sef y *Donwy* (dwfr tônog). Y mae afon fawr arall yn yr Almaen, yr hon sydd yn aberu i'r cefnfor Almaenaidd, tua thrigain milltir is law Hamburg, o'r enw *Elb*, neu *Elbe*, yr hon wrth bob tebyg, sydd yn dangos perthynas Gymreig, sef *el*, *bywiog*, *buan*, fel y gwelir yn y perwyddiad *el*. Y mae enwau yr afonydd *Elan*, *Elwy*, ac ef allai Alun ac *Alen* yn berthynasau i'r gair *Elbe*.* Y mae hanesiaeth yn cadarnhau y dybiaeth hon, gan fod y Celtiaid, neu y Cymry, wedi ymwthio ym mlaen mor bell a Phenryn Denmarc, ac a elwid yn *Cimmerii*, a'r wlad yn *Chersonesus Cimbrica*. Cymry oedd trigolion cynhenid Ffrainc, a galwent y wlad yn *Gelli*. Ystyr *Gelli* ydyw lle coedog, anhawdd ei deithio. Y mae llawer o leoedd yng Nghymru o'r enw Gelli; ac y mae hefyd amryw leoedd yn ein gwlad o'r enw *Cotrel*, hyny yw Coed-draul, lle wedi ei adeiladu yn y coed, lle yr oedd *traul* wedi ei wneyd o'r blaen.

Pan ddaeth yr hen Gymry i'r ynys hon, hwy a'i galwent yn *Albion*,† ac y mae yr enw Cymraeg a Galig am yr *Alban*, sef Scotland, yn arwyddo yr un peth. Tebyg fod *Alban* yn gymhwysedig at y wlad hòno, o blegid ei bod yn dra llawn o fynyddau, neu *banau*. Y mae *al* yn flaenddawd cadarnhaol, fel y gwelwn yn y gair *alaeth*. Ystyr *aeth* yw *braw galarus*, ac y mae *alaeth* yn arwyddo yr un peth, ond fod yr olaf yn gryfach gair. Wel ynte, ystyr *Alban* ydyw gwlad lawn o *fanau*, neu fynyddau. Fel y dywed Dr. Puw yn ei eiriadur, y mae rhai o brif ysgolheigion Ewrop, yn mynegu mai gair Cymreig, neu Geltig ydyw *Alp*, lluosog Alpau, prif fynyddoedd Switserland ac Ewrop; ac wrth grybwyll am yr *Alpau*, ni a welwn y Gymraeg ym mhellach yn y *Penines Alps*. Y mae *Penine* yn Gymraeg digon eglur, megys yn yr enwau *Penmaenmawr*, *Pendinas*, *Pengerwyn*, &c. Y mae y Trioedd yn mynegu fel y canlyn am enwau Ynys Prydain:—

"Tri enw a ddoded ar Ynys Prydain o'r dechreuad. Cyn ei chyfanneddu y doded arni *Clas Merddin*, a gwedi ei chyfanneddu y doded arni *Y Fêl Ynys*, a gyrru gwledigaeth arni y gan *Prydain ab Aedd Mawr* y doded arni *Ynys Prydain*."—*Tri.* 1.

Y mae y gair *clas* yn bresennol yn arwyddo gwlad, neu *ardal gauedig*; ond ymddengys fod yr ystyr gyntefig yn wahanol, ac os ydyw Dr. Puw yn gywir yn ystyr wreiddiol y gair, sef *llas*, *what*

* The *Tanais* of the ancients.

* Dywed rhai ysgrifenwyr Seisonig fod y gair Seisonig *elf*, *ysbryd*, neu *ellyll*, yn berthynas i'r enw *Elbe*, sef, *symmudol*; wel gall hyny fod, trwy fod perthynas cyffredinol ieithoedd yn llawer mwy eang na hyn; ond y mae yr hawl flaenaf gan y Gymraeg, gan mai y Cymry ddaeth gyntaf i Ewrop.

† Mae rhai yn ymdrechu dangos mai o'r gair Lladin *Albus*, *gwyn*, y mae Albion wedi ddeillio.

Digitized by Google

*spreads out or over*, y mae yr ystyr yn hollol briodol am gymmeriad yr ynys yn yr amser hwnw, sef gwlad yn ymdaenu allan oll gan goedwigoedd helaeth, *glas*, neu wyrddlas yr olwg. Y mae *Y Fêl Ynys* yn lled amlwg, sef ynys doreithiog o *fêl*. Am ystyr *Prydain* neu *Prydyn*, dadleuir mai cael ei galw felly a gafodd oddi wrth *Prydain ab Aedd Mawr*; ond rhoddir ystyr y gair *Prydain* yn y modd hyn, *gwyneb agored hardd; llawn o degwch*, ac y mae y gwreiddyn *pryd* yn dra ffafriol i hyn. Tebyg mai dyna ydoedd ystyr yr enw a gafodd y pencenedl hwnw, am ei fod yn *brydferth*, ac i'r ynys felly gael ei galw oddi wrtho. Y dyb a goleddir yn gyffredin am ystyr y gair *Cymry* yw, fod y genedl yn cael eu galw felly oddi wrth *Gomer*, cynfab Iapheth; ond y mae Dr. Puw yn rhoddi ystyr *Cymro* o *cym* a *bro*, sef yw hyny, yr hyn *sydd yn gynenid*, neu yn *wreiddiol â'r wlad*; *Cymmrodor*, *genedigol o'r wlad*; *Cymro*.

Yr oedd ein hynafiaid yn rhyfeddol o gall ac *athronyddol* mewn rhoddi enwau cymhwys ar bob peth yn yr holl wlad. Nid y dosbarth iselaf o'r gymdeithas oedd yn cael y swydd bwysig hon ganddynt, ond y dysgedigion, y beirdd, a'r offeiriaid. Yn bresennol y mae y ffolaf yn y wlad mor rhyfygus a rhoddi enw ar dy neu bentref, pan nad oes ynddo yr un gronyn o gymhwysder; ie, dim mwy na phe buasid yn galw *dwfr* ar *dân*, neu *oleuni* ar *dywyllwch*, ac y mae'r bodach dirmygus hyn yn cael penderfynu y pynciau hyn ar unwaith, a dynion gwybodus ac o chwaeth dda a choeth yn gorfod eu dilyn. Yn wir, y mae y Seison a Chymry Seisonig ac ysnochlyd yn ymdrechu haeru yn ddibaid mai barbariaid anwybodus oedd ein hynafiaid pan ddaethant i'r ynys hon, ac ar ol dyfod yma am gannoedd o flynyddau; ond pe byddai dim ond *Athroniaeth enwau lleoedd, afonydd*, *&c.*, i wrthbrofi hyny, byddai genym brofion tra athronyddol a boddhaol i unrhyw ymofynydd rhesymol. Gwelsom res o eiriau mewn newyddiadur yn ddiweddar, trwy y rhai yr ymdrechai yr ysgrifenydd brofi fod y Gymraeg wedi benthyca oddi ar y Lladin. Yr oedd yn ymdrechu profi fod y terfyniad *is* yn y Lladin yn cael ei droi yn ddeusain *wy* yn y Gymraeg, ac yn eu plith dygai yr afon *Tamesis*, yr hon a elwir yn y Gymraeg *Tafwys*. Ond y mae y fath resymiad a hwn i bob ieithydd craffus yn gwrthbrofi yr hyn a ymdrechai yr ysgrifenydd brofi. Nid oes un ammheuaeth gan yr ieithydd a'r hanesydd Cymreig ag sydd wedi astudio ein llenyddiaeth a'n hanes yn dda a phwyllog, nad oedd yr enwau hyn wedi cael eu rhoddi ar ein hafonydd yn gystal ag enwau ar ein prifleoedd cyn i'r Rhufeiniaid roddi troed ar yr ynys erioed. Nid oedd y dynion hyny yn gwneyd nemawr ddim i enwau priod, ond eu troi i sain eu hiaith eu hunain; ac er anghraifft o hyny, dyma ddigon o brofion yn yr enwau Cymreig canlynol:—Mon, *Mona*; Aberconwy, *Aberconovium*; Aberafan, *Aberavonium*; Abergafeni, *Abergavennium*; yr afon *Afon* yng Ngwlad yr Haf, *Avona*; Afallon, neu Ynys Afallen, *Avalonia*; Celyddon, *Caledonia*; Ceredigion, *Ceretica*; Caer Corun, *Corinium*; Conwy, *Conovium*; Dwy, neu Dyfrdwy, *Deva*; Dyfed, *Demetia*; Dyfnaint, *Damnonia*; Wysg, *Asca*, neu *Isca*; Mynyw, *Menevia*; Nedd, *Nidum*; ac amryw afonydd o'r enwau *Tain* a *Taf*, yn *Tava*. Y mae y rhes hon o enwau mor eglur a'r haul ganol dydd mai Cymraeg ydynt, ac nad yw yr enwau Lladin o honynt ond Lladineiddiad eglur a diamwys o'r enwau Cymreig cynenid. Gellir ar y tir hwn gredu yn eithaf boddhaol fod y Lladinaeg wedi benthyca ar ryw gyfnod oddi ar y Geltaeg. Ond ef allai mai y dull mwyaf boddhaol i roddi rheswm dros hyn yw, y berthynas gyffredinol ag sydd yn bodoli rhwng ieithoedd a'u gilydd, fel y profa Max Müller yn ei waith dysgedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar dan yr enw *The Science of Language*. Y mae rhes faith o eiriau Hebraeg, Groeg, a Lladin, ag sydd yn niwedd yr ail agraffiad o eiriadur Dr. Puw, yn dangos ac yn profi yn eglur yr hyn a ailadrodda y dysgedig Max Müller. Y mae afon yn sir Gaerfyrddin o'r enw *Cothi*, ystyr yr hyn yw *bwriad allan*, ac y mae y perwyddiad *ysgothi* a arferir yn bresennol mewn rhanau helaeth o Gymru, yn dangos yr ystyr yn eithaf boddhaol. Y mae y gair Groeg *kathairo* yn debyg iawn iddo; ond byddai yn rhywbeth tu hwnt i ynfydrwydd i geisio ymdrechu profi mai y Groegiaid fu yma yn rhoddi enw ar yr afon hon. Yn y modd hyn, y mae yn rhaid i ni ymfoddloni mai perthynas gyffredinol ieithoedd sydd yn rhoddi y tebygolrwydd hwn, ac mai Lladineiddiad o'r Gymraeg *Taf*, neu *Tafwys*, yw *Tamesis*.

Gwnaeth y Seison hefyd yr un peth ag enwau lleoedd ym Mhrydain, neu o'r hyn leiaf i raddau tra helaeth. Pan ddaeth y Normaniaid i Forganwg, ni a welwn yr un dull yn cael ei ddwyn ym mlaen. Tröwyd Aberogwr yn *Ogmore*; Castell Nedd yn *Neath*; y Coetty yn *Coyty*; Tal y Fan yn *Talavan*; Abersili yn *Sully*, *&c*. Y mae yr egwyddor hon yn cael ei chario ym mlaen yn feunyddiol yng Nghymru gan y Seison, ond yn fwy arbenig gan Gymry Seisonig. Y mae yr arferiad falch, goegaidd fursenaidd, ffugddysgedig, anwladgar, ac afreidiol o newid enwau lleoedd yng Nghymru yn beth dirmygus i'r eithaf; ac hefyd yn beth colledus, gan fod llenyddiaeth werthfawr yn gorwedd ynddynt. Y



Digitized by Google

mae yn y deyrnas hon ryw chwech neu saith o leoedd o'r enw *Newport*, ac y mae hyny yn achosi llawer o drafferth i'r llythyrdai. Pa achos oedd yn galw am *Tredraeth* yn *Newport?* Dim un gronyn, ond mursendod trwyadl o eiddo Cymry bychain a dirmygus. Y mae son wedi bod er ys bynyddau yn ol, am newid *Newport Gwent* yn *Uskport*, gan fod y fath nifer o leoedd yn y deyrnas o'r enw hwnw. Yr ydym yn meddwl fod rhai pobl yn galw *Tredraeth*, Mon, dan yr enw *Newport*, yr hyn sydd yn fwy na dyblygiad o'r ffolineb hwn. Y mae gosod dau enw ar lawer lle bychan yn ffolineb dirmygus, ac yn drafferth afreidiol i'r wlad, megys galw Trewyddel yn *Moylgrove;* Eglwys Wythyr yn *Monington;* Mwnt yn *Mount;* Rhydcolomenod yn *Pigeonsford;* Trawsgoed yn *Crosswood;* Gelli Aur yn *Golden Grove;* Rhydodyn yn *Edwinsford;* Trefhedyn yn *Adpar*, yng nghyd â llawer iawn yn rhagor yn y cyffelyb fodd. Mor urddasol y mae enwau yr hen balasau Cymreig yn seinio; megys Gogerddan, Manhoron, Glyn Llifon, Penmynydd (ym Mon), Nanteos, Bronwydd, Gelli Dywyll, Coedmawr, Llysnewydd, Gallt yr Odyn, Bwlchbychan, Llanllyr,* Aberglasne, Taliaris, Llanofer, Tredegar, a'u cyffelyb.

Y mae yn hollol hanfodol i wybod hanes llawer o leoedd yn ein gwlad cyn deall eu hystyr, gan fod treigliad amser wedi talfyru a newid yr iawn ddull o'u sillebu. Y mae dau le yn ardal Llanybydder o'r enwau *Gwrdy Bach* a *Gwrdy Mawr*, ac y mae lle ym mhlwyf Llanddewi Brefi o'r enw *Gwrdy*, yn gystal ag mewn amryw fanau o'n gwlad heb law hyny. Y mae hanesiaeth yn mynegu mai *Gwyryfdy* oedd yn ei ffurf gyntefig. Ymddengys mai *perthyn* i wyryfdai oedd y lleoedd hyn, ac nid yn *wyryfdai* eu hunain. Y mae lle yn agos i Glynog Fawr, Arfon, o'r enw *Bryn y Gwrdy*, yr hwn sydd yn cydgadarnhau y gosodiad hwn.† Y mae llawer lle yn ein gwlad o'r enw *Mynachdy, Maes y Mynach, Dôl Mynach, Bryn Mynach*, a rhaid olrhain eu dechreuad yn yr un modd. Y mae lle yn ardal Talsarn, ar lan Aeron, o'r enw *College*, a gallai llawer un anghyfarwydd ag hanesyddiaeth feddwl fod rhyw fath o *goleg* wedi bod yno rywbryd. Ond dim o'r fath beth. Y mae y lle hwnw yn eiddo *Jesus College*, Rhydychain, trwy ewyllys Dr. Gruffydd Llwyd, mab Llanllyr, yr hwn fu yn benaeth y coleg hwnw. Gan fod y lle yn y modd hwn yn eiddo y *College*, cafodd yntau ei alw yn *College*, a dim ond hyny. Y mae Eglwys yng Ngheredigion o'r enw *Troed yr Aur*, ac oni bai fod genym weithiau Lewis Glyn Cothi ac hen feirdd ereill, buasai yn anhawdd iawn dirnad yr ystyr. Dull cyntefig yr enw oedd, *Tredeyrn*, hyny yw, *Tref y Brenin*, neu *Tref Edeyrn*. Y mae tref fechan ym Meirion o'r enw *Abermaw*, ond a elwir yn *Bermo*, ac yn Seisonig *Barmouth*. Y mae y talfyriad a wnawd ar yr enw hwn yn ei osod yn lled dywyll, yn neillduol y dull Seisonig o hono; ond gan ei fod yn gorwedd wrth *aber* yr afon *Maw*, y mae yn hawdd canfod yr ystyr. Dywed y dysgedig Ddr. Puw mai ystyr Mawddach a Mawddwy yw, *the overflowing water*.

Ond i ddychwelyd at ddechreuad ystyr enwau yn ein gwlad, ac felly i gael gweled mor athronyddol yr oedd ein hynafiaid yn y rhan hon o lenyddiaeth. Ym mhell yn ol, pan ddaeth ein hynafiaid i Ynys Prydain, hwy a barthasant y wlad i gantrefi, cymmydau, a maenorau. Pan fyddai blaenor, neu arglwydd, yn dechreu preswylio mewn man anhygyrch o'r wlad, byddai yn adeiladu preswylfod, a byddai yr annedd yn cael yr enw *bod*, ac enw yr adeiladydd yn gyssylltedig ag ef; megys Bod Owain, Bod Edeyrn, Bod Forgan.* Ar ol adeiladu *bod*, byddai y penaeth yn adeiladu tai i'w anifeiliaid a'i bobl; ac ar ol gorphen hyn, a chael pethau i ryw raddau yn gyfleus at fywoliaeth, byddai y cyfan o'r tai yn cael yr enw *tref;* megys Tref Gaswallon, Tref Hedyn, Tref Gadwgan, a Thref Gawn. Ar ol adeiladu *cant* o *drefi* yn y modd hyn, byddid yn cauad y ffiniau, ac yn galw y rhaniad yn *gantref;* megys Cantref y Tyno Coch, a Chantref Emlyn: ac er mwyn cyfleusdra cymdeithas, byddid yn rhanu y cantref yn dri chwmmwd, mwy neu lai. Er mwyn dangos *athroniaeth* yr enwau sylfaenol hyn, y mae yn deg dyfynu yr hyn a ganlyn o'r *Myvyrian Archæolgy*.

"A'r mesur hwnw y mesurws Dyfnwal Moelmud wrth y gronyn haidd; tri hyd gronyn haidd yn y fodfedd; tair modfedd yn lled palf; tri lled palf yn y droedfedd; tair troedfedd yn y cam; tri cham yn y naid; tri naid yn y tir; sef yw y tir, o Gymraeg neu ydd, grwn; a mil o'r tir yw milltir.

"Ac o'r mesur hwnw ydys yn arfer etwa, ac y gwnaethant fesur erw gyfreithiawl o ronyn haidd: tri hyd gronyn haidd yn y fodfedd; tair modfedd yw lled palf; tri lled palf yn y droedfedd; pedwar

* Gresyn fod yr hen balas hwn yn cael ei sillebu yn *Llanllear*, a'i gynhanu yn *Lanliar*.

† Gwel nodiadau ar *Gyff Beuno* gan Eben Fardd, tud. 58. Dywed y nodiad mai *Gwyryfdy* yw yr ystyr.

* Y mae *bod* yn ei ystyr gyntefig yn cael ei arfer mewn rhanau o'n gwlad hyd heddyw, megys "etifedd y Bod" (mewn gwawd), etifedd Bodheble, &c. Yr ydym yn ddyledus i'r Brython, 1859, tud. 166, am rai o'r sylwadau yn y tudalen hwn.

Digitized by Google

troedfedd yn yr iau; ac wyth yn y meiiau; a deuddeg yn y geseiliau; un ar bymtheg yn yr hiriau; a gwialen gyhŷd a hòno yn llaw y geilwad, ac ysgwr perfedd yr iau hòno yn llaw arall i'r geilwad; a deg ar hugain o hono yw hyd yr erw; a phedair erw o hono ym mhob tyddyn a ddyly fod; pedwar tyddyn ym mhob rhandir; pedair rhandir ym mhob gafael; pedair gafael ym mhob tref; pedair tref ym mhob maenol; a deuddeg maenawl a dwy dref ym mhob cwmmwd. Y ddwy dref a ddyly fod yn raid brenin; un o naddynt a ddyly fod yn dir maerdref, a'r lleill yn ddiffaith brenin, ac yn hafottir iddo. A chymmaint ag a ddywedasom ni uchod oll a fydd yn y cwmmwd arall; sef yw hwnw o eirif, pum ugain tref; a hyny yw cantref yn iawn. Deg dengwaith a ddyly fod ym mhob cant; ac nid â rif bellach deg."

Y mae y dyfyniad uchod yn dangos pa mor fanwl ac athronyddol oedd ein hynafiaid yn eu dull syml cyntefig o fyw. Yr oeddynt yn myned ym mlaen wrth reolau mesuroniaeth. "Ac nid â rif bellach deg" medd y dyfyniad uchod. "Na," ys dydwed y Proffeswr De Morgan, un o rifyddwyr penaf yr oes hon, "*deg yw sylfaen yr holl rifedi mewn rhifyddiaeth.*" *Tir* oedd yr hen air am *grwn*, ac yr oedd *mil tir*, yr hyn sydd yn dangos yn eglur beth ydyw ystyr *milltir*. Medd y cyfreithau Cymreig saith *tref* yn y *faenor*; tair tref ar ddeg ym maenor wythdir. *Tref* yw gwreiddyn *cartref*; ac y mae *tref* yn cael ei arfer byth ym Morganwg am *cartref*. Ystyr y gair *Maenor* yw rhaniad o dir wedi ei nodi allan â *meini*. Ystyr *cwmmwd* yw *cym* a *mwd*, sef dosbarth *mydawg* (crwn, neu *round*), ac o hwn y mae y geiriau *cymmydawg* a *cymmydogaeth* yn deillio. Ystyr *cantref*, fel ag yr ydym wedi crybwyll, yw *cant tref*.

Ar ol sefydlu yn y modd hon yn y cantref, yr oedd *cwmmwd* yn rhandir llys barn. Byddent yn preswylio yn y gauaf mewn tai yn y dyffrynoedd, y rhai a elwid *Hendref*, am fod y *dref* hòno yn drigfa *barhaus*; ac yn yr haf byddent yn symud i'r mynyddau â'r gwartheg, defaid a geifr ganddynt, i gael gweithio caws ac ymenyn, yn debyg fel y mae pobl Switzerland yn awr; a galwent y breswylfa hòno yn *Hafod*, am mai *bod*, neu *dref* am yr *haf* oedd. Ni a welwn yma fod *tref* yn lle mwy pwysig na *bod*—*bod* oedd enw y lle y preswylient cyn adeiladu *tref*, a *bod* wedyn yn beth *tymmorol* ar y mynydd. Dyma ystyr yr aml le sydd yn ein gwlad o'r enw *Hendref*. Yr oedd gan y tywysogion a'r pendefigion Cymreig *faerdrefi* heb fod ym mhell o'u cestyll, neu eu llysoedd. Yn y *faerdref* yr oedd *blith* y gwartheg yn cael ei drin. Gelwid y goruchwyliwr ar y faerdref yn *faeron*, ac weithiau byddai *maer y biswail* yn cymmeryd yr oruchwyliaeth hon. Y mae ym mhlwyf Llandyssul, Ceredigion, hen gastell o'r enw *Castell Gwynionydd*, ac ar un tu iddo y mae tyddyn o'r enw y *Faerdref Fawr*, ac ar y tu arall y mae tyddyn a elwir y *Faerdref Fach*. Yr oedd y lleoedd hyn dan lywodraeth y maeronydd i drin blith arglwydd y castell. Y mae y gair *maer* perthynol i dref yn awr yn deillio o'r un cyffelyb ystyr. Wel, dyma ystyr *Maerdref*; ac y mae llawer lle yn ein gwlad o'r enw *Maerdy*, yr hwn a arwydda yr un peth. Y mae hefyd lawer o enwau lleoedd wedi eu cymmerwyd oddi wrth enwau dynion; megys y rhai canlynol oddi wrth blant ac wyron Cunedda Wledig:—Ceredigion oddi wrth Ceredig; *Meiriawn*, neu *Meirionydd*, oddi wrth Meiriawn; *Arwystli* oddi wrth Arwystl; *Dunodig* oddi wrth Dunod; *Edeyrnion* oddi wrth Edeyrn; *Dinmael* oddi wrth Mael; *Coeleion* oddi wrth Coel; *Dogfeilir* oddi wrth Dogfael; *Rhufoniog* oddi wrth Rhufon; *Caer Einion* oddi wrth Einion Yrth; ac *Osweilin* (Croesoswallt) oddi wrth Oswal. Y mae *Morganwg* wedi ei galw ar ol Morgan Mwynwawr; *Brycheiniog* ar ol Brychan; ac *Essyllwg* ar ol Essyllt. Ac y mae yn deg sylwi yma, fod yr enwau hyn ar ddynion wedi eu ffurfio o wreiddiau gyssanwynfawr y Gymraeg. Ystyr *Ceredig* yw *Caredig*, ac enw tlws yw; *Edeyrn*, *teyrn*, neu *teyrnol* (brennwl); *Dunod*, *undeb*, *hedd*, heddychiad; *Gwystl* (Arwystl), *ernes*; *Einion*,* meddiant *ein* hunain; *Mael*, *elw*, *rhodd*, *cyfoeth*. Y mae amryw enwau dynion heb law *Mael* yn cael eu gwneyd i fyny o'r gwreiddyn hwn; megys *Maelderw*, *Maeldef*, *Maelgad*, *Maelgwn*, *Cynfael*, *Maelawg*, *Maelwg*, *Maelyrus*. Y mae *Elfael* hefyd yn enw rhandir yn swydd Faesyfed. Teg yw traethu taw yr un peth yw ystyr *Maelderw* a *Derfel*, *Maelgwn*, a *Cynfael*. Ymddengys mai ystyr *Rhufon* yw *cochwawr*. Wel, mor athronyddol yw y cyfan o'r enwau a ddyfynwyd ar ddynion, yn gystal ag ar leoedd, ac yng nghymhwysiad enwau dynion at leoedd—y maent i gyd yn athronyddol, ac yn gynnwysfawr dros ben. Yn awr ni a frysiwn i gymmeryd rhes o enwau lleoedd yn eu trefn lythyrenol.

(*I'w barhau.*)

## CAN HENAINT.

MR. GOLYGYDD,—Cyfansoddwyd y penillion canlynol gan William Jones, o Fryn

* *Einion Yrth*. Ystyr *Yrth* yw *cyffyrddiad*, *rhwystr*. Y mae efe yn siarad yn *yrth*, he is speaking lispingly. Ymddengys fod yr Einion hwn yn siarad yn *yrth*, fel y mae llawer yn yr oes hon.

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 134. CHWEFROR, 1868. CYF. 12.

cael allan, resymau dros ymddwyn fel y gwnaethant, am y rhai nis gwyddom ni. Mae yn ddiammheu fod bai ar bob ochr; ond nid oes achos i ni fesur na rhanu y bai yn awr; mae dechreuad ymryson, fel y dywed y Beibl wrthym, yn gyffelyb i un yn gollwng dwfr allan; ac felly y bu hi yma, canlynodd un ymraniad y llall; torodd un sect allan o'r sect arall, a phob un fel y darnau a dorwyd o gorff Polypus yn dyfod i fodolaeth, a ffurfio eu hunain yn bleidiau, nes o'r diwedd i ddynion anghofio fod yn ddyledswydd ar bob Cristion i gadw yr undeb yn yr "un corff," a bod yn bechod i ddynion ymbleidio, a'i fod yn cael ei gondemnio gan Air Duw. Mae hyn wedi cael ei anghofio yn ein plith; mae dynion yn credu yn awr fod ganddynt hawl i ddewis eu dysgawdwyr crefyddol eu hunain, ac maent yn ystyried fod ganddynt hawl i ymuno â'r sect neu blaid a fynent, yn ol eu harchwaeth a'u mympwy eu hunain. Nid fel hyn oedd yr hen Ymneillduwyr yn ystyried y pwnc. Phylip a Mathew Henry, Flavel a Bacster; nid oedd Whitfield a Wesley o'r un farn a llawer yn yr oes hon; ni ddarfu iddynt feddwl na siarad yn ysgafn am ymraniadau. Buasent hwy gyda ni yn hiraethu am undeb, ac ni fuasent yn petruso dywedyd fod ymranu yn ddrwg mawr ynddo ei hun, fel ag yr ydym ni yn ei ystyried yn awr. Ac oni fydd i'r teimlad hwn gael ei adfywio, nis gallwn ddysgwyl dyfod yn un corff, a bydd i ymraniadau barhau. Mae yn rhaid i ni ddysgu fod ymbleidio yn ddrwg, onid e, nis gallwn erfyn am heddwch. Bydded i ni weddïo, fel y gweddïodd ein Harglwydd, "am i ni fod oll yn un;" a gweddïo fel mae y Salmydd yn ein dysgu i "weddïo am heddwch Ierwsalem," fel y byddom, fel cenedl a phobl, yn "un corff," wedi ein huno yng nghyd fel ag yr oedd gwahanol lwythau Israel, ac ymuno i gydaddoli yn yr un lle fel yr Israeliaid gynt. Bydded i ni lafurio am heddwch; ac os bydd i ni wneyd hyn, byddwn yn sicr o lwyddo. Yn y cyfamser, bydded i ni ymddwyn tuag at y rhai hyny sydd wedi ymneillduo oddi wrthym gyda gostyngeiddrwydd ac addfwynder, yn hirymarhöus, a chyd-ddyoddef â'n gilydd mewn cariad. Bydded i ni yn wastad, fel mae y Gair Dwyfol yn gorchymmyn, fod yn barod i roddi rheswm i bob dyn dros ein hegwyddorion, a'r "gobaith sydd ynom," mewn "addfwynder ac ofn." Mae chwerwedd a chabledd wedi rhwystro llawer un; ni ddarfu iddynt wella un achos erioed, ac maent yn hollol annheilwng o'r "alwedigaeth y'n galwyd iddi. Bydded i ni bwyso y drwg o ranu Corff Crist, a bydded y pechod o ymneillduo yn ein meddyliau, yr hwn sydd yn dwyn gwarth ar enw ein meistri yn y byd. Os oes rhyw un yn ammheu hyn, darllened eiriau un o'n cenadon, yr hwn a ddaeth o eithafoedd y ddaiar i gynnadledd yr esgobion a gynnaliwyd yn ddiweddar yn y deyrnas hon, sef yr Esgob Selwyn. Dywed iddo fyned i dalu ymweliad ag un o benaethiaid brodorol Sealand Newydd, yr hwn oedd yn enwog am ei lettygarwch i ddyeithriaid; iddo ofyn iddo beth oedd yr achos na fuasai yn cofleidio Cristionogaeth. Estynodd y penaeth ei fysedd allan, a chyfeiriodd at y cymmal canol, a dywedodd, "Yr wyf wedi dyfod i'r fan hon, o ba un yr wyf yn gweled tair ffordd; y gyntaf, yw Eglwys Lloegr; yr ail, Eglwys Rhufain; a'r drydydd, yw Wesleyaeth. Yr wyf yn eistedd i lawr yma mewn petruster pa un o'r tair ffordd yr wyf i gymmeryd." Safodd yn y fan ar y croesffyrdd mewn ammheuaeth nes iddo farw; yn fuan wedi hyn, syrthiodd darn o dir arno ef a'r pentref lle yr oedd yn byw, gan eu claddu oll yn fyw; ymadawodd â'r byd mewn anghredinaeth, o herwydd ymraniadau Cristionogaeth yn unig. Mae lle i ofni fod llawer un ym mhlith y paganiaid yn yr un sefyllfa o ammheuaeth, o herwydd yr anghydfod a'r ymryson sydd yn ffynu yn y gwersyll Cristionogol.

CRAIG Y FOELALLT.

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

(*Parhâd o dudalen* 11.)

### PENNOD II.

### RHESTR O ENWAU LLEOEDD A'U HYSTYRON.

***Aberaeron***, enw tref yng Ngheredigion, yr hon sydd yn gorwedd ar lan y môr, lle mae yr Aeron yn ymarllwys i Forgilfach Aberteifi. Ystyr y gair *aber* yw arllwysiad un afon i afon arall, neu arllwysiad afon i'r môr. Y mae yn ddilys ei fod o'r teulu henaf o eiriau yn y Gymraeg, gan ei fod yn gwneyd i fyny gynnifer o enwau lleoedd. Rhydd Dr. Puw *ab* yn wreiddyn iddo, a dywed mai ystyr hyny yw bywiogrwydd, neu yn hytrach gyflymder, yr hyn sydd yn dyfod yn agos yr un ystyr a *pistyll*. Y mae y gair yn perthyn i wahanol gangenau o'r Geltaeg. Y mae rhai manau yn Ffrainc wedi ei gadw ar glawr, yr hwn a elwir yno yn *havre*, megys *Havre de Grace* a'i gyffelyb. Y mae yn ei ffurf Gymreig yn Iseldiroedd yr Alban, megys Aberdeen, Abernethy; ond yn yr Ucheldiroedd ei ffurf yw *inver*, megys *Inverary*, *Inverkeithing*, *Inverleithen*, ac *Inverness*. Y mae *inver* yn debycach i'r ffurf Ffrengig *havre*, nag i'r dull Cymreig *aber*; ond eto i gyd yr un gair ydyw;

Digitized by Google

ac ef allai fod y gair Gwyddelig *bel** yn berthynas iddo. Y mae y gair i'w gael yn Llyfr C. Hergest. Y mae *aber* yn ei gysyllitiad ag enwau afonydd yn gwneyd enwau perseiniol ac athronyddol i lawer iawn o leoedd yn ein gwlad. Y mae weithiau yn cael ei dalfyru megys yn 'Berffraw, 'Bermo, a 'Berryw. Am ystyr y gair *Aeron*, nid yw pawb o'r un farn. Y mae Dr. Puw yn rhoddi y gair mewn dwy ffordd, sef *Aeron* ac *Airon*, a rhydd yr un ystyr iddynt, sef, "the splendid one; queen of brightness. Several rivers are called *Aeron—Aeron galon galed, Myrddin*." Nid ydym yn gwybod am un afon yn hollol yr un fath ei sain ag *Aeron;* ond gall yr afon *Ayr* yn Alban fod yn berthynas iddi, ac hefyd *Eirw*, neu *Eirwy*. Dywedir mai ystyr Eirwy yw rhaiadr ewynol, *a foaming cataract*. Y mae afon fechan ym mhlwyf Blaenporth, Ceredigion, o'r enw *Eirw*, a rhydd enw i le a elwir *Nanteirw*, ac i balasdy a elwir *Eirw Castle*. Dywed ereill mai *Aeron*, sef ffrwythau, a olygir fel ystyr yr enw, am fod, meddir, llawer o *aeron* yn naturiol ar ei glenydd. Wel, ef allai fod pob un o'r ystyrion hyn ar un olwg yn gywir; ond y mae y ddau yn cael eu hammheu. Dywed gwrthwynebwyr y cyntaf nad yw yr *Aeron* yn neillduol am ei *gloewder*, ond i raddau fel arall, am ei bod yn tarddu mewn lle mawnog. Dywed gwrthwynebwyr yr olaf nad yw ei dyffryn i'r mesur lleiaf yn hynod am ei *aeron*, ond i raddau fel arall, gan fod yma lawer iawn o darth gwyn yn codi yn Ebrill a Mai, yr hwn sydd yn difa y blodau. Yr ydym yn lled gyfarwydd ag Aeron, a gwyddom fod ei dwfr ar ryw brydiau, hyny yw, ar ol llifogydd, yn dywyll ei wawr, gan fod llawer o ddyfroedd mawn ynddi; ond pan fyddo effeithiau y llifogydd wedi darfod, y mae yr Aeron yn hynod loew, i fyny â'r hyn a ddywed Dr. Puw. Y mae Aneurin fwy nag unwaith yn son am Aeron yn y *Gododin*, megys,—

"Deu gathi *aeron* a cheuon dayrawt."—
Pennill 21.

"Kynri a Chenon
Kynrein o *Aeron*."—Pennill 18.

"Kyndilic *aeron* wyn enouant."—66.

"A gwedy dyrreith dy lenwi *aeron*."—65

Nid yw yn benderfynol mai yr Aeron hon sydd yn cael ei chrybwyll gan Aneurin. Y mae Lewis Glyn Cothi wrth anerch Hopcyn ab Sion o'r Llysnewydd, ar Lan Tawy, yn son am Aberaeron fel hyn:—

"St. Cler dan ei faner fo,
A swyddau Cemmaes iddo;
Bro Went, Morganwg o'r bron,
Bro Wyr, ac Aberaeron.— Dos. I., xxxvi. 35.

*Aberarth*, enw pentref yn agos i Aberaeron. Y mae yn cael ei enw oddi wrth yr afon *Arth*, yr hon sydd yn aberu i'r môr yn y fan hono. Afon fechan yw yr *Arth;* ond eto i gyd, y mae yn wyllt ac ewynog ei thaith, ac y mae yr enw hwn yn briodol iawn iddi. Y mae y gair *arth* yn unsill, ac felly nid oes modd ei ranu; eto i gyd y mae rhywbeth arbenig yn ei gydseiniaid, sef yr *r* a'r *th* yn dangos *aruthredd;* ac y mae yr enw Cymreig ar yr arth (*bear*) yn dra phriodol i'r creadur hwnw, fel un rheibus, trystfawr, ac aruthr. Y mae yn eithaf amlwg fod yr afon hon wedi cael ei henw oddi wrth ei *haruthredd* trystfawr ac ewynog; ac yn wir, y mae yn enw tra athronyddol. Y mae delw a swn yr afon yn eu cyflawnder yn yr enw *Arth*. Y mae nant arall yng Ngheredigion o'r enw *Arthog*, yr hon sydd yn perthyn i'r un gwreiddyn ieithyddol, yn gystal a dwy afonig o'r enw *Arthen*, y rhai a roddant enwau i ddau le o'r enw *Aberarthen*. Y mae un o'r nentydd yn dwyn y nodwedd briodol o *arth*, sef yr hon sydd ym mhlwyf Troed yr Aur. Y mae y rhan gyntaf o'i thaith dros allt serth, ac y mae ei swn yn *arthawg* a phriodol i'r enw. Bu *Arthen* yn enw dyn, a bu un o'r enw hwn yn frenin yng Ngheredigion. Ystyr *Arthen* fel y dengys Dr. Puw yw *arth ieuanc*.*

"Rhuthr aruthr eithiaw arthen unben."
*Cynddelw*.

Y mae yr enw priodol *Arthur* yn deillio o'r un haniad. Yr oedd yr hen bobl yn rhoddi enwau fel hyn ar eu plant i ddangos *dewrder*, fel y gwelwn ym mhellach yn yr enw *Llewelyn*, sef dyn gwrol fel y *llew*—llew elyn. Hefyd *Bleddyn*, tebygol i flaidd, yn ddiofn. Y mae hefyd y gair *Arthan*, sef Alban Arthan (*Winter Solstice*) yn cyd-eglurhau yr ystyr hwn, o blegid *Alban Arthan* yw yr amser garwaf yn y flwyddyn. Y mae *arthal*, sef gwneyd swn anhyfryd, a *cyfarth*, yn perthyn i'r teulu hwn o eiriau. Y mae yr afon *Arth* yn rhoddi hefyd enw i hen gastell, yr hwn sydd yn sefyll ar gnipell o graig ar ei glan, a elwir *Dinarth*, hyny yw, *din*, amddiffynfa, caer; ac *arth*, am fod yr amddiffynfa uwch yr afon hòno. Y mae y rhan fwyaf o ysgrifenwyr yn camsillebu yr enw hwn, ac felly yn taflu ei ystyr yn hollol o'r golwg, trwy ei ysgrifenu yn *Dinerth*, yn lle *Dinarth*. *Din* ac *arth* yw gwreiddiau y gair.

*Aberbrân* sydd enw amryw dai ym mhlwyf Penboir, swydd Gaerfyrddin. Y

* *Bel*, the mouth of a ford, or the entrance of a river.—*Sullivan's Celtic Roots*.

* Arthen, a bear's cub.

Digitized by Google

mae yr afon *Brân* yn tarddu o fynydd *Moelfre*, ac y mae y ddau enw yn perthyn i'w gilydd. Ystyr *bre* yw mynydd, ac ystyr *moel fre*, yw mynydd *moel* heb dwf arno; ac y mae y gair *bryn* (*bre yn*), sef mynydd bychan, yn berthynas iddo. Bychanigyn (*diminutive*) yw *yn* yn nherfyniad geiriau. *Bre* (mynydd) yw ystyr y rhan gyntaf o'r gair *Brĕan*; ac ystyr *an*, *ain*, neu *en*, yw *nant*; felly ystyr *Brĕan* yw *mynydd-wy*, neu *nant y mynydd*; ac yn nhreigliad amser talfyrwyd y gair o *Brĕan* i *Brân*. Nis gallwn gael ym Mhrydain well eglurhâd tarawiadol o *Brân*, nag yn y fan hon, ger Emlyn. Y mynydd yn *Moelfre*, a'r afon a dardda o hono yn *Brĕan*—mountain *stream*. Y mae amryw afonydd ym Mhrydain o'r enw *Brân*, ac y mae un ger Llanymddyfri, yr hon sydd yn rhoddi enw i hen balas *Glanbrân*, hen gartref y Gwyniaid. Y mae llawer o fynyddoedd hefyd o'r enw Moelfre yng Nghymru a'r Alban. Y mae y gwreiddair *bre* i'w weled hefyd yn *Brenni*, y Frenni Fawr, yn Nyfed; ac hefyd yn y geiriau *brenin* a *brĕyr*. Mor gynnwysfawr ac athronyddol yw y gwreiddiau bychain *bre* ac *ain*. Y mae *brenin* a *brĕyr* yn y gymdeithas ddynol, yr hyn yw *bre*, neu mynydd ar arwyneb y wlad—y maent yn uwch na phawb ereill. Dywed rhai fod y gair Seisonig *baron* yn berthynas i'r gair *brenin*, neu *brĕyr*, ac mai y Normaniaid a'i cymmerodd oddi wrth y Cymry pan wladychasant ym Morganwg; ond y mae hyn yn ammhëus, gan fod tebygolrwydd y gall fod yn perthyn i'r Lladin *baro*, a'r Ffrancaeg a'r Almaeneg *baron*: ond gall fod wedi hanu o'r un gwreiddyn, ond nid mor ddiweddar.

*Aberbudrell.* Mae y ty o'r enw hwn yn agos i *Aberbrân*. Enw y nant yw *Budrell*, ac y mae yn enw hollol gywir a phriodol. Nant *fudr* a lleidiog yw, yn rhedeg trwy waendir gwastad; ac y mae yr olwg arni yn ddioglyd ac anhyfryd, fel y byddai yn rhaid fod syched mawr ar ddyn cyn y gallai yfed dafn o'i dwfr. Y mae y terfyniad *ell* yn arwyddo peth symmudol; felly y mae athroniaeth yr enw yn fwy eglur fyth, sef sylwedd *budr*, *symmudol*. Y mae lle yn swydd Benfro o'r enw *Solfach*. Ystyr *swl* (benywaidd *sol*) yw lleidiog, ac *ach* (dwfr) yw y rhan olaf o'r gair. Nid oes modd cyfrif am yr *f* yng nghanol y gair, gan mai llithro i mewn y mae wedi wneyd, fel y mae llythyrenau yn gwneyd yn aml yn nechreu, yng nghanol, ac yn nherfyniad geiriau. Yn y modd hwn, y mae *Budrell* a *Solfach* agos yr un ystyr. Y mae *swl* yn cael ei gymhwyso at y llais, sef undonedd:

"Salw i'th gais *swl*iaith gysson,
Saf uwch y dylath a son."
*D. ab Gwilym* i'r wennol.

Y mae pentref yn Lleyn o'r enw *Abersoch*. Ystyr *soch* yw *ffos*, *gwehynffos*, ac y mae yr afon *Soch* yn rhyfeddol am ei harafwch a'i llaid—braidd y mae yn symmud. Yn y modd hyn, yr oedd ein hynafiaid yn rhoddi enwau cymhwys ar afonydd, ac enwau lleoedd yn cael eu cymmeryd oddi wrthynt. Y mae y gair Seisonig anarferedig *sough* wedi deillio o'r gair Cymraeg *soch*.

*Abercarn*, yng Ngwent. Mae yr afon *Carn* yn gam, ar lun *carn* ceffyl, ac felly y mae yr enw yn dra chymhwys.

*Abercerddinen.* Mae lle o'r enw hwn yn agos i Lanwnen, Ceredigion. Y mae nant o'r enw Cerddinen ger llaw, yr hon sydd yn rhoddi yr enw i'r ty. Y dyb gyffredin yw, fod yr afon yn cael ei henw oddi wrth y pren *cerddinen*, pa un a dybid ydoedd gynt yn llawn ar ei glenydd. Y mae y perwyddiad *cerdded* a arferwn ni mor aml yn dangos meddwl y gair yn eithaf eglur. Dywed Dr. Puw fod y gair *cerdd*, am *gân* a *thôn*, wedi cael ei arfer o herwydd fod y clerwyr yn *cerdded* o amgylch y wlad i ddadgan eu caniadau. Gan fod y gair *cerdd* yn arwyddo *symmudiad dibaid*, gallai hefyd fod wedi ei gymhwyso at yr afon, gan fod dwfr yn elfen felly; ond y mae yn fwy tebyg mai oddi wrth y pren *cerddinen* y cafodd ei galw felly.

*Aberceri.* Y mae palas ar lan Tefi o'r enw hwn, yr hwn sydd yn sefyll ger aber yr afon *Ceri*. Y mae yr afon hon, medd rhai, wedi cael yr enw oddi wrth y pren *ceri*, yr hwn hefyd a elwir yn *meryswydd*, *y dindoll*, a *tinegored*. Y mae'r pren hwn ar hyn o bryd yn brin iawn yn ein gwlad, ac felly y mae yn dra ammhëus a fu digon o amledd o hono yn tyfu ar lan yr afon hon i roddi yr enw hwnw iddi.

"*Ceri* cywrenin
Gwrthddrychiad gwrthdrin."
*Taliesin.*

Y mae ffrwythau y *ceri* (*medlar*) yn gelyd iawn nes y byddont wedi goraddfedu. Arferai trigolion sir Faesyfed alw pob hadau celyd yn *ceri*. Ond dywed ereill ystyr y gair yw *cêr* (ffrwd), a bod afon yn tarddu o Fwlch Oerddrws, Meirion, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Dyfi, yn Ninas Mawddwy, o'r enw *Cerist*, yng nghyd â nant o'r enw *Cerynt*, yn Nanhwynan, wrth droed y Wyddfa, a *Cerris*, ger Bangor, Arfon, yn perthyn i'r un teulu; a gellir ychwanegu at hyn, *cerwyn*, sef llestr fyddo yn derbyn ffrwd iddo. *Pengerwyn*, enw mynydd yn Nyfed. Diammheu fod y mynydd wedi cael yr enw oddi wrth ffrwd, neu ffrydiau a ddisgynant o hono i'r cwm o dano. Yn y modd hyn, yr ydym yn tueddu i goleddu y syniad olaf o ddaen y blaenaf. Os yr

Digitized by Google

olaf sy gywir, y mae y rhan olaf o'r gair, sef *i*, yn deillio o *gwy* (dwfr) fel yn *Dyfi*, *Teifi*, &c. Y mae y *Ceri* o enwogrwydd llenyddol. Un o'i glan oedd y bardd "Hywel Ceri;" ac ar ei glan, yn y Ddolgoch, y bu un o'n heisteddfodau "Dadeni," lle yr oedd Dafydd ab Gwilym, Dr. Sion Cent, Rhys Goch Eryri, a llawer ereill yn bresennol.

*Aberconwy*, tref hynafol yn Arfon. Mae yn fynych yn cael ei galw yn *Conwy* yn unig. Yr ystyr a rydd Dr. Puw i'r afon yw, *the dart river*, am ei bod yn *gywir* ei rhediad. Y mae amryw bethau yn ffafriol i'r golygiad, gan fod afonydd yn cael eu galw oddi wrth eu dull o redeg. Y mae afon fechan yng Ngheredigion o'r enw *Saeth*, yr hon sydd yn aberu yn Nhraeth Saeth. Y mae lle neu ddau ger llaw ei blaen o'r enw *Blaensaeth*, a lle arall o'r enw *Dyffryn Saeth*. Diammheu ei bod wedi cael ei henw oddi wrth ei dull cywir tebyg i *saeth*. Y mae afon arall yng Ngheredigion o'r enw *Ystwyth*, o herwydd ei bod yn llawn troion. Ond y mae ereill o'r farn mai *Cynwy* yw ei dull cyntefig; *cyn* (prif), a *gwy* (dwfr); hyny yw, *the chief water*. Y mae afon ym Morganwg o'r enw *Cynon*. Wrth roddi yr un ystyr i *cyn* yn y fan hon, ni welwn mai ystyr *on* yw *awon*, neu *ain*, neu *awn*, yr hyn a arwydda *dwfr*, neu nant redegog, ac yna y mae ystyr *Cynon* a *Cynwy* yr un peth. Wrth gymhwyso *cyn* at afon, y mae yn rhaid i ni roddi yr un ystyr i'r gair a *prif*, neu *flaenaf*; hyny yw, yr afon *benaf* yn y rhandir; ac felly y mae yr afon *Cynwy*, hi yw yr afon *bwysicaf* yng Ngwynedd. Un o afonydd Powys yw y Dyfrdwy. Rhenid Gwynedd yn ddwy ran, sef Gwynedd Uwch Conwy a Gwynedd Is Conwy, yr hyn sydd yn profi fod yr afon Conwy, neu Cynwy, yn un bwysig. Yn Aberconwy y cynnaliodd Maelgwyn Gwynedd eisteddfod enwog, yr henaf sy genym mewn hanes.

*Abercorus*, pentref bychan yn Nhal y Llyn, Meirion. Dywed Dr. Puw fod yr afon hon yn cael ei henw oddi wrth y ceuadau crwn y mae yn wneyd yn nhroadau ei glenydd.* Y mae afon fechan ym mhlwyf Llanfihangel ar Arth o'r enw *Bwlchog*, yr hon, meddir, sydd yn cael yr enw am fod ei rhediad yn tori llawer o *fylchau* yn ei glenydd. Yn awr, ni a welwn fod syniad Dr. Puw am yr afon *Corus* yn cadarnhau eglurhâd trigolion Llanfihangel ar Arth ar yr afonig hòno. Y mae y *Bwlchog* yn rhoddi enw i ddau dyddyndy o'r enw *Bwlchog*, fel y mae Conwy yn roddi i dref Aberconwy.

* *Corus*, a rivulet, so called from its making round excavations in the angles of its banks.—*Cambrian Register*, Vol. i., p. 296.

*Abercothi*, enw plasdy ym mhlwyf Llanegwad, ger aberiad y *Cothi* i'r Tywi. Ystyr *Coth* yw *bwriad allan*, sef tarddiad a rhediad gwyllt. Fel hyn, ystyr Cothi, neu *Coth-wy*, yw afon wyllt ei rhediad. Y mae yr afon *Cothi* yn ateb yn berffaith i'r ystyr hwn. Nid oes afon yn y Deheudir yn wylltach ei rhediad. Y mae yn chwyddo yn aruthrol gydag ychydig o wlaw, a phob amser yn rhuo ar ei thaith, gan *fwrw allan* yn fynych lawer o raian a cheryg. Y mae y gair *ysgothi*, a arferir yn fynych genym am ddolur ar anifeiliaid, yn egluro ystyr *Cothi*. Y mae y *Cothi* yn rhoddi hefyd enw i balas o'r enw *Dolau Cothi*, ac i le arall o'r enw *Glyn Cothi*, lle y preswyliai y bardd enwog *Llewelyn Glyn Cothi*; ac yn y modd hwn y mae Cothi yn afon gyssegredig gan Awen. Y mae hefyd afon fechan ym mhlwyf Llandygwydd, Ceredigion, o'r enw *Cothi*, yr hon sydd yn aberu i'r Hirwen, is law Neuadd Trefawr.

*Abercowarch*, pentref bychan yn Llan ym Mawddwy, Meirion. Nid yw yn benderfynol sut y mae yr afon *Cowarch* yn cael yr enw hwn. Tybia rhai ei bod yn cael yr enw oddi wrth fod llawer o'r planigyn *cywarch* wedi bod yn cael ei godi ar ei glenydd; ond y mae hyny yn dra ammhëus. Y mae afonig hefyd ym mhlwyf Llangynllo, Ceredigion, o'r enw *Cywerchydd*, yr hon sydd wrth bob tebyg yn berthynas i *Cowarch* mewn ystyr. Y mae afon yn sir Gaernarfon o'r enw *Erch*, yr hon sydd yn cael yr enw oddi wrth ei lliw *tywyll, brochus*.

"Bwriais gyrch hyd Abererch
(Llan yw hon wrth *Afon Erch*)."
*Goronwy Owen.*

Gall *Cowarch* a *Cywerchydd* fod yn gyfansoddedig o *caw* (deilliedig o *aw*), yr hyn a olyga *symmudol, buan, brochus*; ac *erch*, sef *tywyll, bygythiol*, yr hyn sydd yn dra phriodol i nodwedd llawer afon. Yn y modd hwn, hwyrach mai *Cawerch* all fod yr iawn ystyr am y ddwy afon *Cowarch* a *Cywerchydd*. Y mae afon arall yn sir Gaerfyrddin o'r enw *Cowyn*, yr hon sydd yn rhoddi enw i bentref o'r enw *Abercowyn*, neu Lanfihangel Abercowyn. Tebyg mai ystyr yr enw hwn eto yw *cawyn, cawen*, neu *cawain*, hyny yw, *caw* (aw) ac *ain, en*, neu *ain* (nant). Y mae y gair *Hawen*, sef enw dwy afon yng Ngheredigion, yn perthyn yn agos i'r teulu, sef *aw* ac *en*. Y mae y fath air a *cywyn, a rising, or swelling up*, yn ein geiriaduron; ond nid yw yn debyg mai dyna ystyr yr afon *Cywyn*.

"Cad Caswallon ar *Gywyn*."
*Llywarch Hen.*

Y mae yn anhawdd iawn ateb dros ddyfodiad llawer llythyren i ddechreu, canol,

Digitized by Google

neu ddiwedd llawer gair. Y mae gair ar lafar gwlad yn Ystrad Tywi, sef *ffrest*, am *rych*; *ffrest* o bytatw=rhych o bytatw. Y mae yn eithaf eglur mai *rhes* neu *rhestr* yw ffurf gyntefig y gair hwn; ond y mae yn anhawdd dirnad o ba le y daeth y llythyren *ff* i mewn? Y mae Dr. Puw yn olrhain ugeiniau a channoedd yn y ffordd hon; megys *clwt* o *llwt*, *clwyd* o *llwyd*, *clep* o *llep*, &c. Gellir traethu ym mhellach, fod y gair *cawod* yn perthyn i'r teulu *cawarch*, *cowyn*, &c.

*(I'w barhau.)*

---

## ADGOFION IEUENCTYD.

Yn awr 'rwy'n cofio'r amser gynt
Pan oeddwn fachgen bach,
A gwawr ieuenctyd ar fy ngrudd,
A gwedd a chalon iach;
Yn casglu briall gwyn y ddôl,
Ac anian imi'n swyn;
Gan chwilio trwy y dyrys goed
Am nyth aderyn mwyn.

Fy mynwes oedd yn dyner fron,
Heb deimlo twyll y byd,
A chredwn air fy nhad a'm mam
O flaen y byd i gyd;
Gwrandëwn y ffrydiau tyrfys oedd
Mor bêr eu swn i'm clyw,
A thrwy y bryniau rhedwn draw
I ddal y glöyn byw.

I hel gwyllt ffrwythau crwydro wnawn
Trwy'r ddôl o gylch y ty,
Gan gredu'n siwr fod bwgan hyll
Ym mhob hen gongl ddu;
Gwneyd barcud gwynt a throlia bach
I chwareu, oedd fy mryd,
Gan feddwl mai y bryniau draw
Derfynai faint y byd.

Wrth edrych ar yr heulwen deg
Yn t'wynu'n glaer ei bryd,
Rhyfeddwn na bai'n syrthio i lawr
Gan losgi'n ulw'r byd;
'R ol gwel'd y lloer dros gopa'r bryn
A'i delw ar y lli,
Gofidiwn na bawn ar y bryn
I afael ynddi hi.

Meddyliwn am y dysglaer ser
Oleuent yn ddiri',
Mai c'nwyllau oeddynt yn y nef
Fel ein canwyllau ni;
Hiraethwn am adenydd claer
I hedeg atynt hwy,
Fel gallwn wel'd eu defnydd teg,
A dal rhyw un neu ddwy.

Gwneyd gerddi bach o gylch y ty
Oedd fy hyfrydwch i,
A gosod 'lwynion ar y dwr
I droi wrth gwrs y lli;
Dych'mygwn mai colofnau certh
A ddaliai'r ddaiar lawr,
Ac mai'r mynyddau cribog draw
Gynnaliai'r asur fawr.

Eisteddwn ar y dorlan iach
'Mysg blodau'r briall gwyn,
I edrych ar y pysgod mân
Yn chwareu yn y llyn;
Gan hwylo'r dail fel llongau bach
I nofio ar y lli;
Ac yna i ddal y gwenyn meirch
Trwy'r llwyni rhedwn i.

Wrth feddwl am fy ieuanc oes
Fy nagrau redant lawr,
Pryd arall wrth ei chofio hi
Caf swyn a phleser mawr;
Pryd hyny nid oedd gofal byd
Na gofid dan fy mron,
Ac nid gwybodaeth oedd fy swyn,
Ond rhyw bleserau llon.

Wrth glywed darllen gan fy nhad
Am ing a chariad Crist,
Fy nghalon dyner doddai'n llwyr
Dros ei ofidau trist;
A dysgai 'mam ei gweddi dlos
Ym min y nos i mi,
Ac ato Ef dyrchafwn lais
Fy nhaer blentynaidd gri.

Yn Ysgol Sul y pentref bach,
Pa le y'm ganwyd i,
Y dysgais ddarllen hanes Crist
Yn marw drosom ni;
Ond trengu wnaeth blynyddau teg
Fy oes blentynaidd i,
Duw baro na ddiflana byth
Y cof o honi hi.

GLANCALEDFFRWD.

*Coed y Parc, St. Anne.*

---

## Y MYNYDDOEDD TANLLYD;

*Yr achos o honynt, a'r difrod a wnânt.*

*(Parhâd o dudalen 21.)*

5. *Tomboro.*—Yn Ynys Tumbawa y mae llosgfynydd Tomboro, yr hwn a dorodd allan ar y 5med o Ebrill, 1815. Yr oedd yr ynys y pryd hwnw dan lywodraeth Prydain, ac yn cael ei llywodraethu gan Syr Stamford Raffles, yr hwn a rydd hanes dyddorol o'r ymdoriad. Dywed Syr Stamford fod pawb braidd yn wybyddus o ddirdyniadau dyspeidiol Etna a Vesuvius, ond ni ddal yr un mwyaf nerthol o honynt yr un cymhariaeth â mynydd Tomboro, mewn parhâd a ffyrnigrwydd. Ymddangosai arwyddion amlwg o fodolaeth yr ymdoriad dros yr oll o ynysoedd y Mollucca, Iava, a chyfran helaeth o Celebes, Sumutra, a Borneo, i amgylchedd o fil o filltiroedd, oddi wrth y canolbwynt, trwy ysgwydiadau crynedig, a thrwst y ffrydiadau. Mewn ychydig amser ym-

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 135. MAWRTH, 1868. CYF. 12.

Mor hoff ydoedd genyf i chwareu
  Mor dawel ar dwmpath y ty,
A gwrando y corau sagellog
  Yn plethu caniadau i mi;
Mor hyfryd oedd genyf cael rhodio
  Y bryniau cyfagos o'r brol,
I weled y defaid yn pori,
  A'r wyn bach yn neidio mor llon.

Fy nghalon sy'n ddrylliog wrth gofio
  Yr amser a dreuliais mor fwyn,
Yng nghwmni fy hoffus gyfoedion,
  Heb wybod am hiraeth na chwyn;
Pa le mae'm cyfoedion, b'le, d'wedwch?
  Fy ngadael a wnaethant i gyd,
'Rwyf finnau yn awr wrth fy hunan:
  Yn feudwy yr wyf yn y byd.

TEWDWR.

---

## ADDEWID YR IESU.

Ti addewaist, Iesu tirion,
  Roi bendithion fyrdd i lawr,
I'r rhai oll a wnai weddïo,
  Yn dy enw, Arglwydd mawr;
    'Nol d'addewid,
  Llwyr fendithia ninnau 'nawr.

YLLTYR.

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

(*Parhâd o dudalen* 39.)

*Aberdar*, enw tref ym Morganwg, ac enw lle ger Aberteifi. Tybia rhai fod yr afonydd hyn a elwir *Dâr* yn cael eu henwau oddi wrth fod llawer o'r pren *derw* neu *dâr* ar eu glenydd. Y mae genym hefyd amryw afonydd o'r enw *Dyar*; y mae un yn ymarllwys i'r Nefern, neu Nanhyfer, yn swydd Benfro, ac y mae un arall yn swydd Caerfyrddin, ac yn rhoddi enw i dai a elwir *Aberdyar*. Ystyr *dyar* yw *trwst*, neu *swn*; ac y mae *gorddyar* yn deillio o hono, sef *tra dyar*.

"Ef mud a llafar,
Ef yn *orddyar*."
*Taliesin i'r Gwynt.*

"Hirnos *gorddyar* mynydd."
*Llywarch Hen.*

"*Gorddyar* adar gwlyb gro,
Dail cwyddid, difryd difro.
Ni wadaf, wyf glaf heno."
*Llywarch Hen.*

Hawdd iawn y gallasai *dyar* gael ei dalfyru i *dâr*, fel *brean* i *brân*; ac felly y mae yn dra thebyg mai *Aberdyar* oedd *Aberdar* yn ddechreuol. Y mae yn debyg hefyd fod *Aberdaron* yn Lleyn yn perthyn i'r teulu hwn o eiriau. Gall *Daron* fod yn cael ei wneyd i fyny yr un modd ag *awon*, o *aw* ac *on*. Y mae *Daron* wedi bod yn cael ei arfer yn gyfenw ar y Duwdod, yr hyn a arwyddai *taranwr*.

*Aberdaw*, enw lle yn Nyfed. Ystyr *daw*, neu *taw*, yw *tawel*, *dystaw*; hyny yw, afon ddystaw ei rhediad, croes i'r hyn ydym wedi draethu am *Dar* a *Dyar*.

*Aberdaugleddau* yw yr enw Cymreig a roddir ar *Milford*. Hen enw Cymreig *Milford* oedd *Mylfor*, sef wrth bob tebyg, *Ymylfor*, am ei fod yn *ymyl* y *môr*; ac o'r gair hwn y mae y Seisoneg wedi cael yr enw *Milford*. Gan fod *ford* yn air mor gyffredin yn y Seisoneg, yr oedd yn hawdd ac yn naturiol i'r tafod Seisonig droi *Mylfor* yn *Milford*. Y mae genym lawer o enwau yn debyg i'r enw hwn, megys *Arfor*, hyny yw, lle ar bwys y môr, a *Minfor*, lle ar *fin* y *môr*. Dywedir fod yr hen Aberdeugleddeu yn llawer nes i'r lan, sef yn agos i *Picton Castle*, ychydig yn uwch nag uniad y ddwy *Gleddau*. Dywedir yn y wlad fod y ddwy *Gleddau*, neu yn hytrach *Cleddeu*, yn cael eu galw wrth yr enw hwn, am eu bod yn debyg i *gleddeu*; a dywedir hefyd fod *Gwain*, neu *Gwaen*, yn cael ei henw o blegid fod *gwain* yn perthyn i gleddeu; ac ym mhellach fod afon rhwng y *Cleddeu* a'r *Gwain* o'r enw *Cyllell*. Y mae y fath enwau yn gwbl gysson ag athroniaeth enwau lleoedd yn yr oes hon; ond mae yn anhawdd credu fod yr hen bobl mor *anathronyddol* a hyn. Beth bynag, gallasai yr afonydd *Cleddeu* fod wedi cael yr enw oddi wrth eu tebygolrwydd i'r arf hwnw. Y mae afon fechan, ger Emlyn, o'r enw *Arad*, yr hon meddir, sydd yr un ffurf yn gymhwys ag *aradr*. Rhydd yr afon hon yr enw i bentref *Aberarad*. Y mae afon fechan arall yn aberu yn ymyl Llandyfriog, o'r enw *Trosol*, yr hon a rydd yr enw *Abertrosol* i bersondy Llandyfriog. Y mae yr un fath ei ffurf a *throsol* yn hollol. Y mae afon arall yng Ngheredigion o'r enw *Saeth*, a elwir felly o herwydd ei thebygolrwydd i *saeth*. Yn y modd hyn, gall y *Cleddeu* fod wedi cael yr un athroniaeth i'w henw. Pe buasem yn ymofyn gwreiddiau gwahanol i *Cleddeu*, buasem yn cynnyg mai *lledd* a *gwy* yw yr ystyr, ac wedi derbyn yr *C* i mewn yn yr un modd a *Cawyn*, &c. Ystyr *lledd* yw *dystaw*, neu *wastad*, ac felly gallasai fod yn eithaf priodol i nodwedd yr afon. Y mae yn llawer tebycach fod y *Cleddeu* yn cael ei henw oddi wrth yr arf hwnw, na bod y *Gwaen* yn cael ei henw oddi wrth wisg yr arf. Ystyr *gwaen* yw *gwastad*, *llyfn*, neu *gwir*, a gallesid rhoddi y tri ystyr hyn yn eithaf priodol i'r afon *Gwaen*, gan eu bod agos yr un meddwl, ac hefyd yn briodol iddi hithau.

*Aberdyfi*, tref fechan ym Meirion, yn sefyll ger geneu y *Dyfi*. Ystyria llawer mai ystyr *Dyfi* yw *dofwy*, sef afon *ddof*, hyny yw, *araf* ei rhediad; ond y mae

Digitized by Google

ereill yn traethu mai ei hystyr yw *Dyfnwy*, sef afon *ddofn* ei phyllau. Hwyrach mai yr olaf sy fwyaf cywir. Y mae llawer o lenorion wedi bod ar ei gleuydd, megys Sion Mawddwy, Dafydd ab Llywelyn Llwyd, &c.

*Aberdysyni*, enw pentref ym Meirionydd. Yr enw Seisonig a rydd Dr. Puw i'r afon yw *Sonorosity*,* hyny yw, afon drystfawr, glochog, uchelseiniol, yn llawn dadwrf a thrybestawd, ac enw rhagorol ydyw.

"Tystion ydyw'r afonydd
Teifi a *Dysyni* sydd."

*D. Ionawr.*

*Aberedwy*, enw Eglwys a phentref ym Maesyfed. Ymddengys mai dull cyntefig o sillebu enw yr afon *Edwy* oedd *Aidwy*. Ystyr *aid* yw *buandra, bywiogrwydd*, yr hyn sydd yn eithaf priodol i nodwedd yr afon. Y mae y pentref hwn yn enwog am ei fradwyr. Gwŷr y lle hwn fradychodd "Llywelyn ein llyw olaf;" ac y mae "Bradwyr Aberedwy" byth yn adgas yng ngolwg Cymry a Seison.

*Abereinon*, enw tyddyn ac hen gastell ym mhlwyf Llandyssul, Ceredigion. Ymddengys mai *ain awn* yw ystyr enw yr afon hon. Ystyr *ain* yw *ymestyniad* neu *fwriad allan*, ac ystyr *awn* yw *cyd-rediad*.

*Aberffraw*, enw pentref ym Mon, lle gynt y bu llys tywysogion Gwynedd. Ystyr *Ffraw* yw afon *fywiog*, yn llawn *ysgogiad*. Y mae y geiriau *effraw* a *deffraw* yn perthyn i *ffraw*, ac yn cydegluro yr ystyr.

"Terfysg yn rhagffysg yn rhagder a wnaeth
Twrf ton ffraeth *Ffraw Aber*."

*Cynddelw.*

*Abergeleu*, tref yng Ngogledd Cymru. Ystyr *geleu* yw yr hyn sydd yn tarddu a rhedeg yn araf ac aneglur, yn ymsoddi o'r golwg mewn cors neu laid. Hwyrach mai'r gair Seisonig goreu am dano yw *ooze*.

"Edwis terwyn teyrn feibion,
A edeu *geleu* yn ei galon."

*Cynddelw.*

*Abergwaen*. (Gwel Aberdeugleddau).

*Abergwesyn*, enw plwyf ym Mrycheiniog. Y mae *gwesyn* yn enw am *fugail*, a hyny, medd y *Trioedd*, o blegid hyn:—

"Tri *Defeidydd* gosgordd Ynys Prydain; Collwyn, Defeidydd Gosgordd Brân ab Llyr Llediaith ym Morganwg: Pybydd Moel, defeidydd gosgordd Tegerin Llwyth Llwydwarth ym Mon: a *Gwesyn*, Defeidydd gosgordd Goronwy ab Ednywain, brenin Tegeingl yn Rhyfoniawg; ac o'i enw ef y gelwir *Gwesyn* ar *fugail defaid*. Sef oedd y rhif a gadwai pob un o'r triwyr hyny chweugain mil; ac o danynt bob un drichant o feibion eillion yn nawdd genedl y Cymry."—*Tr.* 99.

Y mae y dyfyniad uchod yn dra phenderfynol ar ystyr *gwesyn* fel bugail; ond sut y daeth *Gwesyn* i fod yn enw afon, nid hawdd penderfynu. Gan fod yr ardal lle rhed y *Gwesyn* yn dir gwyllt, dim da i ddim ond cadw defaid, yn neillduol yn y cynamser, gallwn dybied fod yr afon hefyd wedi cael yr enw oddi wrth *fugail*. Ef allai mai *Nant* y *Gwesyn* (Nant y Bugail) y gelwid hi gyntaf, ac ym mhen tro, gadawyd *Nant* ar ol, a chafodd ei galw yn *Gwesyn* yn unig. Y mae hefyd dyddyndy ym mhlwyf Llandyssul, Ceredigion, o'r enw *Gwesyn*, yr hyn sydd yn taflu ychydig ammheuaeth ar yr eglurhâd uchod; ond gall mai *Lluest y Gwesyn* ydoedd ar y cyntaf, a bod y rhan gyntaf *lluest* wedi ei adael ar ol, fel y mae *Esgair* wedi ei adael ar ol oddi wrth *Tanglwst*, mewn lle yn nyffryn Troed yr Aur. Y mae llawer o enwau heb law hyn wedi cael eu cwtogi yn y cyfryw fodd, megys Llanfihangel Trefdeyrn yn *Troed yr Aur*, Llanfihangel Bugeildy yn *Bugeildy* yn unig, a Llanfihangel Penbryn yn *Penbryn* yn unig.

*Abergorlech*, enw treflan ar lan Cothi, swydd Gaerfyrddin. Y mae yr afon *Gorlech* wedi ei throi o *Garwlech* yn *Gorlech*. Y mae un peth neillduol yn rhediad yr afon hon, sef fod ynddi lawer o geryg yn cynnwys dwy natur—un, yn feddal a'r llall yn galed, ac y mae yr afon yn ei threigliad yn treulio y rhan feddal yn y ceryg, nes eu gwneyd yn byllau cywrain; ac y maent yn cael eu cyrchu o bell i addurno gerddi, drysau, a ffenestri â hwynt; ac o herwydd yr hynodrwydd hwn, y mae yr afon wedi cael ei galw yn *Garwlech*, ac o Garwlech yn *Gorlech*. Y mae yr afon Gorlech wedi rhoddi enw i'r bardd *D. Llwyd, Gorlech*. Yn y modd hwn, y mae yr enw yn dra chymhwys a pherseiniol.

*Abergwili*, enw pentref ger Caerfyrddin. Ystyr *Gwili* ydyw *troad gwyllt*, neu *llawn o droion*. Y mae afon yn swydd Wilts, o'r enw *Willy*, ac y mae yn fwy na thebyg mai yr un peth yw yr ystyr a *Gwili*.

*Abergwroq*. Mae lle o'r enw hwn ym mhlwyf y Brongwyn, Ceredigion. Y mae y *Gwrog* yn ffin rhwng rhan o blwyfi y Brongwyn a Llandygwydd. Diammheu mai ystyr *Gwrog* yw *Gwyrog*, o *gŵyr*, *cam*. Y mae afon arall yng Ngheredigion o'r un ystyr, sef Gwyre (y Wyre). Y mae *Warre* ar gyfandir Ewrop, a gall fod o'r un ystyr.

*Aberhafhesp*, enw pentref yn swydd Drefaldwyn. Y mae ystyr *Hafhesp* yn dra eglur, sef *haf hesp*, *hesp* yn yr *haf*, sef sych yn yr haf. Y mae Eglwys yn

* *Cambrian Register*, cyf. I., tud. 297.

Digitized by Google

Ystrad Tywi o'r enw Llanfihangel *Aberbythych.* Ystyr *Bythych* yw *bythach*, sef *byth* (*parhâus*) ac *ach* (*dwfr*), o herwydd fod y nant yn rhedeg o ffynnon dra ragorol, yr hon nid yw yn treio nemawr ddim yn yr haf.

*Aberrhosan*, enw pentref ym Maldwyn. Ystyr *Rhosan* yw *rhos* ac *an*. Y mae ystyr *rhos* yn eithaf eglur, sef gwaeudir uchel, ac y mae *an*, *ain*, neu *en* yn eithaf cyffredin, sef ffrwd neu nant, fel yr ŷm wedi sylwi ar yr enw *Aberbrân*, ac amryw ereill.

*Aberhonddu*, enw tref ym Mrycheiniog. Ymddengys mai ystyr *Honddu* yw *hawn* a *dwy*. Ystyr *hawn* yw *heini, buan, gwyllt.* Y mae afon fechan ger Aberporth, o'r enw *Howni*, yr hon sydd yn rhoddi enw i le o'r enw *Cwmhowni.* Gellid meddwl mai *du* yw rhan olaf yr enw *Honddu*, ond y mae yn fwy tebyg mai *dwy* ydyw. Ystyr *dwy* yw *achos dechreuol*, ac wedi cael ei gymhwyso gan y Derwyddon at amryw afonydd, megys *Dwy fawr* a *Dwy fach* yn Arfon, ac hefyd *Dyfrdwy*. Y mae genym amryw afonydd yn dwyn ol y Derwyddon yn eu cyfansoddiad. Y mae *Perydd* a *Peryddon* yn arwyddo *achosydd*, yn yr un modd a *Dwy*. Y mae hefyd afon fechan rhwng Aberaeron a Llanrhystyd, o'r enw *Peris*, yr hon, wrth bob tebyg, sydd yn arwyddo yr un peth. Y mae afon yn Nyfnaint o'r enw *Perrot*,* yr hon nid yw ond Seisonigeiddiad o *Perydd*, ac felly yn perthyn i'r un teulu Derwyddol o afonydd.

*Abermachnog.* Y mae lle o'r enw hwn ym mhlwyf Llanfairorllwyn, Ceredigion. Ymddengys mai iawn ystyr y nant *Machnog* yw *mochnog*, hyny yw, *nant fuan, wyllt.* Cymharer yr enw â *Mochnant* ym Mhowys. "*Moch* (buan) barn pob ehud."—Diareb.

*Abermaid*, enw lle yng Ngheredigion. Ystyr *maid* yw *ffin* neu *derfyn*. Y mae yr enw yn eithaf athronyddol, gan ei bod yn derfyn rhwng dau gwmmwd.

*Abermarch.* Ceir amryw leoedd o'r enw hwn. Y mae un afon o'r enw *March* ym mhlwyf Llanddewi Brefi. Y mae yr anifail a adwaenwn wrth yr enw hwn yn eithaf adnabyddus; ond sut y mae afonydd o'r enw hwn, nid yw mor eglur. Wel, yr oedd ein hynafiaid yn arfer y gair *March* yn ansoddair, yn arwyddo peth *gwrol*, *cryf*, neu *buan*. Marchwreinyn, *a ringworm*, marchredyn, *oakfern*, marchysgall, &c. Y mae yn amlwg fod *march* wedi ei gymhwyso at afon, o blegid ei dull buan a ffromwyllt yn ei rhediad. Y mae yr afon sydd yn Nyffryn Aeron yn rhyfeddol am ei gwylltineb, gan ei bod yn neidio dros greigydd.

*Abermaw*, enw porthladd ym Meirion. Ystyr *Maw*, a *Mawddwy*, a *Mawddach* yw *afon orlifol*, "the overflowing stream."—Dr. Puw.

*Abermarlais*, sydd enw llys hynafol yn Ystrad Tywi, yn gystal ag enw llawer o leoedd ereill yng Nghymru. Dywed Dr. Puw mai ystyr *mar* yw *bywiog*, a bod *marw* yn cynnwys y gwreiddyn *mar*, ond fod y llythyren *w* yn croesnewid yr ystyr, fel y gwelir yn *gwelw*; gwel, amlwg, golygus; *gwelw*, llwfr, anolygus. *Del*, prydferth, symmudol; *delw*, peth llonydd, difywyd. *Ul*, peth llaith, iraidd; ond y mae *ulw* yn golygu peth hollol wahanol i *ul*, sef peth wedi sychu a llosgi i fyny yn llwyr. *Hwn*, peth yn ein ymyl; *hwnw*, peth draw ym mhell. Y mae tebygolrwydd fod y llythyren *w* yn newid llawer o eiriau yn yr un modd; ac os felly, y mae yr ystyr a rydd y Dr. i *mar* yn dra phriodol. Am ran olaf y gair, sef *lais*, y mae yn debyg mai *clais* yw ei ystyr. Dywed Carnhuanawc fod *clais* yn air am *nant*, neu afon. Ymddengys mai dyna ystyr *Douglas*, yn Ynys Manaw, a *Douglas* yn yr Alban. Y mae genym amryw afonydd yng Nghymru o'r enw *Dulas*, neu *Dulais*, y rhai sydd yn rhoddi enwau i amryw leoedd, megys *Aberdulais*, *Glandulais*, *Pontarddulais*, &c. Dywed rhai mai *du* a *glas* yw ystyr Dulas, neu Dulais, ac mai *glas* yw ystyr *lais*, ym Marlais; ond yr ydym yn credu mai *clais* yw ystyr y rhan hon o'r enwau *Marlais*, *Dulais*, &c. Y mae genym *clais* yn cael ei arfer yn awr am *ffos*, sef *clais* y clawdd, am ffos y clawdd; ac y mae dwfr fynychaf mewn ffos. Y mae plasdy ym mhlwyf Llangathen o'r enw *Glandwylais*, ond a elwir yn awr *Glandulas*; ac yng ngwaith Lewis Glyn Cothi mae nodiad, naill ai gan Tegid neu Gwallter Mechain, yn cynnyg mai *llais* yw yr ystyr, sef, *dwy lais*, am fod nant fechan yn ymarllwys yn y fan hòno i'r *Dulais*. Y mae y nodiad yn traethu y gallasai y ddwy gael yr enw hyny oddi wrth eu murmur yn debyg i *lais* dynol. Beth bynag am gywirdeb y syniad yna, nis gallwn ryfygu traethu dim yn ei erbyn, gan fod y llenorion fu uwch ben y gwaith yn rhy uchel i ni ryfygu dyweyd gair yn eu herbyn. Tebyg mai yr un peth yw *Morlais* ym Morganwg, a *Marlais* yn Ystrad Tywi a manau ereill; ond gall mai *môr* ydyw, am fod ei dwfr yn ymdaenu, ac yn ymchwyddo yn fawr gan wlaw.

*Abermeirig.* Y mae palas o'r enw hwn yn Nyffryn Aeron. Y mae dwy afon o'r enw hwn yng Ngheredigion, ac y mae yr un uchaf yn rhoddi enw i *Ystradmeirig.* Gan fod *Meirig* yn enw dyn, tybia llawer mai oddi wrth ryw ddyn o'r enw hwnw y cafodd yr afonydd hyn yr enw; ond nid yw hyny yn debyg. Y mae yn y Gymraeg

* Y mae teuluoedd Seisonig o'r enw *Perrot*, y rhai a gymmerasant yr enw oddi wrth gastell a safai ar lan yr afon hòno.

Digitized by Google

deulu lluosog iawn o eiriau yn hanu o'r gwreiddair *mer*—sef *dyferiol*, *merawl* (dropping or distilling); *gofer* (go a mer); *cymmer*, sef uniad dau ddwfr, yr hwn air sydd yn enw amryw leoedd; *merhelyg*, sef helyg dyfrawl; a thebyg mai hyn yw ystyr *Mersey*, afon Llynlleifiad. Tywydd *meiriol*, meddir mewn rhai manau am dywydd dadleithiol; ond mewn manau ereill dywedir tywydd *meiriol* am dywydd brith teg, fyddo yn dangos haul ac yn bwrw ambell gawod o wlaw; ond y mae *meirioli* yn cael ei arfer yn gyffredin am *ddadlaith*. Yn y modd hwn, y mae digon o berthynasau gan Meirig i fod yn enw afon; ond y mae *mer* yn arwyddo dwfr lled *lonydd*, neu araf, ac y mae hyn i'w weled yn amlwg yn *dyferu*, a *gofer*. Gofer ydyw cors, lle byddo ffynnonau grisialaidd yn tarddu allan o hono. Y mae yr ystyr o ddwfr lled *araf* yn eithaf cymhwys i'r Meirig yng Ngheredigion. Mae tua deg milltir rhwng y ddwy Meirig yng Ngheredigion. Teg yw mynegu yma fod *Rhydcymmerau* yn perthyn i'r teulu hwn o eiriau.

*Abermenai.* Ymddengys mai *main* ac *wy* yw ystyr Menai, hyny yw, dwfr *main*, mewn gradd o fôr. Dwfr yn rhedeg yn *fain* sy ddywediad cyffredin.* Mae'n debyg fod yr eglurhâd hwn yn well na *Monwy*. Y mae *wy* yn troi yn niwedd geiriau yn *i*, megys yn *Ceri*, yn *e*, megys yn *Barre*, ac felly y mae yn troi yn *ai* yn *Menai*.

*Abernodwydd*, lle adnabyddus ym Mon, lle y dywedir i Hywel ab Owain Gwynedd neidio, ac felly ennill merch Einion ab Gwehelith o Dindaethwy yn wraig.

Dwy droedfedd hylwedd hylwydd—a deugain,
A digon o wrantrwydd,
Yr hyn a wel pawb yn rhwydd,
Ar naid yn Abernodwydd.

Y mae ystyr y lle hwn yn cytuno ag ystyr Menai, hyny yw, *main*, gan y golygir *nydwydd* (nodwydd) yn fain, ac felly gelwid y nant hon, er fod safn yr agoriad i'r môr yn weddol lydan.

*Aberogwr*, enw lle ym Morganwg. Ymddengys mai *ogwy* yw ffurf gywir yr afon hon. Ystyr *og* yw bywiog, yr hyn a welwn yn amlwg yn y gair *diog*, sef peth llonydd, musgrell, difywyd. Y mae y blaenddawd *di* yn newid ystyr y gair gwreiddiol. Ystyr *wy* yw *dwfr*, fel yr ŷm wedi sylwi o'r blaen.

*Aberpeithyll*, enw plasdy yng Ngheredigion, lle gynt y bu castell. Ystyr *paith* yw *claer*, *eglur*, *gloew*. Y mae *paith* i'w weled yn y gair *gobaith*, yr hyn a olyga fod perchenog y gras hwnw yn canfod yn lled glaer neu ddigwmwl o'i flaen. Ystyr ragorol yw. Y mae edrych ar afon loew ddysglaer yn rhedeg ar ro grisialaidd yn hyfryd a dymunol. Ymddengys mai ystyr *yll* yw yr hyn fyddo yn *ymdaenu*, neu yn *ymwahanu*, fel y gwelwn yn *teryll*, *dryll*, &c. Y mae lle yng Ngheredigion o'r enw *Aberpeithnant*, yr hyn sydd o'r un ystyr, yn gystal a *Dyffryn Paith*.

*Aberpergwm*, enw Eglwys a phalas ym Morganwg. Ymddengys fod yr afon fechan hon yn cael yr enw oddi wrth ei swn trydarol a pherseiniol wrth dreiglo drwy y *cwm*; a meddylia rhai ei bod hefyd yn cael hyn oddi wrth fod y côr asgellog yn hynod hoff o'r *cwm*, ac felly yn *perseinio* y lle â'u meluswawd. Y mae *Aberpergwm* yn seinio yn beraidd yng nghlyw pob Cymro gwladgarol, fel trigle y diweddar ysgolhaig a gwladgarwr W. Williams, Ysw.

"Pa argoel o *Aberpergwm?*—ein Williams
Anwylaf sy'n offrwm;
Oriau traul, Ie, ac aur trwm,
I'n coledd yn un cwlwm."

*E. Parry.*

*Abersanan*, enw lle yn Ystrad Tywi. Ystyr *Sanan* yw nant *frochus*. Golyga *san* aruthredd a syndod, ac *an* neu *ain*, fel yr ŷm wedi sylwi, *nant* neu *ffrwd*.

*Abersoch*, enw pentref yn Lleyn. Ystyr *Soch* yw dwfr llonydd, ac y mae wedi bod yn cael ei gymhwyso at ffos o ddwfr. Y mae yr afon *Soch* yn rhyfeddol o lonydd—braidd y mae yn symmud; ac y mae felly yn llawn o lili y dwfr. Y mae y gair Seisonig *sough* yn deillio o'r gair Cymreig hwn. Mor briodol yr oedd ein teidiau yn enwi pob peth!

*Abersychan*, enw lle yng Ngwent Uwchgoed. Y mae yn ymddangos fod y nant hon yn *sychu* yn yr haf, ac felly cafodd yr enw *Sychan*, yn debyg i *Hafhesp*. Ni a welwn y gair bychan gwreiddiol *an* neu *ain* yn yr enw hwn eto. Enw rhagorol o briodol.

*Abertawe*, neu *Abertawy*. Ymddengys mai iawn ystyr yr afon hon yw *taw* ac *wy* (gwy); hyny yw, afon *dawel*. Y mae genym amryw afonydd o'r enw *Taw* yn unig. Dyna ystyr yr afon a elwir yn Seisonig *Daw* (dô). Y mae yn debyg mai ffordd arall o'r un enw yw *Tywi* neu *Tywy*; ac y mae *gwy* (tawel), yn eithaf priodol am yr afon hòno.

*Aberteifi*. Y mae rhai yn traethu mai gwreiddyn cyntaf yr enw hwn yw *taf* (ymdaenawl), a bod y gair *ystafell* yn perthyn iddo, sef y man a byddai ein hynafiaid yn *taenu* pethau at fywoliaeth a chysuron. Y mae *tafod*, *tafell*, &c., yn cael eu cyfrif yn perthyn i'r teulu hwn o eiriau; dyna farn Dr. Puw. Y mae ereill yn barnu mai *taw* yw y gwreiddyn, sef yr hyn sydd yn gyfystyr â *Tawe*, *Tawy*, &c., fel yr ŷm wedi sylwi yn barod. Y mae yn wir fod *w* yn troi yn *f*, ac y gall *taw* a *gwy* fod yn wreiddiau yr enwau *Taf* a

* Water running in a small current.—*Dr. Puw.*

Digitized by Google

*Teifi.* Y mae y Dr. Puw yn rhoddi *taen* yn un ystyr i *taw*, sef, *the state of being spread or extended*, ac felly gellir cyfuno y ddau ystyr hwn. Afon weddol araf ac ymdaenawl yw y Teifi o ran ei rhediad, ac felly mae yr ystyr yn eithaf priodol iddi.

"Dy lif, y loewaf afon."
*Ieuan Brydydd Hir.*

"Gwyrdd heli Teifi tewychai."
*Cynddelw, ym Marwnad O. Gwynedd.*

Y mae genym amryw afonydd o'r enw *Taf*, y rhai, yn ol pob tebygolrwydd, sydd yr un ystyr a *Teifi.* Y mae yn dra thebyg mai *taen* yw ystyr yr afon *Tyne*, yn Lloegr.

*Aberystwyth.* Y mae ystyr yr afon *Ystwyth* yn eithaf eglur. Gelwid hi wrth yr enw hwn am ei bod yn cynnwys llawer o *droion.*

(*I'w barhau.*)

---

## LLINELLAU

### *Ar farwolaeth Arglwydd Llanofer.*

O Gymru! O Gymru! pa ham mae dy ruddiau
Yr awron yn wlybion a gwelwon eu gwawr?
Pa ham yr ymgyfyd dy fynwes garuaidd
Fel tònau alaethus ar 'storom groch fawr?
Pa beth, a ysgydwyd dy gedyrn balasau,
Gan echrys ddaiargryn yn deilchion i'r llawr?
A wnaethpwyd dy feibion a'th ferched tynerfwyn
Yn gaethion mewn cadwyn gan ryw deyrn o gawr?

Na, na, fy mhalasau a ddyrch'ant eu penau,
Fel oeddynt er's blwyddi yr ydynt yn awr;
Fy meibion a'm merched yn rhydd a ymrodiant,
Heb elyn i'w treisio a'u llethu i'r llawr;
Ond wylaf am golli fy newrion wych bleidwyr,
Eu claddu o'm golwg—am hyn 'rwyf mewn poen;
Fy meirdd, fy areithwyr, a'm gwrol wleidyddwr,
Symmudir i'r beddrod yn uchder eu hoen.

Carnhuanawc, a Thegid, ac Ifor Hael roddwyd
I orwedd yn dawel yn nyfnder y bedd;
Eu goleu ddiffoddwyd pan oeddynt fel heuliau,
Yn gwasgar pelydrau ysblenydd a hedd;
Ond nid ydoedd hyn ond dechreuad fy ngofid,
Ystorm a gyfododd yn uwch, uwch i'r lan,
Y tònau ruasant, ac ymaith dygasant
Fy arglwydd, yr hwn ydoedd dwr cryf i'r gwan.

Pan ydoedd fel derwen gauadfrig a llydan,
Yn lledu ei gangau dros feirddion yr oes,
Gan attal erch rwystrau a phoethwynt ystormus
I wneyd iddynt niwed, nac un math o loes;
Pan ydoedd y beirddion yn canu'n ei gysgod,
Eu cywrain englynion a'u hawdlau yn gu,
Hen awel angeuol o gylchoedd marwoldeb [ddu.
Ddadwreiddiodd y dderwen—aeth pobpeth yn

Ei galon a gurai mewn perffaith gydgordiad
A phob rhyw weithrediad o duedd Cymreig;
Ei enaid a swynwyd gan fryniau ban Cymru,
Ei llydain afonydd a'i huchel erch greig;
Ein hawliau ddadleuodd ar loriau Sant Stephan,*
Yng ngŵydd pendefigion mawreddog y byd;
Mewn ieithwedd mor drefnus, a thlysaidd frawddegau,
Nes teimlent wirionedd ei eiriau i gyd.

Dyngarwch a lywiai ei galon bob amser,
A chariad a wenai yn llon yn ei wedd;
Ei fynwes oedd ffynnon, o'r hon y dylifai
Ffrwd loew, risialaidd, serchogrwydd a hedd;
Ond er ei ddaioni, er teimlad y bobloedd,
Er dagrau, gweddïau fy ngwladwyr i gyd,
Ei gorff a fu farw, ond byw yw ei enaid [byd.
Mewn gwlad lawn o fwyniant uwch helbul y

Gorphenwyd,* mae'r frwydr yn awr wedi gorphen,
Fe gawd buddugoliaeth trwy riniau y gwaed;
Y nerthol elynion yn drylwyr a drechwyd,
Gorweddant yn lluoedd mewn gwarth dan ei draed; [coron,
Gorphenwyd, y cledd row'd o'r neilldu, caw'd
Yr hwn a ddysgleiria dan wenau yr Ior;
Gorphenwyd, caw'd gorsedd, a thelyn, a theyrnas,
A erys pan fflamia holl dònau y môr.

Tra yma fe'i galwyd yn "Arglwydd Llanofer,"
Ond heddyw teyrnasa mewn bri gyda'r Ior,
Yn frenin urddasol yn ymyl yr Iesu,
Yn berchen cyflawnder y Duwdod yn 'stor;
Tra yma fel ereill heillt ddagrau a wylodd,
Ond sychwyd y dagrau yn drylwyr i gyd.
A chân yn ddifloesgni am farw'r Cyfryngwr—
Ei iawn a'i fawr gariad at deulu y byd.

Ei weddw alarus a roddodd i'w deiliaid
Heirdd Feiblau i gofio am angeu ei gwr,
Yr hwn a fu iddi yn ddewr amddiffynwr,
Yng ngwyneb pob cyffro echrydus a 'stŵr;
Yr enw "Llanofer" a gerfiwyd ar galon
Pob Cymro trwy'r cread yn ddwfn a chun;
A nis gall main fysedd hen amser ei hunan
Ei dynu ef ymaith na newid ei lun.

O Gymru! gweddïa am gymhorth i'r weddw
I ddal dan ei gofid, ei halaeth, a'i chur,
'Rhai ydynt yn llethu ei chalon haelionus
I lawr i'r dyfnderoedd fel bryniau o ddur;
Na ddywed "Llanofer" heb golli hallt ddeigryn
O barch i'r dewr wron fu yno yn ben;
A bydded i'th fryniau a'th greigydd gwyllt rhwysgfawr,
Gain eilio'm dymuniad trwy adsain, Amen.

Ceredig.

*Glyn Ebwy.*

---

## MISS BURDETT COUTTS.

Mae llawer o siarad ac ysgrifenu yn bresennol yn erbyn ein boneddigion: dysgrifir hwy fel gormeswyr a gelynion y dosbarth gweithgar, ond nid yw y cyhuddiadau ond anwireddau disail. Ni fu y mawrion, ac nid ydynt yn awr, yn elynol i'r dosbarth gweithgar, fel y myn eu gelynion i ni gredu. Y cyfeillion goreu a fedd y gweithwyr yw y mawrion. Yr ydym yn cael digon o brawf o hyn yn feunyddiol. Mae miloedd o ddynion, y rhai oeddynt ddwy flynedd yn ol mewn sefyllfa barchus, yn awr yn hanner newynu yn Llundain; ac mae yn well gan lawer o honynt newynu, na myned at y

---

* Y Senedd.

* Canwyd yr anthem "Gorphenwyd" yn ei angladd, ar ei gais ei hun.



Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 136. EBRILL, 1868. CYF. 12.

Hyd nes cano'r angel olaf,
Pryd doi lan mewn newydd wedd;
Yn iach Gristion cywir galon,
Gan obeithio cawn gyd-gwrdd
Yn y nef—gwlad llawn dedwyddwch,
I gael moli wrth y bwrdd.
*Gwernogle.* D. E. (Silin Gwyllt).

## BEDDARGRAFF.

"Pridd ar bridd mor fer ei oes;
Pridd i'r pridd trwy angeu loes;
Pridd mewn pridd y sydd fel sarn,
Nes cyfyd pridd o'r pridd i'r farn."
*G. Mechain.*

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

(*Parhâd o dudalen* 81.)

*Acheth.* Y mae afon fechan yn ardal Abergorlech o'r enw hwn, yr hon sydd yn rhoddi enw i ddau neu dri o dyddyndai ar ei glenydd. Gelwir hwynt *Acheth Uchaf, &c.* Y mae lleoedd weithiau yn cael eu galw wrth enwau afonydd yn unig, heb *aber* neu *glan* yn un â hwynt. Yn y modd hyny mae Aberconwy fynychaf—sef Conwy yn unig. Ystyr *ach* yw *dwfr*, a hwyrach ei fod yn rhyw berthynas bell i *aqua* y Lladin, ac ystyr *eth* yw *symmudol*, neu *dreiddgar*. Felly, dyma ystyr *Acheth* yn eithaf eglur. Y mae yn wir fod y gair yn cael ei wneyd i fyny yn groes i'r rheol gyffredin, drwy fod yn *Acheth*, ac nid *Ethach;* ond y mae llawer o eiriau genym yn yr un modd, megys *mammaeth* yn lle *maethfam*, a llawer ereill. Y mae amryw afonydd o'r enw *Achddu*, y rhai sydd yn rhoddi enwau i amryw leoedd, megys *Blaenachddu, Melinachddu*, ym mhlwyf Cilrhedyn. Y mae yr enw *Achddu* yn cael ei wneyd i fyny yr un fath yn hollol ag *Acheth*, sef *ach* yn nechreu y gair. Y mae y cyd-darawiad hwn yn eglurdeb gwerthfawr.

*Adwy.* Y mae rhai lleoedd yn cael eu gwneyd i fyny mewn rhan o'r enw hwn, megys *Adwy'r Clawdd, &c.* Yr ystyr a roddir i *adwy* yng Ngogledd Cymru yw *bwlch*, a dyna ei ystyr ysgrythyrol; ond y mae yr ystyr a roddir iddo yn y Deheudir yn wahanol, sef coed wedi eu plethu mewn bwlch. Gelwir y gwaith hwn yn *adwydd*, am ei fod yn blethiad coed un ar y llall, yr un modd ag *adail* (*ad* ac *ail*), sef gosod un ar y llall. Y ffurf luosog o hono yw *adwyddi*, yr hyn sydd yn profi mai *adwydd* yw, ac nid *adwy*. Y mae y gwreiddiau *ad* a *gwydd* yn wreiddiau digon eglur iddo yn ol ystyr y Deheudir; ond am ystyr y Gogledd, nid yw yn hawdd cael gafael arno. Tebyg mai ffurf a meddwl y Deheudir yw y rhai gwreiddiol, a bod yr ystyr Ogleddol wedi dyfod i mewn drwy ffugyr o drawsenw (*metonymy*).

*Aeddwen*, enw llyn yng Ngheredigion, yr hwn sydd yn un o lygaid yr *Aeron*. Ystyr *aedd* yw *trystfawr*, yr hyn nis gellir briodoli i'r llyn hwn. Tebyg mai ffurf gyntefig yr enw oedd *aidd*, sef *taer, bywiog*, neu *ffyddlawn*, ac wedi ei gyssylltu â *Gwen*, yr hwn oedd yn enw benyw tra ragorol, megys *Ceinwen, Olwen, &c.* Mae *Aeddwen*, neu yn hytrach *Aiddwen*, wedi bod yn enw benyw, a gwyddom am ferch fechan yn Llandeilo o'r enw *Aiddwen* Richards. Y mae llawer iawn o lynoedd wedi cael eu henwau oddi wrth enwau dynion, yn wrywod a benywod. Enw llyn arall o'r hon y mae yr *Aeron* yn tarddu, yw *Manod*—*Llyn y Fanod.* Diammheu fod *Manod* wedi bod yn enw benyw yn yr un modd ag Aiddwen. Ystyr *manod* yw *gwyn*, neu deg iawn, sef lliw y *mân od* (eira mân). "*Lliw manod*, the hue of the driven snow, an epithet for a fair woman."—*Dr. Puw.*

"Fal *Manod* ar fol mynydd."
*D. Ddu i'r Seintiau.*

Nis gwyddom ar faes hanesyddiaeth am *Manod* yn enw benyw; ond y mae llawer iawn o enwau, yn gystal a geiriau, wedi myned ar goll. Oddi wrth *Lyn y Fanod* y cymmerodd y diweddar *Manod Wyllt* ei ffug enw.

*Aerfach.* Y mae rhai lleoedd o'r enw hwn yng Nghymru. Ystyr *aer* yw *brwydr*, neu *laddfa*, ac ystyr *fach* (bach, neu mach) yw llecyn rhwng bryniau. *Mach*ludd, lle gorphwys yr haul. Y mae *mach* i'w weled hefyd ym *Mach*wen, &c.

*Aman.* Y mae rhai afonydd yng Nghymru o'r enw hwn. Y mae *Aman* yn cael ei wneyd i fyny o ddau air, sef *aml* ac *an*, neu yn fwy syml, *am* ac *an*. Y mae yr afonydd hyn, yn neillduol yr un sydd yn swydd Gaerfyrddin, yn cael eu gwneyd i fyny yn y dechreu, yn y man lle y mae yn tarddu, o wahanol ffynnonau a ffrydiau, nes yw yr olwg arni yr un fath ag asgwrn cefn pysgodyn; a chan fod ei dechreuad yn y modd hyn, cafodd ei galw yn *Aman*, sef afon o *aml* darddiadau. Y mae y geiriau canlynol yn cadarnhau yr ystyr:—*Amddyfrwys*, llaith, neu gorsog o *bob tu.*

"Annoethach Powys, a'i thir *amddyfrwys*,
A'i thorfoedd diffwys, nyw differi."
*Ll. P. Moch.*

*Amfrwys*, llawn cangenau o bob tu. *Amlaeth*, llaeth wedi ei gymmysgu. *Ammod*, sef peth yn *bod* rhwng *rhagor* nag *un*. *Amyd*, yd cymmysgedig.

*Amgoed, Henllan Amgoed.* Ystyr *amgoed* yw lle yn cael ei amgau gan goed, ac enw athronyddol a thlws iawn ydyw ar le fyddo mewn coed.

*Ammwlch*, bwlch, neu agoriad o bob tu. *Cefnammwlch* yn Arfon.

*Amlwch*, môr-ebach yn cael ei gau gan

Digitized by Google

dir mewn dwy neu dair ffordd. Yr ydym wedi rhoddi ystyr *am*, ac y mae yn cael ei egluro yn rhagorol yn yr enw hwn eto; ac ystyr *llwch* yw *llyn*, neu unrhyw gasgliad helaeth o ddwfr, ac y mae weithiau yn cymmeryd i mewn ddwfr rhedegog. Y mae yn gyfystyr, neu o'r hyn leiaf yn gogyfystyr, a *llyn*, ond bod yr olaf yn fwy cyffredin. *Adar y llwch gwyn*, *adar y llyn wen*, sef cyfenw ar y fwlturod. Y mae *llwch* yn perthyn i lawer o enwau yng Nghymru, megys *Llwch Tawe*, *Llwch Sawdde*, *Llwch Cyhirych*, *Llanllwch*, a *Thal y Llychau*. Y mae lle o'r enw *Lochtyn*, neu *Llochtyn*, ym mhlwyf Llangaranog, yr hwn sydd yn perthyn i'r un teulu, ac y mae yn debyg mai dyma ystyr *Llacharn*. Y mae y gair hwn yn perthyn mewn gwahanol ffyrdd yng nghangenau ereill y Geltaeg, sef *Loch* yr Alban a'r Iwerddon.

*Amwythig*. Yr oedd y dref hon yn y cynamser o fewn terfynau Cymru. Ymddengys mai ystyr *Amwythig* yw *am* a *gwyth*. Yr ydym wedi egluro *am* yn barod, sef peth *aml*, neu *ymgau* am beth. Ystyr *gwyth* yw *meinfor*, *ffos*, a *gwythien*. *Gwyth melin*, sef pynfarch melin (*millpond*). Y mae y gair yn cael ei arfer yn Ystrad Tywi am *hen wely afon*. Gan fod yr *Hafren* yn tröellu o gylch y fan hon, yr oedd yn naturiol i'r hen bobl alw y lle yn *Amwyth*. Ymddengys fod y lle hwn gynt yn cael ei alw yn *Pengwern*, lle yr oedd tywysogion Powys yn cartrefi. Y mae yn ammhëus a oedd y llys yn y dref: ond y mae yn amlwg fod y gair Seisoneg *Shrewsbury* wedi cael ei ffurfio o'r Gymraeg *Pengwern*. *Shrewsbury*=*Shrubberry*. Yr ydym yn ddyledus i Garnhuanawc am ystyr Shrewsbury.

*Aran*, enw mynydd ym Meirion. Y mae yn ffurfiedig o *ar* ac *an*. Y mae *ar*, sef *uchel*, yn eithaf eglur, ac y mae y terfyniad *an* yn dra chyffredin yn yr ieithoedd Celtig.

*Arberth*, enw tref yn Nyfed. Ymddengys fod yr enw yn gyfansoddedig o *ar* a *perth*, sef prysgoed o eithin, drain, &c. Nid yw yn debyg mai *berth* (hardd) yw y gwreiddyn, gan y buasai felly yn myned yn Ar*ferth*. Y mae afon hefyd yn rhan isaf o Geredigion o'r enw hwn, yr hon sydd yn rhoddi enw i *Bontrhydarberth*, ac i balas o'r enw *Glanarberth*. Sut y gall fod Arberth yn enw afon, nid yw yn hawdd penderfynu. Hwyrach taw hyn yw yr iawn ystyr, sef *eb* (bwriad allan), megys y gwelwn yn y gair *Ebrill*, yr hwn a elwir felly am fod natur, pryd hyny, yn bwrw allan o'r ddaiar. Y mae *eb* hefyd i'w weled yn y gair *ebe*, sef dywediad (bwriad allan y meddwl); ac hefyd yn y gair *Ebw*, sef afon yng Ngwent Uwchgoed. Y mae genym hefyd y fath air ag *arab*, neu *areb*, sef dywediad coethedig (*a wit*). Y mae *Arth* yn enw rhai afonydd, a elwir felly o herwydd eu swn trystfawr. Wel ynte, peth hawdd fyddai meddwl mai *Ebarth* oedd y ffurf gyntefig, ac i *Ebarth* dderbyn y blaenddawd *ar*, ac yn nhreigliad amser, talfyrwyd ef gan y wlad o *Arebarth* i *Arberth*, yr hyn sydd yn beth naturiol iawn i'w gredu. Meddyliwn y gall hyn fod yn gynnyg lled naturiol i egluro ystyr yr enw hwn ar yr afon.

*Alwen*, sef afon wen. Un o afonydd Meirion.

*Ardudwy*, enw cwmmwd ym Meirion. Ystyr *Tudwy* (*tud* a *gwy*) yw *tir arforol*, ac ystyr rhagorol yw.

*Arfon*, sef *Ar* a *Mon*. Yr ystyr a rydd Dr. Puw ac ereill i *Mon* yw corff didoledig o unrhyw beth—peth ynysol, canolfan; ac y mae yn cael ei gymhwyso weithiau at *fuwch*. Yn y modd hyn y mae yr enw wedi ei gymhwyso at ynys Mon, ac er mwyn ei gwahaniaethu oddi wrth *Mon-Aw* (the Mon of the Water), gelwid hi yn *Mon Fynydd*.

"Cerddorion hyd *Fon Fynydd*,
Dros hon yn pryderu sydd."
*Lewis Glyn Cothi.*

Gan i Ynys Mon gael yr enw hwn, gelwid y wlad yr ochr hon iddi yn *Arfon*, sef *Ar a Mon*. Y mae hyn yn eithaf *athronyddol*. Caer yn Arfon yw ystyr Caernarfon.

*Argoed*. Y mae llawer o leoedd o'r enw hwn yng Nghymru. Y mae yr ystyr yn dra amlwg, sef *Ar y Coed*, hyny yw, ar dir uwch y coed.

*Arllechwedd*. Y mae llawer iawn o leoedd o'r enw Llechwedd, a rhai o'r enw Arllechwedd, yng Nghymru. Ystyr *Llechwedd* yw *llethr*, sef cyfodiad tir, ac Arllechwedd yw lle ar gopa llechwedd.

*Artro*, enw afon ym Meirion, ystyr yr hon yw *afon gam*.

*Asgell*, aden, holltiad. Trefasgell.

Bala. Ystyr *bala* yw ymestyniad allan. Y mae yn cael ei gymhwyso at fynyddoedd cribog. *Bal can, a white peak.* *Bala coed* yw blagur, neu flodau coed; *Bala llyn* yw arllwysiad, neu enau llyn, ac o herwydd fod y dref yn sefyll yng ngenau Llyn Tegid, cafodd ei galw Bala, neu Bala y Llyn. Y mae y gair *balch* yn perthyn i'r teulu hwn. Y mae y *balch* yn amlwg, ac felly mae y gair yn dra chynnwysfawr. Ceffyl â *bal* yn ei dalcen, sef ceffyl â *nod wen* yn ei dalcen. Dyma athroniaeth odidog mewn geirdarddiaeth. Gellir traethu ym mhellach fod y gair *blwyddyn*, sef *bal* a *gwydd*, yn perthyn i'r teulu hwn.

*Ban* a *Banau*. Y mae *ban* yn arwyddo *uchel*, neu *fan uchel*; y mae yn cael ei arfer yn enw a sylweddair. *Banau Brycheiniog*, *Tal y Fan*, *Ban uwch Deni*, &c.

Digitized by Google

*Bangor.* Y mae llawer o leoedd yng Nghymru, Iwerddon, a Llydaw o'r enw hwn. Y mae yn cael ei wneyd o *ban* (uchel) a *côr*. Lle yr oedd ein teidiau yn sefydlu athrofëydd, byddent yn eu galw yn *Corau*, megys *Côr Dewi*, *Côr Beuno*, *&c.*; ond gyda threigliad amser, cawsant eu galw yn *Ban-gorau*. Ymddengys fod athrofëydd wedi bod yn y lleoedd a adwaenwn wrth yr enw Bangor; ac y mae hanes Bangor Isgoed yng Nghallestr, Bangor Fawr yn Arfon, yn gystal a llawer o fanau ereill yn profi hyny.

*Barlwm*, neu Bryn Barlwm, enw bryn ym Morganwg. Ystyr *bar* yw *uchel*, ac ystyr *barlwm* yw, *the baretopt.*—Dr. Puw. Y mae mynydd *Berwyn*, ym Mhowys, yn arwyddo *copa gwyn*, am ei fod yn fynych yn wyn gan eira. Y mae hefyd fynydd a llyn yng Ngheredigion o'r enw hwn.

*Bargod.* Y mae amryw afonydd yng Nghymru o'r enw *Bargod*, ac yn rhoddi enwau i leoedd, megys *Blaenbargod*, *Aberbargod*, *&c.* Diammheu mai ystyr *bargod* yw *ymyl*, neu *derfyn*. *Bargod* y to=ymyl y to. Y mae yr afonydd *Bargod* yn ymylau, neu finiau cantrefi, cymmydau, neu blwyfi. Y mae yr arfon Bargod, sydd yn ardal Emlyn, yn ffin rhwng plwyfi Penboir a Llangeler, ac y mae yn debyg mai hi oedd y terfyn, neu y ffin rhwng cymmydau Uwch Cuch ac Elfed. Gelwid rhyfel Owain Glyndwr yn "Rhyfel y Bargodion," a hyny, y mae yn debyg, o herwydd ei fod yn cael ei ddwyn ym mlaen ar y Bargodion rhwng Cymru a Lloegr.

*Barre.* Y mae afon o'r enw hwn yn Nyffryn Troed yr Aur. Ymddengys fod Barre o'r un ystyr, neu o leiaf yn agos yr un ystyr, a Bargod. Y mae *bar* yn arwyddo *terfyn*, neu *wahaniaeth*. Y mae yr afon hon yn ffin rhwng rhanau o blwyfi Troed yr Aur a Phenbryn. Dilys mai *gwy* yw rhan olaf y gair, ond ei fod yn cael ei newid i *e*, a hyny ychydig ym mhellach nag yn yr enw *Tawe*. Y mae *Blaenbarre* ac *Aberbarre* i'w cael.

*Bedw.* Y mae afon o'r enw hwn yn yr un ardal a Barre. Tebyg ei bod yn cael ei galw oddi wrth y prenau Bedw ar ei glenydd; ond gall fod yn gyfansoddedig o *bed* (araf), a *gwy*, dwfr.

*Bedwas.* Y mae plwyf o'r enw hwn ym Morganwg. Ystyr yr enw yw *maes y bedw*. Ystyr *as* yw gwastadedd llyfn:

"Osid uch y'nghawdd, neud Urien ai blawd?
Uch hynt uch *as* uch ym mhob camas."
*Taliesin.*

*Berwig*, neu *Y Ferwig.* Y mae plwyf o'r enw hwn yng Ngheredigion, ac y mae maenor, neu dref ddegwm ger Llanelli o'r enw hwn; ac y mae lle ger y Ceinewydd o'r enw Rhyd y *Ferwig*. Ystyr *gwig* yw *cornel*, *cwr*, *bachell*, *cilan*. Gan mai gair benywaidd yw *gwig*, y mae y rhan gyntaf o hono, sef *Ber* (byr) yn fenywaidd hefyd. Y mae *coedwig* yn berthynas agos i'r gair hwn, ac y mae llawer lle o'r enw y *Wig* yn unig. Hwyrach fod *Berwick* Upon Tweed o'r un ystyr a hyn.

"Troi i frig y *Ferwig* a fyn."
*Lewis Glyn Cothi, i Rys o'r Tywyn.*

Dywedir fod yr hen Gymry yn arfer byw ar hela a phorthi eu hanifeiliaid, ac felly yn arfer gwneyd eu preswylfëydd yn y coedwigoedd, a bod *gwig* yn y diwedd wedi dyfod i olygu *caerfa*. *Gellwig Newydd*, a elwid felly gan Caradog.

*Berws.* Y mae lle o'r enw hwn ym mhlwyf Llanddewi Brefi. Cyfnewidiad o *mer*, yw *ber*. Y mae y ddwy lythyren *m* a *b* yn gwneyd hyny yn aml, fel y mae yn anhawdd gwybod weithiau pa un o honynt yw yr un wreiddiol, fel y gwelwn yn y geiriau *benyw* a *menyw*, *baban* a *maban*, *bath* a *math*, *&c.*, *&c.* Yr ydym wedi traethu dan yr enw *Abermeirig* beth yw ystyr *mer*, sef *llaith*, neu yn cynnwys llawer o ddwfr llonydd. Ymddengys mai *rhos* yw ystyr y rhan olaf o'r gair. Y mae gwaendir ym mhlwyf Llangeler o'r enw *Waen Meirws*, ag sydd yn egluro yr enw hwn mewn modd rhagorol. Ni welwn fel hyn, mai yr un peth yw ystyr *Berws* a *Meirws*, sef gwaendir llaith. Y mae ty ger llaw Berws o'r enw *Brwsdir*, yr hyn sydd grebychiad o *Berwsdir;* ac y mae gwaendir llaith yn cael ei alw yn *Brwsdir* yn rhan uchaf Ceredigion. Ystyriwn y cyd-darawiad hwn rhwng *Meirws*, *Berws*, a *Brwsdir* yn oleuni gwerthfawr i ddeall ystyr enwau lleoedd yn ein gwlad. Y mae yr arferiad o'r gair *Brwsdir* am waendir yn rhoddi clo ar y cyfan. Y mae *Wstrws*, ger Capel Cynon, yn perthyn i'r teulu hwn.

*Beri, a kite*, aderyn digon adnabyddus. *Ynys y Beri*, perthynol i sir Benfro, a elwid felly am fod yr aderyn hwnw yn aml arni. Y mae Beri (*Berry Farm*) yn enw plasdy, ger Trefdraeth, a gafodd ei alw oddi wrth yr un rheswm. Dyma hefyd yw'r ystyr goreu i *Brynberian*.

*Bettws.* Y mae llawer o leoedd yn ein gwlad o'r enw *Bettws*, ac yn cael ei gysylltu ag enwau dynion, megys *Bettws Ieuan*, *Bettws Bledrws*, *Bettws Geraint*, *Bettws Ysgellog*, *&c.* Y mae dysgedigion wedi ysgrifenu llawer iawn ar yr enw hwn, ac yn y diwedd yn methu penderfynu. Tybia rhai, gan fod yn dra phenderfynol mai *Bead house*, sef *ty gweddi*, yw yr ystyr; ond nid oes modd credu y syniad. Yn un peth, nid oes nemawr ddim o hono yn Lloegr, os oes un lle o gwbl. Peth arall, gan fod yr enw, beth bynag, mor hen a'r ddeuddegfed ganrif,

Digitized by Google

nis gall fod yn Seisoneg, gan nad oedd yr iaith hòno yn cael ei harfer y pryd hyny yng Nghymru. Dywed ereill ei fod yn droad o'r gair Lladin, *Beatus* (dedwydd), a meddylia ereill mai ei ystyr yw *Abatis*, lle y perthynai i Abatty, neu Briordy, a dywed ereill ei fod yn Gymraeg bur, sef *Bod wys* (*gwys*, lle trigiannol). Gall yr enw fod wedi ei wneyd o *Bod* a *gwys*; ond eto i gyd, yr ydym yn ammheu hyny. I gadarnhau hyn, dywedir fod diareb i gael, "o fryn i Fettws," yr hyn a olyga le rhwng pant a bryn. Gan fod dysgedigion yn methu cytuno am yr ystyr, ni a'i gadäwn yn ammhenderfynol, gan ochri o du *Abatis* a *Bod-gwys*.

*Blaen.* Y mae *Blaen* yn cael ei osod yn flaenddawd o flaen llawer o afonydd, ac felly yn gwneyd i fyny enwau llawer o leoedd. Y mae rhai lleoedd yn cael eu galw yn y ffurf luosog o'r gair, megys *Blaenau*, ym Meirionydd, a *Blaenau* Gwent. Y mae teulu wedi cymmeryd eu cyfenw oddi wrth *Blaenau*, yng Ngogledd Cymru, adwaenir wrth yr enw *Blainey*, neu *Blayney*—Dr. *Blainey*, &c.

*Blaenglowon.* Ceir lle o'r enw hwn yng Ngheredigion. Y mae *Gloyw-on* yn enw rhagorol ar afon, ac yn dangos mor ddoeth a manwl oedd ein hynafiaid wrth roddi enwau ar bob peth.

*Blaengwrach.* Y mae lle ym Morganwg o'r enw hwn. Ymddengys mai *Gwyr-ach* yw dull cyntefig yr enw. *Gwyr* (cam) ac *ach* (dwfr), felly mae Gwyrach yn gyfystyr a *Camddwr*.

*Blaengwrog.* Y mae lle o'r enw hwn yng Ngheredigion. Ystyr *gwrog* yw *gwyrog* (cam).

*Blaenhownant.* Y mae lle o'r enw hwn yng Ngheredigion. Tebyg mai *Hoew-nant* yw enw yr afon fechan hon. Y mae y cymmeriad o *hoew* yn dra phriodol i afonig yn rhedeg yn dra gwisgi. Y mae *w* yn arfer troi i *f* yn dra mynych, ac y mae rhai wedi bod yn ysgrifenu yr enw hwn yn Blaenhofnant, ac y mae Cymry Seisonig yn ei gynanu yn Blaenhoffnant. Hynod fel y mae Cymry Seisonig yn gallu darganfod modd i lurgunio enwau, ac yn llwyddo i gael eu hefelychu gan ereill.

*Blaenmedeni.* Y mae plasdy o'r enw hwn yng Ngheredigion. Ymddengys mai ystyr *medeni* yw *mudanwy*, sef afon *fudan*, neu ddystaw ei rhediad, ac y mae hyny yn dra phriodol i'w chymmeriad ar ei thaith. Y mae afon yn yr Ynys Wyth o'r enw *Medina*, yr hon, wrth bob tebyg, sydd yr un ystyr a'r afon *Medeni*, yng Ngheredigion. Mae yr enw hwn eto yn dangos sylw manwl ein hynafiaid.

*Blotweth.* Y mae lle o'r enw hwn ym mhlwyf Llanfihangel Rhos y Corn. Y mae *blotweth*, neu *blotwedd*, yn cael ei arfer am *blawdach*, neu *blawd*. Blotweth y melinydd, sef y blawd fyddo ar gefn ac ar ddillad y melinydd. Nid yw sefyllfa y lle hwn yn fanteisiol iawn am *flawd*, ond mewn cymhariaeth i'r mynydd sydd uwch law iddo, y mae yn deilwng o'r enw. Y mae hefyd ger llaw iddo le o'r enw *Nant y Caws*, yr hyn sydd yn egluro *Blotweth*. Ystyriai yr hen bobl fod lle cymhwys am *gaws* yng nghwm y *nant* hwnw; a bod lle cymhwys, neu yn hytrach dichonadwy, at godi yd a *blotweth* yn y fan y saif *Blotweth*. Y mae *blotty* yn air am dy blawd, hyny yw, lle cedwir blawd. Y mae yng Nghymru leoedd o'r enw Pant y Bara a Phant y Blawd, Bryn Blawd, &c. Y mae Dol Haidd, Pant yr Haidd, Bryn Gwenith, Bryn Ceirch, a lluaws o enwau tebyg yn perthyn i'r un cymmeriad o enwau.

*Bolhaul.* Y mae lle yng Ngwynedd o'r enw hwn, yr hwn a gafodd yr enw am ei fod yng ngwyneb *haul*. Y mae lle yn Ystrad Tywi o'r enw *Llygad yr Haul*, a elwid felly o herwydd ei fod yng ngwyneb yr *haul* fore a hwyr. Y mae hefyd amryw leoedd o'r enw Bol y Fron.

*Boncath.* Y mae lle o'r enw hwn yn swydd Benfro. Enw aderyn yw *boncath*, a elwir yn Seisoneg, *buzzard*. Ymddengys fod rhyw enw arall yng nglŷn a Boncath ar y lle hwn yn y cynamser. Y mae lle ym mhlwyf Llanllawddog o'r enw *Nant y Boncath*, ac ymddengys fod *nant*, neu rhywbeth, wedi bod yng nglŷn a'r lle hwn yn swydd Benfro. Y mae llawer o nentydd wedi cael enwau adar, megys Nant Gwylan, Nant Eos, Nant y Barcud, Nant y Gog; tebyg fod y lleoedd hyn wedi derbyn eu henwau oddi wrth fod yr adar hyny yn arfer eu mynychu. Ymddengys fod yr aderyn *bwncath* yn cael yr enw oddi wrth ei swn trymaidd a brawychus, fel y gwelwn yn y geiriau *bw*, *bwgan*, *bygwth*, yn gystal ag yn y gair *bo*. Nid yw yn debyg bod *nant* wedi bod yng nglŷn â *Boncath*, ger Llanfihangel Penbedw. Hwyrach mai *Llwyn y Boncath*, neu *Ffos y Boncath* ydoedd. Y mae *Boncath* arall ger Solfach.

*Bonwm.* Y mae lle o'r enw hwn yn agos i Gorwen, ac y mae amryw leoedd ereill o'r enw *Bonyn*, *&c*. Ystyr y gair yw *sail*, neu *odreu*, neu *waelod*.

*Braich y Pwll.* Dyma yr enw sydd ar bentir Lleyn. Gelwir ef yn *braich* o herwydd ei fod yn ymestyn allan i'r môr yn debyg i fraich dyn.

*Branas*, enw lle yn Llandrillo. Ystyr yr enw yw *cyrchfa brain*.—Dr. Puw. Yr ydym wedi dangos ystyr *as* yn *Bedwas*.

*Brechfa.* Y mae Eglwys yn swydd Gaerfyrddin o'r enw hwn, ac y mae lle yn swydd Frycheiniog, a thri o honynt yng Ngheredigion, a elwir Brechfa Isaf, Brechfa Ganol, Brechfa Uchaf. *Brechfa Cothi* y gelwid y lle sydd yn swydd Gaerfyrddin

Digitized by Google

a hyny o herwydd ei fod yn sefyll ar lan Cothi, lle y mae yr afon yn troi yn fyr rhwng y mynyddau, yr un fath a *braich* dyn, pan yn ei dal yn gam. Gan fod y fath gemi yn yr afon yn y lle, galwyd ef yn Brechfa, sef *Braichfan Cothi*. Y mae y lleoedd sydd yng Ngheredigion yn sefyll ger llaw yr afon Gwenffrwd, yr hon sydd yn gam ger llaw y lle. Y mae lle hefyd is law Brechfa Cothi o'r enw Brechfäu, o herwydd fod amryw droion yn y Cothi ger llaw y lle. Dywed rhai fod *brechfa* yn arwyddo daiar frechlyd; ond y mae yn fwy tebyg mai yr eglurhâd cyntaf yw yr un mwyaf naturiol. Y mae Brechfa Cothi yn gorwedd mewn man rhamantus o brydferth ar lan y Cothi, yr hon yw yr afon fwyaf barddonol yn y Deheudir. Y mae y lle hwn hefyd yn enwog am ei lenyddion uchelglodus, sef Ieuan Brechfa a Thomas Evans, y rhai oeddynt hynafiaethwyr enwog iawn. Y mae Brut Ieuan Brechfa wedi ei argraffu yn y *Myfyrian Archæology of Wales*. Gwŷr Eglwysig oeddynt.

(*I'w barhau.*)

---

## UFFERN.

Mesur—"*Gwel yr Adeilad.*"

Fy nhestyn trist yw uffern,
Lle tywyll heb un llusern,
Llawn cethern aflwys;
Bu'n ddychryn i bob dynion,
O ddechreu'n cynoesolion,
Draw ym Mharadwys.
Mae'n wiw—hwn oedd ddadguddiad syw,
Gaed ar y galon,
Yn rhybudd union,
Er attal dynion,
Sy'n geimion, ffolion ryw;
A'u cadw rhag troseddu,
Ammharchu deddfau Duw.
Heb lai, mae y gydwybod fau,
Yn galw'n ddiwyd
I mi ddychwelyd
I lwybrau'r bywyd,
Sy hyfryd i bob rhai,
Rhag im' gael fy ngheryddu,
A'm cospi am fy mai.

Lle llawn o ingawl boenau,
Hen garchar y carcharau,
Ac ofnau seilwon;
Cartrefle hyll gythreuliaid,
A llengau fyrdd o ddiafliaid,
Mewn ffeuau dyfnion.
Mae'n waeth nag un yr Ior a wnaeth;
Mewn annedwyddfyd,
A phob rhyw adfyd,
O'i fewn mae mynyd
Yn enbyd benyd caeth,
Tost dynged ei dlawd gaethion
Trwy'm calon dery aeth!
Ym mhell, mewn anweledig gell,
Mae cenedlaethau,
O fewn craff furiau,
O ffin eneidiau,
Mewn ffiamiau cedyrn ell,*
Yn dyoddef mewn anobaith
O gaffael gobaith gwell!

Llosgedig lyn tragwyddol
O lid y Duw anfeidrol,
Haeddiannol wobrau,
Geir ynot i'th drigolion,
Sy'n fythol garcharorion
Mewn cryf gadwynau.
Ni fydd i'r dyrfa hon sy'n brudd,
Na gwaredigaeth,
Nac iachawdwriaeth;
Ond byth y byddant
Heb fwyniant, seibiant rhydd,
Mewn dirfawr ddyoddefiadau,
Blinderau nos a dydd.
Ar fyd, yr annuwiolion 'gyd,
Yr Ior a wlawia
O'r nefoedd eitha',
Ryw faglau tanllyd,
Dychrynllyd fydd eu pryd;
Bydd byth yn llawn eu phiolau
O bob rhyw blâu 'nghyd!

Eu bywyd gŵyr, anufudd,
I ddeddfau y Creawdydd,
A fydd yr achos
I'r sawl a gânt eu gyru
Ar ffrwst i uffern obry,
I'r dywell hirnos.
I gyd—hwy ddyoddefant lid
Am drawyddoldeb,
Heb gael cymmundeb
Ym mhresennoldeb,
Anwyldeb, undeb trud;
A'r Iesu, 'r Hwn fu'n ddiddig
Mewn dirmyg yn y byd.
A hyn, byth a'u poenydia'n llyn—
Bod yn absennol
Y Duw tragwyddol,
Yn ei ryfeddol,
Ddedwyddol, wyddfod gwyn;
Hyn fydd yn cyfansoddi
Eu mawr drueni syn.

Gwlad lom, hell, druenusaf,
Didolus, d'wyllwch eithaf,
A gwaethaf tlodi;
Yn hon a'i holl ororau,
Bwystfilod lu a dreigiau
Sy'n ymbalfalu.
Ac lawr, i blith y rhai'n heb wawr,
Sy mewn trueni
Yng ngwlad y fagddu,
Pwy gânt eu taflu
I boeni, loesi'n fawr,
Ond hwy, rhai sy'n ammharchu
A mathru'r Iesu'n awr?
Mae'n rhaid—cyfiawnder pur ni phaid,
Gael ei fawrygu
A'i anrhydeddu,
Wrth ddyoddef obry,
Duw Celi sydd o'i blaid,
Neu barchu'r Hwn fu'n gwaedu,
I'n codi ni o'r llaid.†

Amynedd yr Iehofa
Sy wedi darfod yma,
Nid para clywir

---

* Amlwg.

† "Cyfodaist fi allan o'r pridd tomlyd."—Salm xl. 2.

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 137. MAI, 1868. CYF. 12.

Yn glaer ac hudol; swynol yw seiniau
Ei genedlaeth, rhont iddo gain odlau;
Caiff fad englyn y delyn, a'i diliau;
Clod y beirddion, a'u mwynion emynau;
Rhianod eres, fel engylesau,
Wenant a llonant wrth wel'd eu lluniau;
O! gôr addien yw eu serchog ruddiau,
A byw iechyd a chwardd ar eu bochau;
Rhoddwn glod peraidd yn glau—i'r celfydd
Geitbo aneilydd, gwaith awen olau.

Lluniedydd llawen ydyw,
Cawr yn ei waith, cywrain yw;
E gofia'r byd ei gyfarch,
Hyd ael y bedd deil ei barch;
Ei oes fo'n hir, hir ei hedd,
A rhodied mewn anrhydedd.

CAERONWY.

*Llandeilo Fawr.*

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

*(Parhâd o dudalen 112.)*

*Brefi, Llanddewi.* Y mae Llanddewi Brefi yn dra adnabyddus yng Nghymru, lle yr enwogodd Dewi Sant ei hun gymmaint wrth wrthwynebu Morganiaeth. Dywed traddodiad, neu chwedl, mai yr ychain banog ddarfu *frefu* yno nes hollti Craig y Foelallt; ond y mae eisieu cael eglurhâd heb hyn ar ystyr yr enw. Y mae yn ddilys mai *Brefi* yw enw yr afon hon, hyny yw, *bre* (mynydd), a *gwy* (dwfr); ac ar ol gwneyd gair cyfansawdd o hono, yr oedd yr *g* yn myned i golli, ac yna yr oedd yn cael ei alw yn *Brewy*, neu *Brewi*, a chan fod y llythyren *w* yn arfer troi yn *f*, felly y gwnaeth yn y fan hon; ac ar ol newid yn y modd hyny, dyna yr enw yn *Brefi*, a hyny mor naturiol ag y mae dwfr yr afon risialaidd yn treiglo heibio yr hen fan cyssegredig. Dywed rhai mai *Brenig* yw enw yr afon hon; ond y mae yn annhebyg o fod yn gywir, gan mai Brenig yw enw afon Tregaron. Ystyr *brenig* eto yw *nant y mynydd*.

*Breinog.* Y mae palas ar lan Aeron o'r enw hwn. Ystyr yr enw yw *breiniog*, neu *breintiog*, am ei fod ym *mraint* Castell Trefilan, yr hwn a adeiladwyd gan Maelgwyn ab Rhys.

*Brenni, Y Frenni Fawr*, enw mynydd yn Nyfed. Gwreiddyn yr enw yw *bre* (mynydd), ac *eni* (uchel). Y mae *brenin* yn perthyn i'r teulu hwn. Y mae *brenin* yn y wladwriaeth, yr hyn yw *brenni*, neu fynydd, yn y wlad—yn uwch na phawb o'i ddeutu.

*Breseli.* Dyma enw y llinell fwyaf pwysig o fynyddau yn Nyfed, ac a elwir gan y Seison yn *Precelly*. Ymddengys, yn ol y deongliad mwyaf cyffredin, mai *bre sylwi*, sef *bre*, neu fynydd i sylwi ym mhell, yw yr ystyr. Y mae yn eithaf eglur mai *bre* yw yr ystyr yn y rhan gyntaf, ac y mae tebygolrwydd mai *selu* yw ystyr y rhan olaf. Y mae *selu* yn hen air am *edrych*, neu syllu mewn modd neillduol.

"Cael dirgelu clwyf annelu,
Cair dy *selu* croew des haelion."*

*W. Lleyn.*

Ond y mae rhai yn ammheu hyn, gan draethu fod afon fechan yn tarddu o'r mynydd o'r enw *Selu*, yr hon a gyfieithai yr enwog Edward Llwyd yn *gruttio*. Ond hwyrach mai'r eglurhâd cyntaf yw yr un cywiraf. Y mae *Breseli* yn hen enw yn cael ei goffa ym Mabinogi Pwyll Pendefig Dyfed:—

"Ac yn y drydedd flwyddyn y dechreuais gwŷr y wlad ddala trymfryd ynddynt, o weled gwr cymmaint a gerynt a'i harglwydd, ac eu brawdfaeth yn ddietifedd, a'i ddynu atynt a wnaethant. Sef y lle y daethant yng nghyd i *Breseli*, yn Nyfed."

*Bribwll.* Y mae llawer o dai o'r enw hwn. Cyfnewidiad yw o *Priddbwll*.

*Bridell*, enw Eglwys yn Nyfed. Cyfnewidiad yw o *Priddell*. Gan mai enw benywaidd yw, y mae *P* wedi newid i *B*, gan gymmeryd y fannod *y* o flaen yr enw, fel *Cilfach*, yn *Y Gilfach*. Y mae *dd* a *d* yn arfer newid un yn lle y llall, fel y gwelwn yn *cerddinen* mewn rhan o'r wlad yn *cerdinen*. Y mae *priddell* yn arferedig am delpyn o ddaiar, ac hefyd am ddaiar gladdu; ac ef allai taw yn yr ystyr olaf y cafodd yr enw ei gymhwyso at yr Eglwys hon.

*Brithdir.* Y mae lleoedd o'r enw hwn, sef *Brith-dir*, ac y mae yr ystyr yn eithaf eglur, er fod rhai yn meddwl mai *blithdir* wedi ei gyfnewid yw.

*Bron.* Ystyr *bron* yw *llethr*, neu *ochr*, yr hyn sydd gyfystyr â'r Seisoneg *breast*. Y mae *Bron* yn gwneyd i fyny lawer iawn o enwau. Weithiau y mae yn cael ei gyssylltu â sylweddeiriau ereill, a phryd arall ag ansoddeiriau, ac ambell waith ag enwau dynion, megys Bron y Clydwr, Bron y Foel, Bronnant, Bron Wen, Bron Goch, Bron Las, Bron Lwyd; Bron Iwan, Bron Wion, Bron Wilym. Gair benywaidd yw *bron*; ond mae yn debyg ei fod yn cael ei arfer weithiau yn wrywaidd, megys yn *Bron Gwyn*. Mae Eglwys o'r enw hwn yng Ngheredigion; ac y mae dau le ym mhlwyf Llangoedmor o'r enw Brongwyn Bach a Brongwyn Mawr. Y mae rhai geiriau yn cael eu harfer yn bob un o'r ddau ryw: un felly yw *man*. Y mae palas hynafol yng Ngheredigion o'r enw *Bronwydd*, yr hyn a dybia rhai sydd yn golygu *Broncoed*; ond clywsom ysgolhaig craffus

* *Selu*, to behold.—*Dr. Puw.*

Digitized by Google

yn dywedyd mai *Bronydd* yw. Pe *Bron y Coed* yw, y mae yn rhaid fod y gair wedi cael ei wneyd i fyny yn groes i'r rheol gyffredin, o blegid y mae yn debyg mai oddi wrth y *fron* y cafodd yr enw, ac nid oddi wrth y *gwŷdd* (coed); gan hyny, er mwyn dangos y fron ar ba un y mae yn sefyll, dylasai fod yn *Coedfron*, neu *Gwyddfron*. Y mae rhai lleoedd wedi cael enwau yn y rhif luosog, dyna *Llidiardau* (*gates*), a *Nannan* (*brooks*); a gallwn feddwl fod *Bronwydd* wedi cael ei alw felly. Yr unig wrthwynebiad a ellir ddwyn ym mlaen yw, o ba le y daeth yr *w*? Y mae yn rhy anhawdd ateb dros bob llythyren ag sydd yn ymwthio i mewn i air.

*Brwg*. Gwreiddyn y gair hwn yw *bar* (gorchudd); ond y mae yn eithaf bychan i fod yn wreiddair ei hun. Y mae yn enw i lawer o leoedd yn Neheudir Cymru; megys *Brwg* Sant Iorys, *Brwg* Llansant Ffred, a *Brwg* y Dyffryn.

*Bryn*. Y mae y gair bychan a thlws hwn yn gwneyd i fyny ran o lawer iawn o leoedd yn ein gwlad. Y mae y gair *bryn* yn cael ei wneyd i fyny o *bre* a'r bychanigyn *yn*, sef *brëyn*, hyny yw, *bre*, neu fynydd *bychan*, ac yn nhreigliad amser wedi ei grebachu i *bryn*. Y mae llawer iawn o elfenau a ffurf iaith i'w gweled ynddo. Y mae ei wréiddiau yn hollol eglur, ac y mae y dull y mae wedi cael ei wasgu yn dangos y modd y mae llawer o eiriau wedi eu gwneyd yn yr un modd. Y mae mor athronyddol yn ei elfenau dechreuol, fel nad oes modd cael ei well, ac y mae ei gymhwysiad at fynydd bychan yn ardderchog. Y mae lle o'r enw *Bryn Banon* yn Llanfor, Meirion, yr hwn a gyfieitha Dr. Puw yn *Queen's Hill*. Y mae lle yn sir Benfro o'r enw *Bryn Berian*, yr hwn a dybia rhai sydd yn golygu Bryn *Beran—beran*, *afon fer*; ond hwyrach mai *beri* (barcud), neu *berian*, yr hyn a olyga yr un peth. Y mae *Bryn Dyoddef*, ger Emlyn, lle gynt y byddai Arglwyddi Emlyn yn cospi drwgweithredwyr. Y mae hefyd ym mhlwyf Llandygwydd fryn o'r enw *Bryn Bwa*. Hwyrach ei fod yn cael ei alw felly oddi wrth ei lun crwn; ond y mae *bw*, mewn un ystyr o hono, yn golygu *edrychydd* dros rywbeth, ac ef allai mai dyma ystyr y bryn hwn. Y mae yng Ngogledd Cymru le o'r enw *Brynbo*, yr hwn, ef allai, sydd o'r un ystyr a *Brynbwa*. Y mae lle ym Meirion o'r enw *Bryn Ellyllon*, sef *Bryn y Bwganod*. Y mae hefyd le yn Llandecwyn o'r enw *Bryn y Bwbach*, sef *Hill of the Sprite*.* Y mae fod y lleoedd hyn yn dwyn enwau *bwganod* ac *ellyllon* yn rhoddi lle i gredu mai dyna ystyr *Brynbo*, gan fod *bw*, neu *bo*, yn golygu *brawychu*. *Bryneich* (Bernicia), teyrnas Gymreig yng Ngogledd Lloegr, a elwid felly am ei bod yn *fryniog*.

*Buallt*, gallt, neu goedwig, lle gynt yr oedd *bualod*, neu ychain gwylltion.

*Buddygre*, enw lle ger llaw Abermaw, a elwid felly o herwydd cael buddugoliaeth arno.—*The race of victory*.—Dr. Puw.

*Bwlch*. Y mae ystyr y gair bychan hwn yn eithaf eglur. Y mae yn cael ei gymhwyso yn fynych at agoriad mewn llinell o fryniau a mynyddoedd, megys *Bwlchgwynt*, yn Nyfed, *Bwlch Cefn y Sarff*, ger Llanymddyfri, *Bwlch Oerddrws*, Meirion, &c. Y mae *Bwlchgwynt* yn enw tra chyfaddas ar y lle hwnw yn Nyfed, gan fod nerth y *gwynt* yn fawr yn yr agoriad hwnw. Y mae *Bwlch Oerddrws* yn golygu yn agos yr un peth, am fod y bwlch yn debyg i ddrws oer yn sugno gwynt yn erwin ofnadwy. Y mae Bwlch yn Llandrillo, Meirion, o'r enw *Bwlch Maen Gwynedd*, "the pass of the *Meerstone of Gwynedd*." Gelwid ef felly am fod yno *faen* yn dangos terfyn Gwynedd, ac yn wir y mae y fath enw yn dra gwerthfawr, yn gystal a chymhwys, i ddangos hyd heddyw ffordd oedd terfyn talaeth Gwynedd. *Bwlch y Groes*, rhwng Mawddwy a Phenllyn, a elwid felly am fod teithwyr yn ymostwng wrth ei droed i ofyn nawdd y *Groes* cyn ei groesi. *Bwlch y Forwŷn*, yn yr un swydd, a ddengys fod teithwyr wrth ei groesi yn gofyn nawdd y Forwyn Fendigaid. *Bwlch y Pawl*, yn Llandrillo, ydoedd y lle oedd Rhodri Mawr wedi nodi i dywysogion Gwynedd a Phowys gyfarfod, er mwyn penderfynu yn heddychol unrhyw ymryson a hanfodai rhyngddynt.

*Bwrdd Arthur*, enw cromlech a lle uchel ar ben mynydd Berwyn, Meirion. Y mae y gair *bwrdd* yn cael ei gymhwyso yn fynych at feini derwyddol.

Cader. Y mae *cader* yn arwyddo *amddiffynfa*, neu *gaerfa*, a hefyd lle i eistedd, fel yr arferir ef genym ni yn bresennol. Y mae amryw fanau uchel yn dwyn yr enw hwn, megys Cader Dinmael, Cader Idris, a Chader Fyrddin. Y mae y gair *cader* yn deillio o'r gair *cadw*, neu yn hytrach yn perthyn iddo. *Cader*=cadwrfa.

*Cadwyn*. Mae afon o'r enw hwn yng Ngheredigion, am fod ei glenydd yn dwyn tebygolrwydd i dorchau, fel y dywedwyd am *Bwlchog* a *Chorus*.

*Caer*. Y mae y gair bychan hwn yn perthyn i'r perwyddiad *cau*, neu *cauad*, ac i'r sylweddair *cae*. Y mae y perwyddiad *cau* yn golygu diogelu unrhyw beth rhag perygl; ac y mae *cae* yn arwyddo tir wedi ei *gau* â chloddiau. Yn y modd hwn, ni a welwn yn amlwg ystyr y gair *caer*, sef lle wedi ei ddiogelu a'i sicrhau gan wèlydd,

* *Cam. Reg.*, vol. I., p. 291.

Digitized by Google

fel y gallai ei feddiannwyr eu diogelu eu hunain. Y mae y lleoedd a adwaenir gan y Cymry wrth *caer* yn cael eu galw gan y Seison yn *caester*, *cister*, a *chester;* a chan y Rhufeiniaid yn *castrum*. Y mae yn wir fod y gair yn tebygoli rhywbeth i'r gair Lladin; ond nid oes eisieu pryderu dim gyda golwg ar ei darddiad Cymreig, gan fod y perthynasau a ddyfynasom yn barod yn ddigon i dori y ddadl ar unwaith. Ymddengys mai *Caer Daf* yw ystyr *Caerdydd*, ond bod y werin wedi ei droi i *dydd*, am fod y sain hwnw yn dra chyfarwydd i'r glust. Gelwid hi felly am ei bod ar lan yr afon *Taf*, yn debyg fel y gelwid Dinarth, am ei bod yn sefyll ar graig uwch law yr afon Arth. *Caerfyrddin:* ymddengys fod y lle hwn wedi cael ei enw oddi wrth ryw ddyn o'r enw *Merddin*, a hyny mor bell yn ol ag nad oes hanes am dano. Y mae y Parch. D. Peter, yn ei *Hanes Crefydd yng Nghymru*, yn mynegu fod yr enw *Caerfyrddin* yn cael ei wneyd i fyny o dri gair, sef *caer*, *mur*, a *din;* ond nis gallwn weled cyssondeb yn eglurhâd yr awdwr dysgedig a pharchus, gan fod *caer* a *din* yn eiriau cyfystyr, ac y mae *mur* hefyd yn perthyr yn agos i'r un peth. *Muriau y ddinas*=gwèlydd amddiffynol y ddinas. Am y bardd Merddin Emrys, y mae yn amlwg mai person mwy diweddar oedd efe, ac ei fod yn perthyn i Gaerfyrddin, megys pe byddai rhyw *Lywelyn* yn byw ym *Mryn Llywelyn*. Y mae *Caer Einion*, *Caer Gwrle*, *Caer Gybi*, *Caer Alun*, *&c.*, wedi cael eu henwau oddi wrth ddynion o'r enwau hyny. *Caerlleon*, medd rhai, a gafodd yr enw oddi wrth fod llengoedd y Rhufeiniaid yn sefydlog yno; ond y mae yn ammhëus iawn am hyny, gan fod *Lleon Gawr* yn dangos enw dyn. *Caerynarfon*, a elwid felly o herwydd fod yr amddiffynfa *yn Arfon*. Gelwid y lle gynt yn *Caerseiont*. Y mae *caer* hyd y dydd heddyw yn enwau llawer o dyddyndai, lle gynt y bu amddiffynfëydd. Y mae lle o'r enw hwn ger Aberhonddu, lle gynt yr oedd gorsaf fawr gan y Rhufeiniaid. *Caerwedros*=Caer-gwaed-ros. *Caerew*=Caerau.

*Carn*. Ystyr y gair bychan hwn yw pentwr o geryg; ac y mae yn fynych yn arwyddo pentwr beddrodol. *Carn Wyllon*, enw cwmmwd yn swydd Gaerfyrddin. Ystyr *gwyllon* yw *bwganod*, neu ysbrydion drwg yn ymddangos yn y nos. Y mae yr enw hwn yn dangos fod tybiaeth wedi bod am ymweliad gwyllon â'r man, lle yr oedd rhyw feddrod hynafol. *Carn Ingli*, yn Nyfed, a arwydda, medd traddodiad, *Carn Engyl*, o herwydd fod *engyl* yn ymweled â Sant Brynach ar ei gopa. Yr ydym yn gadael y chwedl yn ddisylw; ond eto i gyd, hwyrach y gallasai y chwedl fod yn achos o'r enw.

*Carog*. Ystyr y gair hwn yw *llif*, neu *nant*. Hwyrach ei fod yn perthyn i *Cerhynt*. Y mae y gair yn Nhestament W. Salisbury.

"O *garog* (afon) ydd yf ddiawd,
Wrth hyny y dyrchaif ei ben ar ffawd."

*D. Ddu Hiraddug.*
*Salm* cx. 7.

Y mae nant o'r enw hwn yng Ngheredigion, yr hon sydd yn rhoddi enw i blasdy ym mhlwyf Llanddeiniol. Y mae hefyd le ym Mhowys o'r enw *Abercarog*. Tebyg mai yr un peth yw *carog* a *ceiriog*.

*Castell*. Dywed Dr. Puw fod y gair hwn yn Gymraeg, ond y mae ereill yn boeth mai o'r Lladin y daw. Y mae yn arwyddo amddiffynfa gadarn; ac y mae llawer iawn o enwau lleoedd yn cael eu gwneyd i fyny o hono, trwy gael ei gyssylltu ag enwau ereill, Castell Carndochan, Castell Gwallter, yng Ngheredigion, Castell Newydd Emlyn, Castell Nedd, ar lan yr afon Nedd, yr un modd a Caer ar Daf. Y mae llawer, fel yr ŷm wedi dangos, wedi cael eu henwau oddi wrth enwau y dynion a'u hadeiladasant; ac ereill oddi wrth sefyllfa y manau maent yn sefyll, megys Castell y Waen, Castell y Foel, &c. Y mae plwyf yn Nyfed o'r enw *Castellan*, yr hyn a olyga *Castell Llan*. Y mae yn cael ei grebychu weithiau, megys *Cas Newydd* am *Gastell Newydd*.

*Cedris*. Y mae lle o'r enw hwn ym mhlwyf Tal y Llyn, Meirion. Dywed Dr. Puw mai ystyr yr enw yw *trysor cuddiedig*. Y mae *ced* yn arwyddo *trysor*, *elw*, neu *log*.

*Cefn*. Y mae y gair bychan hwn yn eithaf adnabyddus. Y mae yn arwyddo y rhan groes i'r wyneb o'r corff; ac y mae yn arwyddo y rhan uchaf o dir fyddo yn rhedeg am ryw gymmaint o ffordd, nes tebygoli i gefn dyn neu anifail. Dywed Lewis Morris mai Seisonigeiddiad o'r enw *cefn* yw *Chevin* yn Lloegr, ac y mae hyny yn dra thebyg. Y mae genym lawer iawn o leoedd â *chefn* yng nglŷn â hwy; megys *Cefn Cethin* (cethin, dyrys); *Cefy y Ceirw*, ym mhlwyf Penbryn, o blegid fod y fan hòno yn gadwfa *ceirw* i hen balas Abernant Fychan; *Cefn Rug* (Cefn y Grug, *heath*), ym Meirion; *Cefn Camberth* (Camberth=perth gam), ym Meirion; *Cefn Banadl*, yng Ngheredigion, a llawer ereill.

*Ceilwart*, enw lle yn Llanaber, Meirion. Ystyr y gair yw diadellfa, sef lle yn meddu ar hawl o gorlanu, llocio, neu ffaldio anifeiliaid. Y mae y gair bychan *cail* yn un tra rhagorol, a gwerthfawr yw ei gael ar glawr mewn enw lle yn y modd hwn.

"Gwae ni cheidw ei *gail*, ac ef yn fugail,
Ac nis areilia."

*Taliesin.*

Digitized by Google

*Ceinog*, enw lle ym **Mettws**, Meirion. Ystyr *cain* yw *hardd*, neu wastadedd teg, blodeuog, heb fod yn cynnwys diffaethwch. Y mae y gwreiddair bychan hwn yn dlws a chynnwysfawr iawn. Y mae afon yng Ngwynedd o'r enw hwn, a elwid felly am fod ei dyfroedd yn loew, a'i rhediad trwy dir gwastad. Y mae lle hefyd o'r enw *Caint Bach*. Dyma ystyr yr enw *Caint* (Kent) yn Lloegr.

*Ceiswyn*, enw lle yn Nhal y Llyn, Meirion. Ystyr *ceiswyn* yw dymuniad da.

*Celyn*, enw pren bythddeiliog. Y mae llawer lle o'r enw hwn, a llawer ereill yn cyfranogi o hono. Y mae plwyf yng Ngwynedd o'r enw *Celynin*. Y mae llawer lle o'r enwau *Pant y Celyn*, *Llwyn Celyn*, *Twr Celyn*, a *Dol Gelynen*. Y mae y pren yn cael ei alw yn Seisonig *holly*, a hyny, mae'n debyg, o herwydd ei fod yn *fythddeiliog*, ac felly, yn ol tyb yr hen bobl, yn gyssegredig ac yn *holy* yn eu golwg; ac y mae yn debyg fod *celyn* wedi cael eu hystyried gan ein hynafiaid ninnau felly; ac yna priodolid iddo ryw briodoledd gyssegredig, gan fod *cel* yn perthyn i *Celi* (y Duw dirgeledig).

*Cellan*, enw plwyf yng Ngheredigion. Ystyr yr enw yw *cell* a *llan*, hyny yw, *Llan*, neu *Eglwys* mewn *cell*. Ystyr *cell* yw lle cysgodol, yn y fan hon; y mae hefyd yn golygu gwigfa; ac ym mhellach yn golygu *ystafell*. Enw rhagorol ar Eglwys mewn llanerch dlos gysgodawl gan fryniau, yw *Cell-llan*. Yn ail ystyr y gair *cell*, y mae *celli* yn dyfod i mewn. Y mae *Celli* yn hen enw Cymreig ar Ffrainc, a hyny o herwydd ei bod yn wlad goedog, ac yn cael ei phreswylio gan y *Celtiaid*. Mae llawer o enwau lleoedd yng Nghymru o'r enw *Celli* (y Gelli). Y maent bob amser yn golygu lleoedd mewn manau cysgodol a choediog. *Gelli'r Yn*, *Gelli Werdd*, *Gelli Galed*, *&c*. Y mae y teulu hyn o eiriau yn enwau rhagorol. O, ïe, y mae tref ar lan yr *Wy* o'r enw *Gelli*, ac y mae yn ateb i'r ystyr hwn yn hollol. Yr enw Seisonig arni yw *The Hay*, yr hwn sy gyfieithad llythyrenol o'r Gymraeg i'r Ffrancaeg. Pan drawsfeddiannodd Bernard Newmarch Frycheiniog, daeth teulu o'r enw *De Breos* i'r lle hwn, a chyfieithodd ryw Gymro enw y lle iddynt i'r Ffrancaeg, yn *La Haye* (*The Grove*); ac yn rhwysg amser, gadwyd y *la* ar ol, a rhoddwyd y fannod Seisonig *the* o flaen yr enw, ac y mae yn parhau i gael ei alw hyd y dydd hwn gan drigolion y wlad yn *The Hay*.

*Cemmaes*. Y mae pedwar, os nid rhagor, o leoedd yng Nghymru o'r enw hwn. *Cemmaes*, sef enw cantref pwysig yn Nyfed, yr hwn yw y rhan uchaf o swydd Benfro, hyny yw, y rhan uchaf o'r parth gogleddol o honi. Y mae cwmmwd o'r enw hwn ym Mon, plwyf ym Maldwyn ar lan y Dyfi, a lle yng Ngwent Isgoed. Ystyr yr enw yw *camp* a *maes*; hyny yw, *maes* lle yr oedd ein teidiau yn ymryson am lawer o *gampau* corfforol. Yr oedd ganddynt 24 o *gampau*, ac y mae hanesydd yn amser Elisabeth yn rhoddi darluniad dyddorol iawn o *gamp* a welodd efe yn cael ei chwareu yng *Nghemmaes*, Dyfed. Y *gamp* hòno oedd *chwareu cnapan*; ac yr oeddynt yn dechreu arni gyda chodiad haul, gan ei dilyn hyd y nos. Nid oedd dim ond *llodrau* am danynt; ac yr oeddynt yn ymdrechu â'u holl egni, fel pe buasent yn ennill eu bywoliaeth, neu gadw eu gwlad trwy hyny. *Cnepyn* crwn o *bren* derw wedi ei ferwi mewn gwer oedd y *cnapan*; ac yr ydym yn dyweyd hyd heddyw am ddyn tyn am y byd, mai "un tyn am ei gnapan yw." Fe welwn fel y mae hanesyddiaeth yn profi *athroniaeth* enwau ein lleoedd.

*Cenarth*, enw Eglwys ger Castell Newydd Emlyn. Y mae ffugchwedl yn traethu mai cael asgwrn *gen arth* wnawd yn y graig hon, a bod y lle wedi cael yr enw oddi wrth hyny. Y mae y chwedl fod ei *chlun* wedi ei chael yn Llanarth, a'i *phen* wedi ei gael ym *Mhenarth*. Yr ydym mor hoff a neb o *lên y werin*, ac wedi cofnodi llawer o honi; ond ni chymmerem lawer am gymmeryd chwedl fel gwirionedd, ac y mae yn syn genym weled dynion yn cefnogi yr eglurhâd hwn ar *Genarth*. Y mae yr enw yn cael ei wneyd i fyny o ddau wreiddair Cymraeg, sef *cefn* a *garth*. Yr ydym wedi traethu yn barod am *cefn*, ac y mae yn ofynol yma fynegu fod yr *f* yn myned i golli, fel y mae yn *Cenfaes* (Cefnmaes), ym mhlwyf Llanddewi Brefi, a llawer ereill; yn y gair *cenlloer*, sef *cefnlloer*, am fod y lloer pryd hyny ar ei *chefn*, yn gystal a llawer o enwau a geiriau ereill. Ystyr *garth* yw *gwersyllfa*; *caer*; *ceilwart* (*a fold*); *pentir*; *codiad tir*. Y mae y gair yn gwneyd i fyny lawer o enwau lleoedd; Garth Anarawd, Garth Beibio, Penarth, Gogarth (Garth y Gog), Garth Au, Llwydiarth, Llanfihangel ar Arth, Talgarth, &c. Wel, yn awr, dyma ystyr *Cenarth* mor amlwg a'r haul ganol dydd, sef *cefn garth*. Y mae yr *g* yn cadw ei lle mewn ambell enw; megys yn *Talgarth*, ac yn ei golli mewn manau ereill; megys yn *Peniarth* a *Llwydiarth*. Y mae hefyd yn amlwg fod y lleoedd hyn yn sefyll ar ychydig godiad tir. Y mae Eglwys *Llanarth*, Ceredigion, ar godiad serth, ac felly *Llanfihangel ar Arth* a *Chenarth*. Y mae Cenarth yn sefyll ar *gefn* codiad o graig, ger yr afon Teifi; ac felly, y mae yr ystyr *cefn* a *garth* yn berffaith gywir o'r lle hwn. Rhyfeddol i ddoethineb yr hen bobl! Enw tlws iawn yw *Gogarth*, sef *garth* lle y bydd y *gog* yn

Digitized by Google

arfer fynychu yn ei harosiad byr yn ein gwlad. Y mae palas yn sir Faesyfed o'r enw *Cenarth*, lle gynt y preswyliai merch i Owain Glyndwr.

(*I'w barhau.*)

---

## DAMMEGION ESOP.

### XI.

#### Y DYN A'R EPPA.

MEWN gwig yngogledd Asia,
Ryw fore, meddant hwy,
Neu yng ngwig fawr Mongolia,
Ni waeth pa un o'r ddwy,
Cyfarfu dyn oedd estron
Ag Eppa yn y coed,
Ac aeth y ddau'n gymdeithion
Coedwigol mwyna' 'rioed.

Ni raid i neb mo'i synnu
Fod Eppa gyda dyn
Mewn coedwig fawr anghysbell
Yn tynnu mor gyttûn:
Chwi welsoch ddyn a cheffyl,
Neu ddyn a chi, peth syn!
Neu ferch a chath lygotta,
Yn ffrindiau mawr cyn hyn.

Ryw ddiwrnod fel yr oedd y ddau,
Y dyn a'r cyfrwys eppa, 'n bwytta cnau,
A llus, a mefus gwylltion, yn foreufwyd,
A'r hin yn oer, a'r dyn yn teimlo anwyd;
Fe welai'r eppa'r dyn
Yn chwythu ar ei fysedd;
Meddyliai wrtho'i hun,
Fod hynny'n orchwyl rhyfedd.
Gofynodd, "Pam yr wyt fel yna'n chwythu
Yn araf ar dy fysedd?"—"I'w cynhesu,"
Attebai'r dyn; "mae'n oerion iawn fy nwylo,
Ac y mae f' anadl gynnes yn eu twymno."
Ond cawsant giniaw cynnes;
Hwy wnaethant gawl neu bottes;
Dechreuasant eu fwytta fe'n union,
Yn chwilboeth o lygad y crochan,
Mewn cwppanau preniau;
Cregin oedd y llwyau:
A'r dyn, rhag llosgi ei sefnig
A'r pottes poeth berwedig,
Chwythai arno'n ddibaid,
Chwythai ar bob llymmaid:
A thybiai'r eppa mai mwy ffol a rhyfedd
Oedd chwythu'r pottes nag oedd chwythu'r bysedd.
"Gydymaith, pam y chwthi ar dy bottes?
Mae eisioes, i'm tyb i, yn ddigon cynnes;
Ai gwaith synhwyrol, doeth,
Mewn difri,
Yw chwythu ar bottes poeth
I'w boethi?"
"Na! nid i'w boethi,—nid wyf gymmaint hurtyn,
'Rwy'n chwythu arno, ond i'w *oeri* dippyn."
Ac medd yr eppa, "Beth! 'rwy'n darfod bellach
Am byth â thi a'th ddyblyg ffals gyfeillach:
Tydi, sy'n newid fel y gwynt a'r lloer,
Gan chwythu weithiau'n gynnes, weithiau'n oer,
Dos hwnt oddiwrthyf, yr wyf wedi'th ddeall,
Dos hwnt oddiwrthyf i ryw goedwig arall."

NICANDER.

## YR AIL PRIF SABBATH.

"A bu, ar yr ail brif Sabbath, fyned o hono trwy yr yd; a'i ddysgyblion a dynasant y tywys, ac a'u bwytasant, gwedi eu rhwbio â'u dwylaw."—LUC vi. 1.

MAE yr ymadrodd hwn, "yr ail prif Sabbath," yn ymadrodd nad yw ar y cyntaf ddim yn hawdd dirnad ei gywir ystyr. Ac odid nad cymmwynas â rhai o ddarllenwyr *ieuainc* yr HAUL fyddai rhoi ychydig o esboniad arno. Y pwnc sydd i'w ddadrys a'i ddattod yw, pa ddiwrnod a feddylir gan Sant Luc wrth yr ail prif Sabbath?

Cyfieithad llythyrenol y geiriau Groeg (*Sabbatô deuteroprôtô*) yw y Sabbath ail-gyntaf. Yn ol y cyfieithad Ffrengig (*au jour du Sabbat, appelé second-premier*), y geiriau ydynt, "Ar ddydd y Sabbath a elwir ail-gyntaf." Yn ol y cyfieithad Italaeg, ystyr y geiriau yw, "Ar y Sabbath cyntaf ar ol y dydd nesaf ar ol y Pasc." Yn awr, y cwestiwn yw, pa ddiwrnod oedd y diwrnod a ddynodir fel hyn? Bu agos i mi anghofio dywedyd fod y cyfieithad Seisonig yn fwy tywyll fyth: "Ar yr ail Sabbath ar ol y cyntaf" (*on the second Sabbath after the first*).

Ar ba ddydd bynag o'r wythnos y dygwyddai y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Abib, byddai y dydd hwnw yn wyl y Pasc; ac ar y dydd canlynol, sef y bymthegfed o fis Abib, yr oedd Gwyl y Bara Croew. Lef. xxiii. 5, 6.

Drachefn, dranoeth wedi dydd Sabbath y Pasc, byddid yn cyflwyno yr ysgub gyhwfan i'r Arglwydd; "Tranoeth wedi'r Sabbath y cyflwyna'r offeiriad hi."—Lef. xxiii. 11. "A chyfrifwch i chwi o dranoeth wedi'r Sabbath, o'r dydd y dygwch ysgub y cyhwfan, hyd dranoeth wedi y seithfed Sabbath" (sef o dranoeth wedi'r Pasc hyd ddydd y Pentecost), "y cyfrifwch ddeng niwrnod a deugain."—Lef. xxiii. 15, 16. Yr oedd y cyfrifiad hwn i wneuthur i fyny saith wythnos cyflawn; mae y bymthegfed adnod yn dywedyd, "Saith Sabbath cyflawn fyddant;" hyny yw, saith *wythnos* gyflawn. Yr oedd y cyfrifiad hwn i gael ei wneuthur, nid o ddydd y Pasc, ond o ddydd cyhwfaniad ysgub y blaenffrwyth, sef y diwrnod nesaf ar ol dydd y Pasc, sef ar ddiwrnod cyntaf Gwyl y Bara Croew. Os cyfrifwn o dranoeth wedi'r Pasc hyd dranoeth wedi'r seithfed Sabbath, bydd genym saith wythnos uniawn, sef naw diwrnod a deugain; ond os cyfrifwn o'r Pasc ei hun, bydd genym un diwrnod yn rhagor, yn gwneuthur i fyny ddeng niwrnod a deugain o gwbl. Ac ar y degfed dydd a deugain o ddydd y Pasc yr oedd y Pentecost (degfed a deugain) yn dygwydd.

Yn olaf; yn ol dull yr Iuddewon o gyfrif, tranoeth ar ol y Pasc oedd yr *ail*

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 138. MEHEFIN, 1868. CYF. 12.

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

(*Parhâd o dudalen* 144.)

*Cenen.* Y mae afon o'r enw hwn ger Llandeilo Fawr, yr hon sydd yn rhoddi enwau i ddau le, sef *Castell Careg Cenen* ac *Abercenen.* Yr ydym wedi traethu fod afon o'r enw *Cain*, ac y mae yn eithaf amlwg mai *Cainen*, neu *Cainain*, yw ystyr yr afon hon, ac wedi ei newid gan lafar gwlad i *Cenen.* Y mae llawer iawn o drafferth wedi bod am gael allan ystyr *Careg Cenen*, gan ymdrechu tybied y gallasai y Castell gael ei adeiladu gan *Cynan* ab Rhys, ac felly gael ei alw oddi wrtho; ond y mae yn gwbl anghysson ag hanesiaeth i feddwl hyny, o blegid y mae *Is Cenen* yn enw y cwmmwd sydd is law yr afon, ac yn ddiammheu wedi cael yr enw hwnw gannoedd o flynyddoedd cyn geni *Cynan* ab Rhys, ïe, ef allai, mor bell yn ol a dechreu y cyfnod Cristionogol, ïe, a phellach o lawer. Yr ydym yn cael fod Gwiberi Hen, o *Is Cenen*, a Gwrnerth Llwyd, ei fab, yn Senedd Hywel Dda, yn y Ty Gwyn ar Daf, yn ffurfio cyfreithiau y teyrn enwog hwnw; ac felly, ni a welwn ar unwaith fod *Cenen* ac *Is Cenen* yn bodoli pryd hyny, tua thri chant o flynyddau cyn geni *Cynan.* Y mae *Castell Careg Cenen* yn sefyll ar dwmpath uchel aruthrol o gareg galch, ar ochr dde i'r afon. Nid oes dim careg galch yr ochr hòno i'r afon, ond y twmpath aruthrol, lle saif y castell. Gelwid y twmpath creigiog yn *Gareg Cenen*, am ei fod yn sefyll uwch ben yr afon *Cenen.*

*Cerdin.* Ceir afon o'r enw hwn yng Ngheredigion, a alwyd felly o herwydd fod y pren *cerdinen*, lawer o hono, yn tyfu ar ei glenydd.

*Cerniw.* Ymddengys taw ystyr y gair neu'r enw hwn yw *cern* ac *iw.* Y mae *cern* yn arwyddo ochr y wyneb, sef y rhan a welwn o beth heb weled y cyfan o hono. Ystyr *iw* yw *eithaf*, sef peth ym mhell allan, neu ar wyneb; ac felly ni welwn ystyr yr enw hwn yn eithaf priodol. Y mae Llan*gerniw* yng Ngogledd Cymru.

*Cernos*, neu *Y Gernos.* Y mae llawer iawn o leoedd yn ein gwlad o'r enw *Gernos.* Yr ystyr a rydd Dr. Puw* i'r gair hwn yw *declivity*, ac ni a gredwn ei fod yn dra phriodol. *Cernos*, sef *cern*, neu *ochr codiad tir.* Y mae eto yn cyfegluro *Cerniw*, o blegid y mae codiad tir i'w weled o'r môr pan yn edrych ar Gerniw.

*Cilcenin.* Y mae *cil* yn dechreu llawer iawn o enwau yng Nghymru, ac yn diweddu rhai. Y mae *cil* yn arwyddo lle encilledig, cyflëus i ymguddio neu orphwys allan o swn a thrafferth y byd. Y mae yn dechreu amryw leoedd yn yr Iwerddon, megys *Cilcenni, &c.* Yn yr Iwerddon, y mae yn golygu Eglwys, fel y mae *Llan* genym ni yng Nghymru; ac ef allai fod yr ystyr hyny wedi cael ei roddi yn yr Ynys Werdd o herwydd fod rhyw hen sant yn arfer ymneillduo i *gilfach*, felly i lwyr ymroddi i *weddi* a *duwioldeb*, a bod Eglwys yn cael ei hadailadu wedi hyny ar y fan. Ystyr *Cilcenin* yw *Cilcynan*, lle y ciliodd penaeth o'r enw hwnw. Y mae *Cil Owain* yng Ngwynedd,* lle y ciliodd Owain Gwynedd a'i wŷr yn amser Harri II. *Cilrhedyn* a gafodd ei galw felly, o blegid i'w sant noddawl, *Teilo*, gilio i'r fan hòno i ympryd a gweddi cyn ei sylfaenu. Yr oedd hyny yn arferiad yn y cynoesoedd, ac yn wir, arferiad rhagorol oedd. *Cilmaenllwyd:* y mae llawer o enwau lleoedd yn ein gwlad o'r enw hwn. Ymddengys fod hen *feini* derwyddol ger llaw y manau hyn. Yr oedd llawer iawn o honynt yn y lle o'r enw hwn yn swydd Gaerfyrddin; ac yr oedd hefyd hen feini o'r fath yn ochr lle o'r enw ym mhlwyf Troed yr Aur. Nid oes ond tua 45 mlynedd er pan wasgarwyd hwynt, ac y mae un o honynt yn ymyl lle o'r enw Pen y Banc yn awr. Yr oedd olion godidog Penllech yr Ast ger llaw ty o'r enw hwnw ym mhlwyf Llangoedmor. *Cil y Fai:* ystyr *mai* yw lle teg a phrydferth. *Cilgeran*=Cilgeraint: Geraint, enw dyn. *Cilpebyll: pebyll* a osodid i fyny gan fyddinoedd, er mwyn gwersyllu am ryw gymmaint amser yn y lle. Y mae *Llan y Cil*, Meirion, yn arwyddo yr hyn a ddywedasom am Gilrhedyn. Y mae hefyd lawer o enwau genym yn cynnwys y gair *Cilfach*, ac y mae enwau dynion wedi eu cyssylltu â hwynt, megys *Gilfach Rhodri, Gilfach Iestyn, &c.*

*Clettwr.* Y mae amryw afonydd o'r enw hwn. Y mae dwy yng Ngheredigion, un ym Meirion, ac un ym Mrycheiniog. Ystyr yr enw yw *caled-ddwr*, neu *ddwfr caled.* Y maent yn rhoddi enwau i amryw leoedd; megys *Blaenclettwr, Glanclettwr*, ac *Aberclettwr.*

*Clwt.* Ystyr y gair yw darn o unrhyw beth; *clwt o dir (a piece of land).* Y mae lle yn y Gogledd o'r enw *Clwt y Bont.*

*Clwyd.* Y mae afon yng Ngogledd Cymru o'r enw hwn, ac y mae un arall o'r un enw yng ngorllewin yr Alban. Ystyr yr enw yw *cyssegredig. Duw Lwyd*=Duw sanctaidd—enw wedi ei roddi gan y Derwyddon.

*Clydach.* Y mae amryw o afonydd o'r enw hwn. Ystyr *Clydach* yw *clyd* ac *ach*, sef dwfr yn rhedeg trwy le cysgodol ac isel. *Clydlyn*, afon yng Ngheredigion.

*Clyn.* Ystyr *clyn* yw lle llawn o dew-

* *Cam. Reg.*, vol. I., p. 313.

* Ymddengys mai ym Mhowys mae y lle hwn.

Digitized by Google

goed, neu fanwydd. *Clyn* o eithin (*a furze brake*). Y mae llawer iawn o enwau wedi cael eu gwneyd i fyny o'r gair hwn, trwy ei gyssylltu ag ansoddeiriau, ac â sylweddeiriau; megys *Clyncoch*, a elwid felly am fod rhedynach a phethau yn rhoddi y cymmeriad hwnw i'r fan; *Clynmelyn* a *Clyngwyn*. Y mae hefyd yn cael ei gyssylltu â sylweddeiriau; megys *Clyn Adda*, hyny yw, *Clyn Eiddw* (iorwg). Y mae amryw leoedd yn Neheudir a Gogledd Cymru o'r enw hwn. Y mae capel ger Llechryd o'r enw *Capel Llwyn Adda*, sef Capel Llwyn Eiddw.

*Clynog*. Y mae hen Eglwys athrofaol o'r enw hwn yn Arfon. Dywedir mai crebychiad o *Celynog* yw yr enw, sef llawn o'r pren byth-ddeiliog hwnw. Y mae Ysgeifiog yn sir Fflint, wedi cael ei alw felly oddi wrth y pren *ysgaw*, am ei fod yn llawn o'r pren crach.

*Coetty*, ty mewn coed. Y mae llawer o dai o'r enw hwn.

*Col*. Ystyr *col* yw peth yn ymestyn allan, neu i'r lan; megys garth, neu big; pentir; hefyd pig, neu *golyn*. Y mae lle o'r enw hwn ym mhlwyf Myddfai, ac enw bychan, tlws, a chynnwysfawr yw. Y mae y ty yn sefyll ar godiad tir. Y mae amryw leoedd i gael o'r enw *Drysgol Goch*, yr hyn a arwydda godiad tir serth; hyny yw, *Dyrys Gol*, ty yn sefyll uwch gallt serth, a hòno yn dwyn y cymmeriad *coch*, trwy fod ei phridd felly, ac yn cynnwys llwybrau a ffyrdd, a'i daiar goch yn dyfod i'r golwg. Y mae genym yn y Deheudir y gair *ysgrongol* am hen dyddyn diffaeth a serth, ac ar ambell i fan serth, fel y *Dryslwyn*, Craig Gwrtheyrn, a'u cyffelyb. Y gwreiddiau yw *col* a *cron* (crwn), a'r blaenddawd cadarnhaol *ys*. Gwelwn ystyr y gair mor eglur a sy le. Y mae y gair *colfen* yn perthyn i'r tadair *col*. Y mae lle o'r enw *Llwyncolfa* ym mhlwyf Llanbadarn Odwyn; hyny yw, *llwyn* llawn *colfa*, neu gangenau. Y mae *Ysgolion Duon* yn swydd Gaerfyrddin; a *Nant yr Ysgolion* yn swydd Drefaldwyn.

"Troch heol *ysgol* esgar boethfan."
*Casnodyn*.

"A broken path of the *precipice* of the fiery place of separation."—(Cyf. Dr. Puw.) Y mae *col* yn dad rhagorol i'r gair *ysgol* (*a ladder*); ac yn wir, meddylddrych gwych ac ysblenydd yw *col*, fel tad i *ysgol* (*a school*), yr hon sydd yn dyrchafu dynion i'r lan yn y byd meddyliol, yr un modd ag y mae *ysgol* yn codi i ben adeiladau a phethau uchel ereill. Nid llawer o eiriau yr un fath yn gywir mewn llythyrenau sydd yn y Gymraeg, ac yn golygu pethau gwahanol, ac nid yw hyny yn dda; ond y mae y ddau ystyr hwn i *ysgol* yn rhywbeth gogoneddus.

*Cors y Gedol*. Dywed y dysgedig Ddr. Puw mai *cors y trysor* yw ystyr yr enw; ac oni bai fod awdurdod mor uchel yn traethu hyny, buasem yn meddwl fod *cedol* yn perthyn i *ceden*, gan fod ceden o borfa wen yn arferol o dyfu mewn lleoedd *corsog*.

*Corwen*, enw tref ym Meirion. Dywed Dr. Puw mai *white choir* yw. Ymddengys fod yno *gôr*, neu *fangor* wedi bod yn y cynamser.

*Criciaeth*. Ymddengys mai ystyr yr enw hwn yw *crug* ac *aith*, sef *moel*, *bryn*, neu *gnipell eithinog*. Y mae cyttir ym mhlwyf Penboir, ger Emlyn, o'r enw *Hiraith*, neu *Cefn Hiraith*. Gelwir ef yn *Hiraith* o herwydd ei fod yn *ochr hir* o fynydd yn llawn eithin. Y mae hyn eto yn cytuno â *Hiraithog*, yn swydd Dinbych, yr hwn a gafodd ei alw felly am ei fod yn fynydd *hir eithinog*. Yr oedd ein hynafiaid yn arfer geiriau byrion cynnwysfawr, ac *aith* fyddent hwy yn arfer yn lle *eithin*. Y mae Dr. Puw yn mynegu mai ffordd arall o *aeth* (pigad, poen) yw *aith*, ac y mae athroniaeth y Gymraeg i'w gweled yn rhyfeddol o ardderchog yn y gair hwn yn gystal ag mewn geiriau ereill. *Aeth* yw gwreiddyn y gair *saeth*; hyny yw, *ys aeth*. *Aith*, neu *aeth* (eithin), yw yr hyn sydd yn pigo, gan roddi poen, fel y mae pigau eithin yn gwneyd; *saeth* (ys aeth) yw yr arf pigfain a arferid gynt mewn rhyfel, yr hon oedd yn trywanu y fron, neu ran arall o'r corff, ac yn lladd y dyoddefydd. *Aeth* yw rhyw newydd, neu olygfa boenus ag sydd yn rhoddi brathiad i'r fron. "Y mae y peth yn rhoddi *aeth* i mi," sef yn rhoddi poen lem i'r teimlad, fel y bydd *aeth* a *saeth* i'r corff. Yr hen Gymraeg wen, mor ardderchog yw dy gyfansoddiad!

*Crwys*. Y mae lle ym Morganwg o'r enw hwn; ac y mae *Bwlchcrwys* yng Ngheredigion. Nid yw *crwys* ond ffordd arall o *croes*: *croeshynt* (*a crossway*). Arferir dyweyd yn awr am ddyn yn ystod ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, ei fod "dan ei grwys," sef yr amser y byddid gynt yn rhoddi crwys ar ei fron.

*Cuch*, enw afon yn Nyfed, yr hon a rydd enwau i leoedd—Blancuch, Lancuch (Glancuch), ac Abercuch. Yr ydym yn credu mai *cuch*, ac nid *cych* yw y ffordd o sillebu yr enw hwn, gan nad oes yn y Gymraeg y fath air a *cych*. Ystyr *cuch* yw peth *garw*, *anwastad*, a gallwn feddwl fod hyn yn ystyr digon priodol i'r afon hon. Yr ydym yn cael crybwyll am yr afon hon ym Mabinogi Pwyll Pendefig Dyfed.

*Cwm*, sef lle isel rhwng bryniau a mynyddau. Y mae yn helaethach na *glyn*. Y mae llawer iawn o enwau yn cael eu gwneyd i fyny o'r gair hwn, trwy ei

Digitized by Google

fod yn fynych yn flaenddawd, a phryd arall yn olddawd. Y mae rhai lleoedd o'r enw *Cwmarch*, yr hyn a olyga *gwm cul*. Y mae yn cael ei wneyd i fyny o *cwm* ac *arch*. Y mae *arch* yn y fan hon yn golygu agos yr un peth ag *arch* (coffin), sef peth yn cael ei gau—*Cwm-arch*, o herwydd ei fod yn cael ei gauad yn gyfyng gan fryniau. Y mae lle o'r enw hwn ger Aberteifi. Camgymmeriad yw meddwl taw Cwm-march (Cwm-ceffyl) yw. *Cwmgafaelau*, yng Ngheredigion: ystyr *gafaelau* yw *gafael*, neu *gafl*, am fod amryw esgeiriau a phentydd ger y fan. Y mae yr olwg arnynt yn debyg i fysedd llaw dyn wedi ei hagor, ac i gyd yn *gafaelyd* yn y llaw. Y mae mynydd yn swydd Gaernarfon o'r enw yr *Eifl*, hyny yw, *geifl* (lluosog o gafl), a elwid felly o herwydd fod agoriadau culion yn ochr y mynydd ag esgeiriau rhyngddynt.* *Cwm Cawydd*, ym Meirion: ystyr *cawydd* yw *gwydd*, neu goed canedig. *Cwm Eiddan* eto yn yr un sir: ystyr *eiddan* yw *trystfawr*. *Cwm Ffernal* eto, sef *cwm y nant gul*. *Cwm Nancoll* eto, sef *cwm y nant soddedig*.† *Cwm Gerwyn*, yn Nyfed, a elwid felly am fod dwfr yn disgyn iddo yn ffrydiau o'r mynydd. *Cwm Llyfnell*: ystyr *llyfnell* yw afon *lefn*. Cymharer yr enw â *Llyfni* (sef llyfn-wy). Y mae enwau afonydd braidd yn aneirif yn cael eu cymhwyso at yr enw *cwm*, neu yn hytrach *cwm* yn cael ei gymhwyso atynt hwy. Y mae un lle nodedig ger Pencader, o'r enw *Cwmhwblyn*, ac y mae un arall ym mhlwyf Penbryn. Tebyg mai *cwm chwiblyn* yw yr iawn ystyr. Ystyr *chwibl* yw peth *surllyd* anredegog, ac y mae hyny yn eithaf priodol i'r ddau. Y mae hefyd le yng Ngheredigion o'r enw *Cwm Ul*: ystyr *ul* yw *llaith*. Y mae yn *ul* iawn heddyw, *it is very muggy to-day*.

*Cydweli*, a elwid felly o herwydd uniad dau ddwfr—myned i'r un *gwely*.

*Cyfartha*, neu *Cyfarthfa*, sef uniad dwy *arth* (garth), neu bentir.

*Cymmer*, uniad dau ddwfr (gwel *Abermeirig*).

*Cynhawdref*, enw lle genedigol Ieuan Brydydd Hir, o Geredigion. Ystyr *cynhawdref*, neu *cenedref* yw *tref yr etifedd*, sef lle ag oedd wedi ei roddi, neu ei adeiladu i'r mab henaf yn rhyw oes.

> "Madog wyf mwyedig o wedd,
> Iawn *genau* Owain Gwynedd."

Y mae *cynhaw* hefyd yn air am *tawel*; ond lle uchel agored i wyntoedd yw *Cynhawdref*, ac felly, rhy brin y gellir barnu mai hyny yw ei ystyr.

DAROWEN=*Derwen Owen*, enw plwyf ym Mhowys, ac enw tyddyndy ger Dolgellau. *Derllys, llys yn y derw*.

*Derwydd*, enw ar athraw derwyddol. Y mae y lle hwn yn agos i Landeilo Fawr. Y mae ger llaw y fan hòno le arall o'r enw *Twyn Beddau'r Derwyddon*; a lle ger llaw hwnw o'r enw *Cwrt Bryn y Beirdd*. Byddai y Derwyddon yn arfer cyfarfod ar fanau uchel, y rhai a elwid *Gwyddfâu*, a lle felly yn hollol yw *Cwrt Bryn y Beirdd*. Hwyrach fod y lle a elwir *Derwydd* yn artref y *Prif Dderwydd* yn y cylch. Y mae hefyd le yn agos i Abergwaen o'r enw *Llan y Derwydd*. Y mae y lleoedd hyn yn fanau pwysig, fel enwau yn dwyn cof am y Derwyddon. Y mae llawer yn ymdrechu ammheu tarddiad y gair *Derwydd*; ond y mae yn eithaf amlwg mai o *dâr*, neu *derw*, y mae y gair yn deillio.

*Dinas*. Ystyr *dinas* yw *caer*, amddiffynfa, a hefyd *tref freiniol*. Y mae llawer o leoedd yng Nghymru â'r gair *dinas* yn eu dechreu, ac yr ydym i ddeall yr ystyr o *gaer*, neu amddiffynfa bob amser i'r lleoedd hyny. Ystyr *Dinas Corddyn*, ym Meirion, yw *dinas gylchynog*. *Dinas Emlyn* (Castell Newydd Emlyn); *Dinas Brân*, ar yr afon *Brân*, ger Emlyn; *Dinas Cerdin*, ar yr afon *Cerdin*, yng Ngheredigion; *Dinas Emrys*, yn Eryri; *Dinas Mawddwy*, a llawer iawn heb law hyny.

*Dinbych*. Y mae genym ddwy dref o'r enw hwn. Y mae ystyr *din* (*caer*) wedi ei egluro yn barod; ac ystyr *bach*, neu *mach*, yw lle o *ddiogelwch*. Cyfnewidiad o *mach* (diogelwch, neu sicrwydd) yw *bach*, yr un modd ag ydym wedi traethu am *b* ac *m* o'r blaen ym *Merws* yn troi yn *Berws*. (Gwel y gair *Berws*.)

*Dyfed*. Cawn yr eglurhâd a ganlyn gan awdwr y *Ffydd Diffuant*:—"The kingdom of Dyfed, or Dyfet, called Demetia by the Romans, once comprehended most of S. Wales. At the conquest, it was confined to the counties of Pembroke, Cardigan, and Carmarthen; but is now generally applied to Pembrokeshire alone. *Dyfed* implies a religion abounding with water or streams; tho' Baxter derives it from *Defaid* (sheep)."* Y mae yn debyg mai *dwf* yw y gwreiddyn, am fod y rhan hon, sef gorllewin yr ynys, yn ymestyn i lawr i'r *dyfnder*, neu y *dwfr*, sef môr y Gorllewin. Tebyg fod *Annwfyn*, neu *Annwn*, a gawn ym Mabinogi Pwyll Pendefig, wedi ei gymmeryd oddi wrth wlad y *Dyfnder*, yn y gorllewin. Mae "Plant Rhys Ddwfn" hefyd yn cadarnhau yr un golygiad. Gwlad y *dyfnder*, ac nid gwlad y *trueni*, ydym i ddeall wrth *Annwfyn*, neu *Annwn*, yn y Mabinogi. Y mae yr un dychym-

* "*Gafl*, a fork or angle; the share, or inside of the *thighs*."—Dr. Puw.

† Yr un.

* *Ffydd Ddiffuant*, tud. 277.

Digitized by Google

myg am orllewin yr Yspaen yn bodoli ar y Cyfandir.

*Dyfynog.* Ymddengys fod y lle hwn wedi cael ei enw am fod ei sefyllfa mewn pant *dwfn*; er nad yw yn ddwfn iawn, eto y mae priodoledd yn yr enw.

*Dyfrdwy.* Y mae gan yr afon hon ryw dri neu bedwar o enwau; sef, *Peryddon*, sef afon dra rhinweddol, afon ddwyfol; *Dyfrdonwy*, sef afon neu ddwfr cyssegredig; ac *Aerfen*, afon ddysglaer.

*Dyffryn.* Y mae y gair hwn yn dra chyffredin yn ein gwlad; megys, Dyffryn Ardudwy, Dyffryn Aeron, Dyffryn Clwyd, &c. Ystyr y gair yw *Dyfrhynt*; hyny yw, lle, trwy yr hwn y mae *dwfr* ar ei *hynt*—afon yn treiglo i afon arall, neu i'r môr; ac yn wir, y mae yr ystyr yn un tra godidog.

*Dyhewyd*, myfyrdod, addoliant, dyfoesiwn. Eglwys yng Ngheredigion.

*Dysoch*, afon yn Arfon, ystyr yr hon yw afon *leidiog, ddioglyd*.

EBWY, o *eb* (bwriad allan) a *gwy* (dwfr). Afon yng Ngwent.

*Eden*, afon yn Llanelltyd, Meirion, ystyr yr hon yw yr *afon fuan—ed* ac *ain*.

*Eglwys Erw.* Ymddengys fod *eglwys* yn dyfod o'r Groeg *ecclesia*; ond y mae Dr. Puw yn traethu mai Cymraeg yw, sef *eg* a *glwys*; ac yn wir y mae *glwys* yn ystyr rhagorol, sef *pur*, neu *sanctaidd*. Y mae *erw* yn golygu *llain*, neu ddernyn pedryal o dir; ac weithiau y mae cae o ddeg neu ddeuddeg erw (4840 o latheni) yn cael ei alw yn *erw*. Y mae felly ar dir y Wern, Bettws Ifan; ac yn ei ymyl gae arall o'r enw *Cae'r Bettws*, lle y mae traddodiad yn traethu y dechreuwyd adeiladu yr Eglwys, ac nid ar y man lle y mae yn bresennol. Yn y modd hyn, hwyrach fod rhywbeth yn y gair *erw* yn y Gymraeg yn debyg i'r hyn a olyga y Seisoneg yn *God's Acre*. *Eglwys Wythyr*, a elwid felly, medd y werin, am mai *wyth* teulu oedd yn y plwyf; ond y mae *Gwythyr*, neu *Gwyther*, yn enw dyn, ac y mae yn debyg mai felly y cafodd yr enw.

*Esgair* yw yr hyn fyddo yn ymestyn allan, ac y mae yn air am *glun*. Y mae y gair hwn i'w weled mewn llawer iawn o enwau lleoedd; megys, Esgair Graig, Esgair Eithin, Esgair Wilym, Esgair Dawe, Esgair yn Eira, Esgair Geiliog, Esgair Galed, &c.

*Ewenni.* Gwreiddyn y gair hwn yw *gwen*, teg, hardd, gwastad. Y mae yr *E* wedi dyfod i mewn fel blaenddawd cadarnhaol. Y mae yr enw *Gwent* yn perthyn i'r enw hwn.

FFESTINIOG. Ystyr y gair hwn, medd Puw, yw *lle y brys*. Hwyrach mai *brys* byddin pan yn gorfod ffoi, yw yr achos o hono.

*Ffrêd.* Y mae afon o'r enw hwn yng Ngheredigion. Ystyr y gair yw *buan*. Y mae y rhan fwyaf o'r geiriau ag sydd yn dechreu ag *ffr* yn arwyddo hyny; megys, *Ffraw, ffrwd, ffrwst, ffraeth, ffriw, &c.*

*Ffridd*, coedwig; planigfa; dernyn o dir caeedig ar ochr mynydd i droi anifeiliaid iddo ar unrhyw amser. Mewn un rhan o Fon, y mae yn golygu tyddyndy heb ddeiliad. Y mae y gair yn gwneyd i fyny, gydag enwau ereill, lawer iawn o enwau lleoedd yng Ngogledd Cymru. *Moelffridd*, mynydd ym Meirion.

*Ffynnon*, tarddiant dwfr. Y mae y gair hwn yn cael ei gymhwyso at lawer iawn o enwau ein seintiau; megys *Ffynnon Ddewi*, lawer iawn o honynt; *Ffynnon Llawddog; Ffynnon Deilo; Ffynnon Elian, &c.* Y mae lle ym mhlwyf Penbryn, Ceredigion, o'r enw *Ffynnon Fadog*; ond y mae rhai mor fympwyol a meddwl mai *Ffynnon Waedog* yw; ond y mae hyny dipyn yn rhy bell, gan fod *Madog* yn enw dyn; y mae yn eithaf eglur mai dyna iawn ystyr yr enw. Y mae enwau cyssegredig weithiau wedi eu rhoddi i'n ffynnonau; megys *Ffynnon Fendigaid, Ffynnon Wen: gwyn*= bendigedig. Y mae rhai ffynnonau genym o'r enw *Ffynnon Las*; ond enwau diweddar yw y rhai hyny. Yr ydym ym mhell o feddwl fod yr hen seintiau wedi gadael rhinwedd yn y ffynnonau sydd ar eu henwau; ond er hyny, yr ydym yn dra hoff o yfed tracht o ddwfr o'r hen ffynnonau ag sydd yn dwyn enwau ein seintiau.

GALLT, esgynfa, clogwyn, llethr coediog. Y mae yn ffurfio enwau llawer iawn o leoedd yng Nghymru—*Gallt Fadog* (hen artref Lewis Morris), *Gallt y Gribyn, y Gamallt, yr Allt Goch, yr Allt Wen, y Wenallt.*

> "Nid oes bren yn y *Wenallt*
> Na bo'n wyrdd ei ben a'i wallt."
> *D. ab Gwilym.*

Y mae lle yn agos i Lanidloes o'r enw *Gallt y Cordde*, ac y mae un arall ym mhlwyf Penbryn. Ystyr *cordde* yw *troellog*. Y mae *Gallt y Cordde*, Penbryn, ar droad gallt yn hollol, ac ymddengys fod yr ystyr yn dra amlwg felly.

*Glan.* Y mae y gair hwn yn cymmeryd rhan yn enwau cannoedd o leoedd yn ein gwlad. Nid oes nemawr afon, na chwaith nant, nad yw *glan* yn cael ei gyssylltu fel blaenddawd; megys, Glan Taf, Glan Hafren, Glan Conwy, Glan Ogwen, Glan Wysg, Glan Ceri, Glan Dwr, Glan y Môr, &c.; ac enw bychan, twt, a chynnwysfawr yw, nad yw y Seisoneg *side*, neu *bank*, ddim i'w gymharu iddo; ond y mae rhai o'n Cymry *dysgedig* (?) yn ymdrechu dwyn i mewn *side* yn ei le, megys *Teifi Side, &c.*

*Glas.* Y gair Seisonig cyferbyniol i

Digitized by Google

*glas* yw *blue*; ond y mae y Gymraeg yn ei gymmeryd weithiau yn gyfystyr â *gwyrdd*. Y mae genym amryw leoedd a'r enw *Glasgoed*. Y mae genym chwedl "Rhian o'r Glasgoed." Y mae genym hefyd *Glaslyn* yn y Gogledd, a *Glasgwm** yn swydd Faesyfed.

*Glyn*. Y mae y gair bychan a thlws hwn eto yn cael ei gymhwyso at enwau llawer o afonydd ac enwau ereill, ac yn ffurfio enwau llawer o leoedd yng Nghymru; megys *Glyn Dyfrdwy*, *Glyn Corwg*, *Glyn Llifon*, *Glyn Aeron*, *&c*. Y mae *glyn* yn golygu lle cul rhwng gelltydd, a hyny lawer yn gulach na dyffryn. Mor fanwl oedd yr hen bobl yn hyn. Edrychwn ar *Glyn Aeron*; y mae y lle ym mhen uchaf *Dyffryn Aeron*, ac yn sefyll yng ngwaelod *glyn cul*, lle mae yr Aeron rhwng dwy allt, y rhai ydynt mor serth a chul, fel y mae yn anhawdd teithio gyda eu glenydd. Enw da yw *Glyn Arthen*, ond nid yw golygfa y fan yn ateb i *glyn*. Enw diweddar yw *Glyn Arthen*. *Glyn Llebyng*, yn Nhroed yr Aur: ystyr *llebyng* yw *lleb* (melyn), ac *ain* (dwfr).

(*I'w barhau.*)

## O WYNFA LAN!

*Cyfieithad o'r Hymn, "O Paradise! O Paradise!" &c.*

O Wynfa lân! O Wynfa lân!
Pwy na'th chwennychai'n wir?
A phwy na charai'r hyfryd wlad,
Lle triga cariad pur,
Lle mae eneidiau'r saint
Byth yng ngoleuni'r nef,
Yn canu am eu braint,
A'i bresennoldeb Ef.

O Wynfa lân! O Wynfa lân!
Mae'r byd yn cilio draw;
Ond ynot ti mae rhyddid byth,
A chariad ar bob llaw;
Lle mae eneidiau'r saint, &c.

Paradwys lân! Paradwys lân!
Dymunwn fod yn rhydd;
Tyr'd angeu dysglaer, ti yw gwawr
Ein bythol ddwyfol ddydd, &c.

Paradwys bur! Paradwys bur!
Rhy wael yw'r ddaiar hon;
Hiraethu wyf am gwmni Crist,
A'i weled ger fy mron, &c.

Paradwys lân! Paradwys bur!
Mae pechod imi'n flin,
Dymunwn fyw yn hyn o fyd
Fel yn y nef ei hun, &c.

O nefol wlad! Paradwys wiw!
'Rwyf yn hiraethu'n awr
Am wel'd y lle ddarparodd Duw
I mi mewn gwynfyd mawr, &c.

Paradwys bur! Paradwys lân!
Dynesaf at dy ddor;
'Rwy'n credu weithiau clywaf gân
O iaith y nefol gôr,
Lle mae eneidiau'r saint, &c.

PHILIP DAVIES.

*Eglwys Penmain, Mynwy.*

## YR EGLWYS.

YR ydym wedi clywed lawer gwaith fod yr Eglwys mewn perygl; ac y mae yr un peth i'w glywed yn aml y dyddiau hyn. A chymmeryd yn ganiataol fod yr Eglwys mewn perygl yn awr, y cwestiwn yw hyn, beth a allwn ni wneyd yn bersonol i amddiffyn yr Eglwys rhag ymosodiadau dichellgar ei gelynion? Nid ydym yn meddwl am fynyd y bydd i'r Eglwys gael ei gorchfygu gan dywysog y byd hwn; canys dywed ein Hiachawdwr na fydd i byrth uffern lwyddo yn ei herbyn. Er y bydd i Eglwys Crist ddyfod allan yn fuddugoliaethus o bob erlidigaeth yn y pen draw; eto gall Efe symmud ein canwyllbren allan o'i le. Gwnaeth hyn ag Eglwysi Asia, y rhai oeddynt yn flodeuog un amser; ond yn awr, oddi gerth dwy eithriad, yn ddadfeiliedig dan draed y Mahometiaid a'r anffyddiwr. Gwnaeth hyn ag Eglwysi Affrica hefyd, cartrefle merthyron a seintiau. Er y gall yr Eglwys fod dan gwmwl mewn rhai manau; nis gall Eglwys Crist gael ei difodi yn llwyr allan o'r byd. Y mae yn ddyledswydd ar bob aelod o'r Eglwys hon ym mhob plwyf a phob ardal i wylio yn ofalus, a gweddio na fydd i'n canwyllbren gael ei symmud o'i le; ac y mae yn ddyledswydd arnom ofalu i gadw y goleuni yn bur ac yn ddysglaer. Nid ydym yn credu fod hanfodiad yr Eglwys yn ymddibynu ar ei gwaddoliadau a'i meddiannau tymmorol yn unig: gall ei holl feddiannau, y rhai a roddwyd iddi gan ddynion haelionus tuag at ei chynnal, gael eu cymmeryd oddi arni gan ein seneddwyr, fel y gwnaed yn amser Cromwel; ond ni bydd i hyn newid ei chymmeriad fel Eglwys Apostolaidd. Pe llwyddai Cymdeithas y Dadgysylltiad i gymmeryd meddiant o'i holl feddiannau, pwy fydd y colledwr mwyaf—y colledwr, neu ynte yr ysbeiliedig? Gadäwn i bob meddwl ystyriol i farnu drosto ei hun. Bydded i'r nefoedd gadw ein gwlad rhag cyflawnu y fath bechod; pe gwnaent hyn, fel yr ydym wedi sylwi yn barod, ni fydd i'w chymmeriad ysbrydol gael ei niweidio yn y mesur lleiaf. Mae wedi cael ei sylfaenu ar y graig; ac y mae yr addewid ganddi, ac nid oes un gallu daiarol a all ei hamddifadu o hono. Yn y dydd olaf, ni fydd o un pwys pa un a fydd galluoedd y byd hwn o'i phlaid ai peidio; ond bydd o bwys

* Y mae yr enw hwn wedi cael y fraint o'i Seisonigeiddio yn *Glascomb!* Y mae gorsaf rhwng Caerloew a Chasnewydd o'r enw *Catcomb*, sef *Coedcwm*, y Gymraeg.

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 139. GORPHENAF, 1868. CYF. 12.

Y llongau ferchyg arno ef
O dref i dref â nwyfau,
A chludant dros ei dònau certh
Aneirif werthfawr bethau;
Hen sylfaen gref bodolaeth yw,
Mae dynol ryw'n ei hoffi;
Ond gwasga gur i lawer bron
Pan bo ei dònau'n berwi.

Ei ddyfroedd heilltion rhad i ddyn
Sy'n feddyginiaeth hynod,
Daeth llawer ato ar ddwy ffon,
Yn edrych bron a darfod;
Ond cyn pen 'chydig cael iachâd
Trwy wir leshâd ei rinwedd,
Gan ganu'n iach a thaflu'r ffyn
Heb arnynt 'run ammhuredd.

Rhyw annhraethadwy allu Ior
Yw'r eang fôr rhyfeddol,
Er budd a lles i deulu'r llawr
Yw'r arwr mawr a nerthol;
Ond er ei fod yn rymus un
A'i ddarlun hyll yn hynod,
Fe greodd Ior greadur *dyn*,
Mae hwn yn destyn syndod.

SILIN GWYLLT.

*Gwernogle.*

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

*(Parhâd o dudalen* **144.***)*

*Gogerddan, Gogo Urddain*, sef yr ogof gyssegredig. Y mae Llandyssylio *Gogo* wedi cael yr enw oddi wrth ogofau ger llaw, ac y mae ffug-chwedl flodeuog am un o honynt.

*Gorllwyn.* Ystyr cyntaf *gorllwyn* yw *nawddosgordd*; ac y mae hefyd yn golygu unrhyw nawdd, neu amddiffyn. Y mae Dafydd Ddu Hiraddug yn arfer *Gorllwyn y Fair Fendigaid*, sef nawdd y Fair Fendigaid. Y mae *Gorllwyn* wrth droed mynydd ym Mhenboir, ac ef allai fod yr hen grefyddolion yr oesoedd gynt yn arfer plygu yn y fan hòno i gael *gorllwyn* y Forwyn Fendigaid. Y mae Eglwys *Llanfair Orllwyn* wedi ei chyflwyno i'r Fair Fendigaid, fel y mae yr enw yn dangos, ac y mae yn debyg mai nawdd Mair a olygid wrth *Gorllwyn.* Y gwreiddiau yw *gor* a *llwyn.* "Goreu *llwyn* un a'm cysgodo."—*Diareb.*

*Gwaen, gwastadedd, doldir.* Y mae *gwaen* yn golygu tir lleithach a garwach na dol yn yr ystyr gyffredin o honi. Y mae y gair hwn yn gwneyd i fyny nifer fawr o enwau lleoedd. Y mae braidd ym mhob ardal lle byddo tir gwndwn llaith; megys, Gwaen y Gelod, Gwaen Meirws,† Gwaen Goch, Gwaen Maendy, Gwaen Trodau, sef *gwaen y mynedfëydd*, neu *llwybrau*, Gwaen yr Ysgor, sef Gwaen yr amddiffynfëydd, Gwaen Llyfeni (Llyfni), Gwaen y Meirch, &c.

*Gwar*, sef yr hyn fyddo ar ran uchaf o unrhyw beth; ac y mae yn golygu y rhan o ddyn nesaf i'r gwddf. Y mae yn gwneyd i fyny enwau twysged o leoedd; megys *Gwarllwyn*, hyny yw, lle uwch law *llwyn*, yr hyn a olyga weithiau lawer o lwyni, megys prysg; *Gwarffynnon*, sef ty uwch law ffynnon; *Gwarallt*, yr hyn sydd yn agos yn gyfystyr a *Phenallt*; *Gwar y Clawdd*; *Gwar Esgair*; *Gwar y Cwm*, &c.

*Gwastad.* Ystyr y gair hwn yw lle agos heb rediad. Y mae llawer o leoedd yn cael eu galw wrth yr enw hwn; *Gwastad*, ar lan Aeron; *Gwastad Meirionydd*, ym mhlwyf Celynin; *Gwastadgoed*; *Gwastadryn*, *rhyn*, neu bentir gwastad.*

*Gwempa*, man *tlws*, neu *brydferth.* Y mae rhai manau o'r enw hwn, ac enw tlws yw ar dy fyddo yn sefyll ar fan brydferth. Tyrus *wemp—Gwenffrwd.*

*Gwern*, dol ddyfrllyd, sef lle llaith, lle mae llawer o'r *Gwern* yn tyfu. Ceir llawer iawn o leoedd o'r enw hwn, a hyny weithiau heb un gair arall wrtho; ond y mae hefyd yn gyssylltedig wrth lawer o eiriau; megys *Gwern y Clepa* (hen lys Ifor Hael), sef *Gwern y Swn*; *Gwern Macwy*, hyny yw, Gwern y *dyn* ieuanc (Macwy, *a page*). "Myned a wnai i'r maes, a dau *facwy* gydag ef."—*H. O. ab Urien — Mabingion.* *Gwern Ddafydd*; *Gwern Ddofn*; *Gwern Medd*, ger Aberteifi, sef *Gwern Siglenog*; *Gwern y Cynyddion*, ym Meirionydd, &c. Y mae y gair *gwern* yn gymhwysiad tra phriodol at leoedd fyddont yn sefyll yn y fath fanau a nodwyd.

*Gwyddel*, hyny yw, lle yn llawn *gwydd*, neu goed. Y mae yn gyfystyr ar un olwg a *Celt*, o herwydd golyga un yn trigo mewn *gwydd*, neu *gelli.* Y mae plwyf yng Ngogledd Cymru o'r enw *Gwyddelwern*, yr hyn a arwydda le llaith, yn dir gwyllt gan goed *gwern* yn benaf. Un o'r teulu hwn yw *Dolwyddelen.*

*Gwyddfa*, lle uchel amlwg, sef lle ger *gwydd.* Ar lleoedd fel hyn yr oedd y beirdd yn y cynoesoedd yn cynnal eu cyfarfodydd. Daeth lleoedd amlwg ereill i gael eu galw wrth yr enw hwn. *Y Wyddfa* yw y mynydd uchaf yng Nghymru, a elwid felly o herwydd fod ei siol mor amlwg.

"Y radd a gefais ar rod
Onest *wyddfa*'n eisteddfod."

*W. Cynwal.*

*Gwyddgrug.* Y mae pentref ym mhlwyf Llanfihangel ar Arth o'r enw hwn. Y mae *gwyddgrug* yn gyfystyr a *tumulus*; a galwyd y lle hwnw felly o herwydd fod *gwyddfa (gwyddgrug)* ger y fan. Dyma ystyr tref y *Wyddgrug.*

---

* *Cam. Reg.*, vol. I., p. 299.

Digitized by Google

*Gwynedd*, enw talaith, a gynt yn dywysogaeth bwysig yng Ngogledd Cymru. Y gwreiddyn yw *gwyn*, ac y mae yn berthynas i *gwyneb* (*face*). Gelwid y parth hwn o'r wlad felly am mai hi oedd y rhan *uchaf* o Gymru. Yr ydys yn arfer tynu darlun *Gwynedd*, neu *Modryb Gwen* (Venedocia), yn debyg i hen wraig wledig iawn; Ynys Mon yn *ben*, Braich y pwll yn fraich dde, yn rhoddi ymborth i bysgod Morgilfach Aberteifi, y fraich chwith yn cydio yn Lloegr, ac Aberystwyth (yn y De) ar flaen ei bacas.*

*Gwynionydd*, hen enw cwmmwd yng Ngheredigion. Deillia o *Gwynion*, enw dyn, yr un fath a *Meirionydd* o *Meirion*.

HAWEN, enw dwy afon yng Ngheredigion, ac hefyd pentref, yr hwn a gymmer enw yr afon. Yr ystyr yw *aw-on; aw*, peth symmudol, dwfr.

*Harlech, ar y llech*, neu y graig. Tref ym Meirion.

*Hen Fynyw*. Ystyr *mynyw* yw yr hyn sydd wrtho ei hun, neu yn sefyll draw wrtho ei hun.

Is. Y mae y gair bychan hwn yn cynnorthwyo gwneyd i fyny amryw leoedd; megys *Is Aled, Is Cenen, Is Goed, Islwyn* (cymharer *Islwyn* â *Gwarllwyn*).

*Is Meloch* (*Meloch*, afon, a elwid felly am fod llawer o ddefnyddiau *mel* ar ei glenydd), *Is Tryweryn* (*Tryweryn*, nant dryloew). Y mae yn fynych yn gyferbyniol i *Uwch*, megys *Uwch Aeron, Is Aeron*, ac y mae yn air cymhwys a thra phriodol yn ei ddefnyddiad.

LLAN. Hwyrach fod y gair bychan cynnefin ac adnabyddus hwn yn un o'r rhai mwyaf mewn enwau lleoedd o bob gair a feddwn; hyny yw, gan ei fod yn gwneyd i fyny y fath nifer o Eglwysi, y mae yn rhyfeddol o gyfarwydd. Clywsom foneddwr o Sais (Deon Ripon, ydym yn meddwl) yn traethu yn Eisteddfod Aberystwyth, fod dros bum cant o leoedd ym Mhrydain yn dechreu â *Llan*. Ystyr *llan* yw ysmotyn teg, hardd, a glân, o dir heb fod yn cynnwys anialwch, ac yn cael ei amgylchu fynychaf gan goed, caerau, neu rhywbeth tebyg. Perthynas iddo yw *glan*; ac y mae amryw eiriau ereill yn hanu o hono—*Llanerch, ydlan, perllan, gwinllan, corlan*, a *treflan*. Y mae y gair bychan hwn wedi cael ei gymmeryd trwy ffugyr am *Eglwys*; ac yn wir, gair tlws rhagorol yw. Byddai ein hynafiaid yn edrych allan am ddernyn tlws a chyfleus o'r fath a ddysgrifiwyd i adeiladu Eglwys, a byddent yn cyssegru y *Llan* â gweddi; ac ar ol ei hadeiladu, celai ei galw ar ol enw rhyw hen Sant, yr hwn fynychaf a fu yn ei chyssegru; megys *Llan Ddewi*, neu *Llan Deilo, &c.* Y mae rhai Eglwysi wedi eu galw oddi wrth enwau afonydd, a manau lle byddent yn sefyll; megys *Llan Daf, Llan Ddulas, Llan Ystumdwy, Llan Penal, &c.* Y mae *Llan* yn enw tra godidog ar Eglwys yn yr ystyr o ddernyn cyssegredig. Yr unig beth sy genym i gwyno o'i herwydd yw, fod y fath nifer o Eglwysi, neu Lanau, wedi eu cyssegru i'r un Sant. Y mae genym dair neu bedair o *Llangynllo*; tua'r un nifer o *Langybi*; ac y mae y fath nifer o *Landdewi*, fel y maent wedi eu cyssylltu wrth enwau, a rhai o honynt yn hirion iawn; megys *Llanddewi Aberarth, Llanddewi Brefi, &c.; Llanfihangel Nant Brân, Llanfihangel Bugeildy, Llanfihangel Glyn Myfyr, &c.* Y mae rhai o'r lleoedd hyn wedi eu talfyru yn dra dedwydd; megys *Penbryn*, yn lle Llanfihangel Penbryn; *Troed yr Aur*, yn lle Llanfihangel Tredeyrn; *Bugeildy*, yn lle Llanfihangel Bugeildy, &c. Y mae llawer iawn o'r lleoedd hyn yn cael eu camsillebu. Chwithig yw gweled *Llanwinio* yn lle *Llanwynio*, a *Llangunllo* yn lle *Llangynllo*. Gocheler dilyn dynion anwybodus o'r Gymraeg yn hyn.

*Lletty*. Ystyr y gair hwn yw arosiad am fyr amser—*lodging*. Ond y mae wedi cael ei osod yn enw amryw leoedd; megys *Lletty Angharad*.

*Llethr*. Ystyr y gair hwn yw *ochr gallt*, neu fryn. Y mae agos bod yn gyfystyr â *gallt*. Y mae hefyd agos bod yn gyfystyr â *llechwedd*. Y mae llawer o leoedd yn ein gwlad yn dwyn yr enw hwn; megys *Llethr Neuadd, Llethr Llestri*; a bob amser y mae codiad tir yn y manau hyny. Dyma yw ystyr *Lledrod*, sef *Llethrdroed*, medd y bobl; ond hwyrach mai y ffurf luosog o'r gair, sef *llethrod*, yw yr ystyr oreu. Y mae y perwyddiad *llethu* yn perthyn yn agos i *llethr*, ac y mae hwn yn egluro yr ystyr. Y mae dyn yn cael ei *lethu* o blegid anhawsder, gan fod dyn rhywbeth yn cael y trechaf arno; hyny yw, yn cael y *tir uchaf*, yn cael mantais *llethr*.

*Llidiardau*, pyrth, clwydi, *gates*. Y mae palas yng Ngheredigion o'r enw hwn; a cheir *llidiard* yn gwneyd i fyny enwau amryw leoedd heb law hyny; megys Llidiard Mangwyn, &c. Gelwid *Llidiardau* felly oddi wrth fod amryw Lidiardau, sef amryw fylchau yn dygwydd bod ger y fan lle y cafodd y palas ei adeiladu. Tybia rhai mai *llyd* yw gwreiddyn y gair hwn, sef *llediad*, neu agoriad.

*Lluest*. Ystyr *lluest* yw *gwersyllfa llu*, sef byddin; ond y mae wedi dyfod yn enw ar lawer o leoedd, yn neillduol yn y rhan uchaf o Geredigion; megys, Lluest y Gors, Lluest y Broga, Lluest Newydd, Lluest Fach, Lluest Fawr, a llawer ereill.

---

* Y mae *Gwenedd* yn Llydaw, sef a elwir yn Ffrancaeg, *Vannes*.—*Dr. Puw*.

Digitized by Google

*Llug*, a *Llugwy*. Y mae afonydd o'r enwau hyn. Ymddengys mai ystyr *llug* yw *gloew*, *dysglaer*, sef peth yn tori allan yn amlwg. Ymddengys fod yr afonydd wedi cael yr enwau hyn oddi wrth eu dysgleirdeb wrth darddu. Y mae genym y fath air a *Llugwys*, ystyr yr hyn yw ychydig o chwys. Y mae yn rhaid ystyried fod rhagor nag un meddwl i lawer gair.

*Llwyn*. Ystyr *llwyn* yw twf o un neu ragor o unrhyw goeden. Y mae yn gyffredin yn golygu mangoed brigog; ond y mae hefyd yn golygu weithiau gallt o goed. Y mae genym lawer iawn o enwau lleoedd â *Llwyn* ynddynt; megys, Llwyn Wermwd, Llwyn Ysgaw, Llwyn Celyn, Llwyn On (Llwyn Onen), Llwyn Derw, Llwyn y Prysg, Llwyn Einion, Llwyn Dafydd, Llwyn Pyr, Llwyn Madog, Llwyn Gwair, &c. Ystyr *Llwyn Gwair* yw *Llwyn Gwiwer* (gwiwer, *squirrel*). Hynod fel y cafodd yr enw hwn ei wasgu, fel ag i daflu sain a thebygolrwydd ystyr arall.

*Llyfni*. Y mae amryw afonydd o'r enw hwn. Ystyr yr enw yw *llyfn* a *gwy*, sef *dwfr llyfn*—Cwmllynfell, Llanllyfni, &c.

*Llys*. Ystyr y gair bychan hwn yw *ty breninol;* ty lle byddo cyfraith y wlad yn cael ei gweinyddu; ty tywysog, neu bendefig. Y mae genym amryw leoedd yn cynnwys yr enw hwn; megys, *Llys Arthur*, *Llys Dulas*, *Llys Faen*, *Llys Newydd*, *Tre Llys*, &c. Gair bychan godidog yw *llys*, a thrueni ei fod yn myned allan o arferiad yn y wlad—"*Llan a Llys*." Y mae genym amryw leoedd o'r enw *Llystyn*, ei ystyr yw enciliad, neu lettyad; *a recess, or lodgement*.

"A'r llys fraith yn arlloes fry,
A'r *Llystyn* yn arlloesdy."
*D. ab Gwilym.*

*Llywel*, y terfyn pellaf i olwg. Y mae plwyf ym Mrycheiniog o'r enw *Llywel;* ac y mae hen wersyllfa ym mhlwyf Llanybydder o'r enw *Llywelau*. Ymddengys fod y lleoedd hyn wedi eu galw felly am eu bod yn lle cyfleus i gael golygfa bell, yn neillduol i'r gorllewin. "A weli di rhywbeth yn y *Llywel?*"—"Seest thou something in the horizon."—*Dr. Puw.*

MABWYNION, enw cantref yng Ngheredigion. Ystyr yr enw yw *Mab Gwynion*, sef mab *Gwynion*, oddi wrth yr hwn y cafodd cwmmwd Gwynionydd yr enw.

*Machynlleth*. Ystyr *mach*, neu *bach*, yw lle o ddiogelwch; ond y mae hefyd yn golygu lle cysgodol, megys *dol* rhwng bryniau. Yr ydym wedi dangos dan yr enw *Berws* sut y mae *m* a *b* yn cymmeryd lle un y llall; gan hyny, y mae *bach* a *mach* yn gyfystyr. Y mae genym *Bach y Rhew*, sef man isel lle yr erys *rhew* a *llwydrew*. Anfynych yr iawn ddeallir *mach;* ond diau ei fod yn gyfystyr agos a *dol* (*meadow*). Cawn ef yn elfen cyfansawdd yn Glan*mach*las, ger dolydd eang Penarth; Mach(ein)llaeth, prif *laethfa* yr hen Ardofwysiaid (*Ordovices*). Cil*mach* (Cilfach); Pen*mach*naw; *Mach* yr Ynys (Machynys *Vulg.*), ger Abermaw; *Mach*ludd, lle gorphwys yr haul fel teithiwr lluddiedig; ac yma *Machwen* (*Elysium*), neu gysegr ddol neillduedig Derwyddon a Myneich Clynnog Fawr, yr hon a gylchynid gynt gan wern isel goediog ar lun pedol; ei deuben yn gydiedig gan y môr a'i feisdon caboledig, a'r *Fachwen* yn ymddyrchafu yn fron brydferth o'r wern, nes ymgrynhoi o dan wadnau yr hen gromlech lwyd ar uchaf y maes."—*Ab Hu.** Y mae athroniaeth *mach* a *bach* wedi ei gwneyd yn eithaf eglur. Ystyr *machen* yw *dol*, neu gil*fach* fechan. Y mae *mach* (*a bail*), lluosog, *meichiau*, i'w ganfod yn golygu yr un peth.

*Maen*. Y mae *maen*, *llech*, a *chareg* yn eiriau cyfystyr, neu o'r hyn leiaf yn agos felly. Y mae *maen* a *llech* yn cael eu harfer am *geryg*. Y mae *maen* yn golygu careg o faintioli mawr; ac yr oedd weithiau yn yr oesoedd gynt yn golygu y grefydd Dderwyddol. "Da'r *maen* gyda'r Efengyl;" hyny yw, Da pob dysg rinweddol ag oedd yn perthyn i'r Derwyddon gyda'r Efengyl. *Maenclochog*, sef *maen* â swn *clochog* yn perthyn iddo, tebyg fel y dywedid am *Llech-lafar*, yn Nhy Ddewi. *Mallwyd*=*Maen llwyd*. *Tref Main* (ger Aberteifi)=*Tref y meini*. *Maen Twrog*, *Maen Tyrawg*, medd rhai, a *Maen Twrog*, sef oddi wrth ddyn o'r enw *Twrog*, medd ereill. *Maenor* (gwel y sylwadau dechreuol).

*Maes*. Ystyr y gair hwn yw tir agored. Cad ar *Faes*, sef brwydr ar dir agored. Y mae y gair hwn yn gwneyd i fyny lawer o enwau lleoedd. *Maes Afallen*, *Maes Glas* (neu gwyrdd), *Maes Neuadd*, *Maes y Bedw*, *Maes y Gadfa* (cadfa, brwydr), *Maes Gwen Llian* (lle lladdwyd Gwen Llian, Tywysoges Gruffydd ab Rhys, ger Cydweli), *Maes Esyllt* (ym Morganwg), *Maes y Crugiau*, *Maes Derw*, *Maes On* (onen). Y mae lle yn Lloegr o'r enw *Masson*, a dywedai yr enwog Lewis Morris mai *Maes On*, y Gymraeg, oedd yn ddechreuol. Y mae y gorair *maes* yn deillio o'r sylweddair. "Y mae efe wedi myned *maes* (allan)." *Maes Teg*, *Maes Coch*, &c.

*Mai*. Y mae y gair bychan a pherseiniol hwn yn benteulu lluosog a pharchus ym mhlith rhieni geiriol y Gymraeg. Y mae *Mai* yn enw ar fis cyntaf yr haf, o herwydd mai pryd hyny y mae y blodau

* *Ab Hu Feddyg* yn ei nodiadau ar *Gyff Beuno Eben Fardd*, tud. 57.

Digitized by Google

yn eu gogoniant. Golyga hefyd dir fyddo yn ymestyn allan, hyny yw, tir prydferth, *blodeuog*. Y mae Eglwys yng Ngogledd Cymru o'r enw *Meifod*, sef *bod*, neu *drigfa* hardd a blodeuog, a lle felly yw *Meifod* i'r llythyren. Y mae Eglwys yn agos i Gaerfyrddin o'r enw *Meidrum*, sef *mai a trum*. Ystyr *trum* yw *cribyn*, neu *gefn*; ac ystyr *Meidrum* yw copa cribyn, neu gefn y *Fai*. Y mae y lle uchod yn ateb i'r dysgrifiad hwn yn hollol. Y mae yn ymyl Llangeitho ffermdy o'r enw *Meidrum*, ac y mae y dysgrifiad uchod yn hollol briodol; y mae ym mhen uchaf Dyffryn Aeron, ac felly yn sefyll ar *drum y Fai*; glyn sydd oddi yno i fyny. Ger llaw iddo y mae lle o'r enw *Llygad y Dyffryn*, yr hyn sydd yn dangos fod pen uchaf y dyffryn yn y fan hòno. Y mae hefyd le ger llaw Cenarth o'r enw *Penfai*, yr hyn sydd yn dangos fod *pen* llanerch flodeuog yn y fan. *Myddfai*, *mwdd a mai*, sef *mai gron*, neu *Mynydd Fai*. Y mae *Cilfai* a *Mai Sili* yn perthyn i'r un teulu. Y mae yn debyg mai *Mailawn* yw dull cyntefig *Moilon*, gan nad yw *moi* yn ateb un ystyr. Ystyr *moi* yw *bwrw*, *bwrw ebol*. *Maes Moi*, ger Caio, a berthyna i'r un teulu. Y mae *Gallt y Fai*, ger Llanilar. Ein gair Cymreig am *Militia*, yw *Meiwyr*, hyny yw, gwŷr y *mai*, sef gwŷr cad ar *fai*, neu faes.

*Math*. Ystyr y gair hwn yw *gwastadedd sathredig*, neu *fathredig*. Ystyr *Mathafarn* yw *gwastadedd gofid*, neu *alar*. Ystyr *Mathrafel* yw *math rhyfel*, yr hyn sydd yn dyfod yn agos yr un ystyr a *Mathafarn*. Dywedir mai cyfnewidiad o *Merthyr* yw *Mathri* yn Nyfed; ond y mae yn fwy tebyg taw perthynas yw i *Mathrafel*, &c. Dywed rhai fod *ma* yn nechreu gair yn golygu yr un peth a *ma*, sef *man*, yn niwedd gair; megys, nodd*fa*, *man o nawdd*; Mor*fa*, &c.

*Moel*. Y mae y gair hwn yn cael ei gymhwyso at lawer o fryniau a mynyddau; megys, *Moel Hafodig*, *Moel Gynyn*, *Moelfre*, *Moel y Gest* (cest, tor), &c. Y mae wedi ei gymmeryd oddi wrth yr ansoddair *moel*; megys *pen*, sef pen heb wallt. Yr oedd *Moel* yn y cynoesoedd yn cael ei arfer yn gyfenw, megys *Hywel Foel*, *Rhys Foel*. Gelwid hwy felly o herwydd eu bod wedi colli eu gwallt. Y mae rhai tylwythau o'r enw *Voyle* yn bresennol, y rhai sydd yn hanu o un Dafydd Gwilym *Foel*, yn swydd Benfro. Gelwid y mynyddau felly am eu bod yn llyfn a didwf.

*Morfa*. Y mae genym lawer iawn o leoedd â'r gair *morfa* yn cael ei gymhwyso atynt; megys, *Morfa Rhuddlan*, *Morfa Mawr*, &c. Ystyr y gair yw *lle*, neu *fan* ar lan y *môr*, ac yn gyffredin, lle byddo llanw y môr yn arfer dyfod.

*Mydyreilin*. Y mae pentref o'r enw hwn yng Ngheredigion. Y mae yn golygu



*Eilin* (braich) *Mudyr*, sef *elin*, neu *ongl* yr afon Mudyr. Y mae yr afon Mudyr yn *gam* yn y fan hòno, yr un fath ag elin dyn pan wedi ei phlygu. Y mae hyn yn golygu agos yr un ystyr a *Brechfa Cothi*. Ystyr *Mudyr* yw afon ddystaw, tebyg fel ydym wedi traethu am *Medeni* (Mudanwy).

*Myeli*. Y mae afon o'r enw hwn yn sir Drefaldwyn, ystyr yr hon yw *el* ac *wy*, yn debyg i *Elwy*, *Elan*, &c., a'r blaenddawd *my* yn gadarnhaol. Y mae afon arall yn yr un plwyf (Ceri) o'r enw *Mywl*, ond a sillebir yn *Mule*.* "Niwl Miwl a Myeli."—*Taliesin ab Iolo*. Y mae afon ym mhlwyf Llangathen o'r enw *Myddyfi*; ystyr yr hon yw *My-ddwfn-wy*. *Dyfnwy* wedi derbyn y blaenddawd *my*. Y mae yr enw hwn yn cyfegluro *Dyfi—My-Dyf-gwy*.

*Mynydd*. Y mae y gair hwn yn deillio o *mwn*, yr hwn a olyga beth yn *ymestyn allan* yn bigfain. Y mae y gwreiddair hwn i'w weled yn yr enw *Mwnt*, ger Aberteifi, sef codiad uchel o graig gron. Y mae llawer o leoedd yn cael eu galw yn *Mynydd Brith*, *Mynydd Mawr*, *Mynydd Islwyn*, &c. Y mae *Mynyw* (Ty Ddewi) yn perthyn i'r dosbarth hwn o eiriau, sef peth wrtho ei hun, neu yn sefyll mewn unigedd.

*Mynwy*, *Mawn-wy*, sef afon *fawnog*.

NANT. Ystyr y gair hwn yw *hollt*, neu *gwm cul*; ond yr ystyr fwyaf gyffredin yw *afonig*. Y mae llawer lle yn dwyn yr enw hwn; megys, *Nant Llidiog*, sef brochus; *Nant Coll*, suddedig; *Nant Mawr*; *Nant Ffrener*, nant ewynog; *Nant Mynedd*, nant yr unigrwydd; *Nant yr Arian*, nant loew, &c. Y mae palas ym Meirionydd o'r enw *Nannau*, ystyr yr hwn yw lluosog o *nant*. Y mae palas arall yn Lleyn o'r enw *Nanhoron*, sef *Nant Eiron*, nant loew. Y mae lle hefyd o'r enw *Nanmor* (Nant Mawr), oddi wrth yr hwn y cymmerodd y bardd *Dafydd Nanmor* ei enw. Y mae y *t* wedi myned ar goll yn yr enwau diweddaf a godwyd. Y mae teulu yng Ngogledd Cymru o'r enw *Nanney*, y rhai a gymmerasant yr enw oddi wrth y palas *Nannau*. Ar ol ysgrifenu ar yr enw *Aeron* (Aberaeron), yr ydym wedi cael fod nant yn Llanddewi Brefi o'r enw *Eirwysg*, neu *Aerwysg*, yr hwn sydd yn cyfegluro *Aeron*. Y mae amryw leoedd o'r enw *Nawmor*, yr hyn nid yw ond crebychiad o *Nantmawr*. *Nanhyfer* (Nefern), sef *nant wyllt fer*. *Nannerch*, *Nant Erch* (*erch*, tywyll, bygythiol).

*Neuadd*. Ystafell fawr (*a hall*). Y mae amryw leoedd yn dwyn yr enw hwn; megys, *Neuadd Trefawr*, *Neuadd Fawr*, *Neuadd Fechan*. Y mae *Neuadd* fel enw ar dy yn arwyddo palas yn llai na *Llys*. Ystyr *neu* yw *dymuniad*; a *Neuadd*, *lle dymunol*.

---

* Ystyr *Mywl* yw *Myel*.

Digitized by Google

PAL. Ystyr *pal* yw dernyn gwastad ar fan uchel. Y mae yn cael ei arfer mewn rhai parthau o Ddyfed yn gyfystyr â *ffeld*. Y mae lle ym mhlwyf Llanbadarn Odwyn o'r enw *Pal Ameuddyn*, ac y mae lle ym Meirionydd o'r enw *Palau*, ac y mae lle yn Nhroed yr Aur o'r enw *Penrhiw Pal*. Hwyrach fod y gair hwn yn gefnder, os nid yn frawd, ac hefyd yn frawd gefeilliog i *Bal*. Ond a'i ddilyn ym mhellach, gwelwn *palis* yn berthynas iddo, a *pale*, y Seisoneg; ac nid yw *palf* a *paw* ym mhell yn y teulu hwn.

(*I'w barhau.*)

---

## Y TEITHIWR LLOFRUDDIEDIG.

CYFIEITHAD.

PAN ddygodd gwanwyn 'nol ei gwedd
I loni'r maes a'r llyn,
Fe gafwyd esgyrn teithiwr tlawd
Yng ngwaelod cul y glyn.

Uwch ben ysgydwai'r fedwen ber
Ei thusw yn y gwynt;
A llawer blodyn gwywo wnai,
Heb ofyn am ei hynt.

Y fronfraith bynciai uwch ei ben,
Wrth weithio'i chywrain nyth;
Ac yno'r petrus gasglai'u bach,
Heb ofni niwed byth.

Ond yr oedd wylo draw ym mhell;
A llawer gwyneb crwn,
Gan ddysgwyl pruddaidd llawer dydd,
Yn drist eu gwedd am hwn.

Ychydig wyddai'r plantos bach
Am ddiwedd dwys eu tad,
Wrth deithio dros yr eira gwyn,
I rywrai dd'od a'i ladd:

Nac am y blaidd a'r llewpard gwyllt
Ymgyrchent 'ddeutu'r fan,
Pan oedd y gogledd wawr yn goch,
I larpio'i gorff dinam:

Na chwaith pan ganfod wnaeth rhyw rai
Ei esgyrn hyll eu gwedd,
Y modd y gwnaethont arch mewn brys
I'w gludo tua'i fedd:

Nac am y ceryg treiglo wnaent,
Fel arwydd uwch ei fedd;
Ac wrth ei guddio nid oedd neb
A thristwch ar ei wedd.

Ond edrych, ofni, gartref wnaent,
Ac wylo yn ddio'd;
A neidient yn eu cwsg yn llon
Am ei fod wedi d'od.

Ond er hir edrych—byth yn gwel'd
Ei gamrau'n d'od ffordd hyn:
Na gwybod am y diwedd ga'dd
Yng ngwaelod cul y glyn.

EMRYS.

---

Tripheth a gâr Duw: teg o rif, teg o bwys, a theg o fesur.

Tripheth a ganlyn seguryd: campau drwg, gair drwg, a diwedd drwg.

## UNDEB CRISTIONOGOL.

"Wele, mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yng nghyd."—SALM cxxxiii. 1.

NID llawer o bethau yn y byd hwn sydd yn dda ac yn hyfryd ar yr un pryd; canys y mae o les i ni pan y byddo ein ffydd yn Nuw yn cael ei brofi, er nad yw yn hyfryd; ond y mae'r Salmydd yma yn siarad am rywbeth sydd yn ddaionus ac yn hyfryd, sef fod brodyr yn trigo mewn undeb â'u gilydd, heb neb yn tynu'n groes. Mewn teulu mae yn beth hyfryd gweled gwahanol aelodau yn byw mewn undeb. Mae yn beth hyfryd gweled undeb a heddwch yn teyrnasu mewn plwyf ac mewn teyrnas. Os yw undeb yn beth anhebgorol mewn teulu, mewn plwyf, ac mewn teyrnas, mae yn ddiddadl fod undeb yn Eglwys Crist uwch law pob undeb arall yn anhebgorol. Dylai undeb fod yma yn fwy nag mewn un lle arall; mae diffyg undeb yn beth poenus a galarus. Pe torai pob undeb daiarol, dylem gadw undeb yn Eglwys Crist yn gyfan. I'r dyben hwn y darfu i'n Hiachawdwr sefydlu ei Eglwys; sef bod iddi uno holl blant dynion mewn un cymmundeb, ac un frawdoliaeth. Ond mae rhoddion Duw yn aml yn y byd hwn yn cael eu dinystrio trwy wendidau a phechodau dynion. Mae yr Undeb Cristionogol hwn wedi cael ei dori ym mhob oes, ac ef allai nid yn fwy na'r oes hon, yr hon yr ydym ni yn byw ynddi. Edrychwn i'r lle y mynom, yr ydym yn gweled nad oes dim undeb yn hanfodi yn ein plith. Mae yr oes hon yn hynod am ei hymraniadau. Mae y rhai hyny ag sydd yn galw eu hunain yn Gristionogion, yn lle byw yng nghyd mewn undeb fel plant o'r un teulu, yn lle ymgynnull i'r un lle i addoli Duw fel y gweddai i Gristionogion wneyd,—maent yn byw ar wahân, a'r naill yn elynol i'r llall. A all unrhyw beth fod yn fwy anhyfryd na hyn, sef bod dynion yn methu ymgynnull i'r un lle i addoli Duw yng nghyd? Yr ydym yn gweled o'n hamgylch ddynion yn gyfeillgar â'u gilydd yn eu masnach, a phob trafodaeth daiarol; ond nid ydynt yn cytuno ar y pwnc mwyaf, sef Undeb Cristionogol yn nhy Dduw.

Nid yw hyn yn ddaionus ac yn hyfryd; ac eto, yr ydym wedi ymarfer â'r pethau hyn o'n mebyd, fel nad ydym yn gweled un niwed ynddynt. Mae y meddylddrych sydd genym ni am Undeb Cristionogol yn hollol gyfeiliornus; mae llawer yn meddwl ei bod yn ddyledswydd arnom i gytuno i wahaniaethu ar bynciau crefyddol. Nid yw y fath dybiaeth am undeb ddim ond cysgod. Nid yw yr hyn ag oedd y Cristionogion boreuol yn edrych arno yn bechadurus ddim o un pwys genym ni.

Digitized by Google

// YR HAUL.

Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 140. AWST, 1868. CYF. 12.

## ENGLYN

*A wnaed wrth wrando hen bregethwr Methodistaidd, yr hwn oedd chwedleuwr campus.*

Rhyw ystoriwr ystyriol—yw y dyn,
Mae'n dad geiriau penffol;
Mae ganddo 'stôr ragorol
O ddoniau ffug—hen ddyn ffol!

*Awst*, 1865. CAERONWY.

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

*(Parhâd o dudalen 210.)*

*Pant.* Ystyr y gair hwn yw lle isel yn cael ei gau gan fronydd neu elltydd. Y mae rhif fawr iawn o enwau lleoedd yn ein gwlad yn cynnwys y gair hwn yn eu dechreu, ac ambell un yn y diwedd. Y mae weithiau yn cael ei gymhwyso at enwau dynion; megys *Pant Einion, Pant Daniel, Pant Dafydd, Pant Rhydderch;* pryd arall y mae yn cael ei gymhwyso at enwau cyffredin; megys *Pant yr Onen, Pant Deri, Pant y Barcud, Pant y Curyll, Pant y Bara, &c.* Y mae yn deg sylwi yma, fod gwahaniaeth rhwng *pant* a *chwm;* y mae *cwm* yn eangach na *phant.* Y mae llawer cae yn cynnwys *pant*, ond nis gellir yn hawdd weled *cwm* mewn cae. Bu hen balas yn yr amser gynt yng Ngheredigion o'r enw *Pantterlys*, sef *Pant y Derw-lys=llys Derw.*

*Parc.* Ystyr y gair hwn yw darn o dir cauedig; neu mewn modd arall, *parthiad* o dyddyn. Y mae yn cael ei arfer mewn rhanau helaeth o Ddyfed yn gyfystyr â *cae*, hyny yw, efe a arferir yn lle *cae.* Y mae yn wir ei fod yn cael ei arfer yn Seisoneg am gae eang o flaen llys boneddwr; ond y mae yn dra thebyg mai ei gymmeryd o'r Gymraeg a wnaeth y Seison. Y mae e'r un teulu â *parth*, sef rhaniad; ac felly, nid oes ammheuaeth nad Cymraeg pur yw. Y mae yn cael ei ddefnyddio mewn enwau llawer o leoedd; megys *Pen y Parc, Parc Neuadd, Parc Rhydderch, Parc Ymryson, &c.*

*Pen.* Y mae y gair hwn yn golygu y rhan *uchaf*, neu bellaf o unrhyw beth. Y mae yn cael ei gymhwyso at lawer o enwau ereill i ffurfio enwau lleoedd yn ein gwlad; megys Pen Beili,* Pen Derw, Pen Deulwyn,† Pen Fforest, Pen Buarth, Pen Gelli, Pen Gaer, Penlan, Pensarn, Penrhyn. Y mae plwyf o'r enw *Penrydd* yn Nyfed, a thref yng Ngogledd Lloegr o'r enw *Penrith*, yr hwn sydd o'r un ystyr yn ddiau a'r un yng Nghymru. Y mae y Parch. Isaac Taylor yn traethu mai *Penrhyd* yw ystyr yr enw; ond nis gallwn yn hawdd ei dderbyn. Y mae *rhydd* yn golygu maes agored; ac y mae yn ddiammheu mai hyny a olygir yma. Y mae *Penrydd* yn Nyfed, yn gystal a *Penrydd* yn Cumberland, ar fan gweddol uchel; a phan adeiladwyd yr Eglwysi, yr oedd pen y maes *Rhydd* yn y manau hyny. Y mae *Penrhydd* ym Morganwg, a dywedir fod tebygolrwydd i ben *hydd* yn y mynydd sydd yn rhoddi yr enw i'r lle; ond hwyrach mai *rhydd* yw ystyr hwnw hefyd.

*Penryn.* Y mae genym amryw fanau a lleoedd o'r enw hwn. Ystyr *rhyn* yw tir fyddo yn ymestyn allan yn bigfain (*a cape*). Y mae i'r gair hwn amryw ystyrion: y mae yn golygu hefyd *llif*; a dywed Dr. Puw fod *rhen* yn ffordd fenywaidd o hono, megys *Aeddren* (llif trystfawr), ac *Onren* (llif gorlawn). Y mae yr enw hwn yn cael ei gymhwyso yn dra phriodol at leoedd; er enghraifft, *Penryn*, ym mhlwyf Cenarth, ger Emlyn, lle y mae *cornel* gorllewinol swydd Caerfyrddin; *Penryn Blathaon*, Cathness; *Penryn Rhionydd*, ger Galloway, yr Alban; *Penryn Penwyth*, yng Nghernyw. *Penial*, neu *Penal:* y mae genym amryw leoedd o'r enw hwn, ac yn ol Dr. Puw, eu hystyr yw *prif ddwfr.* Ystyr *al* yw *dwfr;* ac y mae afon o'r enw *Alaw* ym Mon; ac y mae *Elan* ac *Elwy* yn berthynasau iddi. *Pensarn:* y mae llawer iawn o'r enw hwn yn ein gwlad. Ystyr *sarn* yw peth wedi ei daenu i lawr mewn dull annhrefnus: ond y mae iddo hefyd ystyrion ereill. Gelwir *sarn* yn fynych ar ddernyn o dir agored, heb ei gau â chloddiau. Y mae yn fynych iawn mewn manau lle y bu y Rhufeiniaid yn aros; megys *Pensarn*, ger Caerfyrddin, a *Pensarn Elen*, ym mhlwyf Llanllwni. Y mae bwlch ar y mynydd, ger llaw y lle olaf, a elwir *Blaenpant y Pinswrn*, yr hwn sydd enw trwstan a diystyr, fel ag y mae yn cael ei seinio yn awr; ond y mae yn eithaf amlwg mai *Blaen Pant y Pensarn* yw ei iawn sillebiad, o blegid y mae yn lled agos i *Bensarn Elen. Penlle'r Gaer*, prifle byddin, *head quarters.*

*Pil.* Ystyr y gair hwn yw *ffrydle*, neu *adwy*, lle y byddo y môr yn rhedeg i mewn ar y llanw; ac y mae hefyd yn golygu ffos ddofn o ddwfr, yr hwn sydd yn gwneyd terfyn rhwng gwahanol diroedd llaith, lle nas gellir yn hawdd godi clawdd. Y mae yn cael ei arfer yn yr ystyr hwn yn swydd Caerfyrddin. Y mae lle ym Morganwg o'r enw *Pil*, a lurgunir gan y Seison yn *Pyle.* Y mae lleoedd ym mhlwyfi Llandysilio-gogo, Bettws Ifan, a'r Ferwig, o'r enwau *Pil Bach, Pil Mawr*, a *Pilau.* Y mae y lleoedd hyn ar leoedd gwlybion, lle gynt yr oedd ffosydd o'r fath

* *Beili Bedw.* Ystyr *beili* yw yr hyn fyddo yn ymestyn allan. Y mae yn cael ei arfer am *dalwrn (court yard)*, ac hefyd *gwyddgrug;* deillia o *Bal*, ac felly mae'n berthynas i *Balog.*

† Y mae teulu ym Morganwg a elwir *Dillwyn*, wedi cymmeryd yr enw oddi wrth *Deulwyn. Ieuan Deulwyn, &c.*

Digitized by Google

yn y tir. Y mae palas yn Ystrad Tywi o'r enw *Pilroth*. Ystyr *rhoth* (g. rhwth) yw peth rhydd, masw, siglenog; ac felly, gwelwn ystyr *Pilroth* mor naturiol ag sydd yn ddichonadwy, sef *ffos*, neu *adwy* dwfr mewn lle siglenog neu laith; ac y mae sefyllfa y lle yn hollol gymhwys i hyny yn awr. Y mae lle ym Morganwg o'r enw *Rhoth (Roath)*, yr hwn a olyga yr hyn ag ydym wedi draethu. Y mae lle ger Aberteifi o'r enw *Pil*, ac y mae yn sefyll ym mharth dwyreiniol y morfa rhwng hyny a Llechryd.

*Pistyll*. Ystyr y gair hwn yw *ffrwd*, ac y mae y perwyddiad *pisaw* yn perthyn iddo. Ceir amryw leoedd yn dechreu a diweddu â'r gair hwn; megys, Pistyll Dewi, Pistyll Meigan, Pistyll Ceitho; a Blaenpistyll, Penpistyll, &c.

*Porth*. Ystyr blaenaf y gair hwn yw *help*, ac y mae y gair cyfansawdd *cymhorth* yn ei egluro yn dda. Y mae hefyd yn golygu *agoriad*, *mynedfa*, sef lle y mae llidiard a phethau yn cael eu gosod. Y mae y gair hwn yn cyfranu at wneyd amryw enwau lleoedd yn ein gwlad. Y mae agoriad o ddyffryn yng Ngheredigion yn cael yr enw *Porth*, a gelwir Eglwys oddi wrtho yn *Blaenporth*, ac un arall yn *Aberporth*. Nid *Porth* yw enw yr afon, ond *Howni* (Hawni). Y mae y gair *porthladd* yn perthyn i hwn. Y mae amryw o enwau ereill yn cynnwys y gair; megys *Porth y Fynwent*, yn y Brongwyn; *Porth Aethwy*, ar y Fenai; ac yn wir, enw rhagorol yw hwn, sef *porth*, ac *aeth*, a *gwy*, hyny yw, *porth y gwy*, neu y *dwfr peryglus*.

*Prys* a *Prysg*. Ystyr *prys* yw *lle neillduedig; trigfa; coedach, mangoed*. Y mae amryw enwau yn cael eu gwneyd i fyny o'r gair hwn, trwy ei gyssylltu â geiriau ereill; megys Bron y Prys; Prys Addfed, Prys Iorwestl, Prys Goga (Prys Gogan), Prys Talyn, a Prys Dolffin (Dol y Ffin). Y mae *Prysg* wedi hyny yn agos iawn o'r un meddwl. Y mae lle ar lan Teifi o'r enw *Prysg;* a lle arall ger llaw o'r enw *Pen Prysg;* ac un arall heb fod ym mhell o'r enw *Gwar Prysgynwydd*. Y mae hefyd le ym Morganwg o'r enw *Y Prysg*, ac un ym Maesyfed o'r enw *Prysg*. Y mae y gair *prys* yn eithaf bychan i beidio ymofyn un tarddiad nag ystyr arall iddo; ond dyry y Dr. Puw ystyr dra phriodol i'r gair *Pry*, sef yr hyn sydd yn *helaethu, ymdaenu, cynnyrchu, &c.*; ac felly y mae yr ystyr o *Pry* ac *ys* yn dra rhagorol i *Prysg*, gan fod mamwydd yn bethau cynnyddol. Mae *Prystatyn* (Prys Tydain) yn un o'r teulu.

*Pumlumon*. Y mae mynydd yng Ngheredigion o'r enw hwn. Ystyr *llum* yw yr hyn fyddo yn ymestyn i'r lan yn bigfain. Perthyn *lluman*, neu faner, i'r gair *llumon;* ac y mae *llumon* yn hen air am *simnai*.

"Fy newis ar fy meibion, pan gyrchai pawb ei alon,
Pyll wyn, pwyll tân trwy *lumon*."

*Llywarch Hen.*

Y mae i *Bumlumon bum* copa, ac o herwydd hyny, galwyd ef wrth yr enw hwn, ac enw athronyddol a thra rhagorol yw. Y mae mynydd ym mhlwyf Llandyssul, yn yr un sir, o'r enw *Moel Lumon*, ac enw rhagorol yw. Y mae *Trichrug* wedi cael ei alw oddi wrth fod *tri chrug* ar ei ben.

*Pwll*. Y mae y gair hwn yn golygu *llyn*, ac hefyd *ffos* gron. *Pwllheli* a olyga *bwll*, neu *lyn* o ddwfr y môr. *Pwll Tinbyd*, hen artref Lewis Glyn Cothi, a olyga *bwll* mewn man neillduedig allan o wlad agored. *Pwll Gwepra*, hen etifeddiaeth Dafydd ab Edmwnt, bardd cadeiriol Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451, a olyga *bwll y gwyneb garw*, hyny yw, *pwll troellog*, gwyllt. *Pwll y Crochan*, yn Nyfed, a olyga *bwll*, lle y bu gweithfëydd pridd. Y mae yn wir fod pyllau mewn afonydd yn cael eu galw *Pwll Crochan*, oddi wrth eu dyfnder.

Rhaiadr. Ystyr y gair hwn yw cwymp o ddwfr dros graig, a gair mawreddog iawn yw. *Rhaiadr Gwy*, Maesyfed, *Rhaiadr Mochnant*, ym Mhowys, *Rhaiadr y Wennol, &c.* Dywed Dr. Puw fod y gair yn dyfod o *rhaiad (a radiation)*, a *rhaiad* o *rhai;* ond er fod awdurdod mor uchel drosto, y mae lle i ammheuaeth gyfodi am yr haniad yna. Y mae *Rhaiadr* ar yr afon Ceri, yn agos i Emlyn, a elwir *Craig y Rhuad*, hyny yw, am fod yr afon yn *rhuo* yn groch wrth ddisgyn i'r pwll. Peth hawdd oedd troi *rhuad* yn *rhaiad*, a *rhaiadr*. Ond barned y darllenydd pa un o'r cynnygion sy gywiraf.

*Rhagad*, enw hen le enwog ym Meirionydd. Yr ystyr a rydd Dr. Puw iddo yw *gorsaf i wrthwynebu*.

*Rhipyn*. Y mai y gair hwn yn cael ei arfer yn ein gwlad am *riw*, codiad tir. Ymddengys taw *Epynt* yw ei ffurf ddechreuol, trwy fod *r* (y fanod) wedi llusgo i mewn, a chan fod *h* yn dilyn *r* bob amser, daeth hithau i mewn yn naturiol, ac aeth y *t* yn y diwedd i golli. Y mae llinell o fynyddau yn Neheudir Cymru o'r enw *Epynt*. Y mae amryw leoedd yn ein gwlad o'r enw *Rhipyn, Rhipyn Llwyd, &c.*, ac y maent yn sefyll ar ryw gymmaint o godiad tir bob un o honynt.

*Rhiw*. Y mae y gair hwn yn dra chyffredin genym am ffordd yn myned dros godiad tir. Y mae nifer fawr iawn o enwau lleoedd yn ein gwlad â *rhiw* ynddynt; megys *Rhiw Felen, Rhiw Las, Rhiw Fedw, Rhiw Fabon*.*

*Rhos*, gwastadedd llaith; mawndir isel ac

* *Rhiwabon*, oddi wrth *Mabon*, enw dyn.

Digitized by Google

uchel. *Rhos Llanerch Rugog* (Llanerch y grug), *Rhos Tryfan* (*Tryfan*, man uchel), *Rhosdie* (Rhos y Teiau), *Rhos y Gadair*, *Rhosfarch*, a llawer ereill.

*Rhuddlan*, *rhudd* (coch), a *glan*. Y mae tref yng Ngogledd Cymru o'r enw hwn, ac y mae pentref ym mhlwyf Llanwenog, Ceredigion, o'r enw.

*Rhug*, enw hen balas yng Ngogledd Cymru. Tybia rhai mai *Crug* yw y ffurf wreiddiol; ond dywed ereill mai *lle yn llawn toriadau* yw ei ystyr.

*Rhuthin*, neu *Rhuthyn*. Ystyr yr enw hwn yw *rhudd-ddin*, sef *caer* mewn lle *coch*.

*Rhws*. Dyma enw y parth isaf o swydd Benfro yn y cynamser. Ystyr yr enw yw *tir brasdyfol*.

*Rhyd*. Ystyr y gair hwn yw lle bas mewn afon; ac y mae cannoedd o enwau lleoedd yn ein gwlad yn cynnwys *Rhyd*; megys *Rhyd Lydan*, *Rhyd y Pandy*, *&c*. Y mae y Seison wedi troi hwn mewn ambell fan yn *Red*; megys *Redbert*, yn lle *Rhyd y Berth*.

Sarn. Ystyr cyffredin y gair hwn yw *gwasgariad*, neu sathrfa annhrefnus o unrhyw beth. Y mae yn cael ei arfer am ddernyn o dir heb ei gymmeryd i mewn yn gae. Y mae hefyd yn golygu ffordd wedi ei phalmantu yn uwch na'r tir fyddo yn ochri â hi. Y mae yn gyfystyr â'r Seisoneg *causeway*, ac y mae genym rai tai o'r enw *Y Gawse*, yr hyn nid yw ond llygriad o'r Seisoneg. Y mae *Sarn Badrig*, ym Morgilfach Aberteifi, yn gystal ag amryw leoedd ereill, yn dwyn yr enw *Sarn*.

*Sawdde*, enw afon yn Ystrad Tywi. Ystyr *sawdd* yw *dyfnder*, *soddiad*, ac o hono daw y perwyddiad *soddi*. Felly ystyr *Sawdde* (Sawdd-wy) yw afon, neu ddwfr dwfn, llonydd.

"Cai urddas ffordd y cerddych,
Hyd dwr *sawdd*, a daiar sych."
*Ed. Dafydd.*

"Yn *Sawdde* bûm bron soddi,—oer ofid
A wnai'r afon imi,
O waith i'r Bont front, ddi fri,
Uwch y dwr, och! i dori."
*W. Williams.*

*Siedi*, enw afon ym mhlwyf Llangeler. *Si*, swn dystaw, treiddiol (*a tingling noise*); *sïad* (*a hissing*); *Siadwy*, dwfr, neu afon *sisialog*, a dalfyrwyd yn *Siedi*, ac a seinir yn *Shedi*. Mae ty ar ei glan o'r enw *Siadog*, am ei fod yn swn *sïad* yr afon.

*Sierfel*, enw nant ym Mawddwy. *Siarw-el*, sef *el* (afon), *arw* (sisialog). Try yr *w* yn *f*, a gwneir yr enw yn ddwy sill; neu, ef allai, *siar-el*, a bod yr *f* wedi dyfod i mewn i gryfhau y sain, o blegid mae y llythyren hon yn hoff o roddi ei gwasanaeth felly. Pa un o'r ddau yw y cywiraf, ni phenderfynwn; ond y mae yn amlwg fod *si* ac *el* yn hanfodion dechreuol yr enw. *Siar*, swn hyglyw.

*Sirowy*, neu *Siarwy*, yng Ngwent, sydd o'r un teulu a *Sierfel* a *Siedi*.

*Sylfan*. Y mae lle o'r enw hwn ym Meirionydd, a dywed Dr. Puw mai ei ystyr yw *man i sylwi*, yr hyn, feddyliwn, sydd yn cyfegluro *Bres Seli*, yn Nyfed.

Tal. Ystyr y gair bychan hwn, fel mewn enwau dynion, yw *talcen*, megys *Taliesin*, *Talhaiarn*, *&c.*; ac mewn enwau lleoedd y mae yn gyfartal a *pen*; megys *Talbont*, *Talsarn*, *Tal yr Yn*, *Tal Gareg*, *&c*. Ystyr *Talog* yw *lle noeth*. *Talardd*, *pentir arddedig*.

*Tan*. Y mae yr arddodiad hwn yn cael ei arfer o flaen llawer o enwau; megys *Tan y Coed*, *Tan yr Allt*, *Tan y Bwlch*, *Tan y Foel*, *&c*.

*Taren*, estyniad allan, twmpath, cnipell, tir creigog, tir gwyllt. *Tredaren*, ger Caerfyrddin; *Pendaren*, ym Morganwg; *Y Daren Wyddon*.

*Tilen*, enw nant ym mhlwyf Llangeler. Y mae *til* yn sylweddair ac ansoddair. Fel sylweddair, golyga beth bychan cymhen; ac fel ansoddair, *tlws*, *cymhen*, *twt*. "O! 'r un fach *dil*," medd y fam am y ferch fechan pan yn dechreu cerdded. "Y mae y bachgen bach yn myned yn *dil*;" hyny yw, yn myned yn gryno ac ysgafn. Y mae yr enw hwn yn rhyfeddol gymhwys ar yr afonig hon. Treigla mewn gwely cul, dwfn, gan sisial a bwrlymu, gan wneyd swn cau rhwng ei glenydd cyfyng; ac ar ei gwaelod gwibia y brithyllod yn *dil* a dedwydd! Y mae ganddi ei pherthynas yng Ngwent, sef *Tileri*, hyny yw, *Til-aer-wy*, sef afonig *dil* a *dysglaer*; athronyddol a phriodol iawn! Y mae ty ar lan *Tilen* o'r enw *Glantilen*. Yn agos iddi y mae hen balas Llwynderw, lle y preswyliai yr hen lenor enwog, William Lewes, Ysw. Gwych iawn, yr afonig dlos; y mae dy enw yn llawn o'r tlysni athronyddol a barddonol mwyaf swynol ag y gall y llenor, y bardd, a'r hynafieithydd gyfarfod ag ef; ac hefyd, yr wyt yn gallu ymffrostio yn dy lenorion, y boneddigion dysgedig a gwladgarol, William Lewes ac S. Pryse, Ysweiniaid.

*Tilen*, o bawb o'r teulu—afonig,
Yw'r fwynaf yng Nghymru;
Ei henw cain, afonig gu,
Urddas hen, wna fyrdd synu.

Nid hawdd fuasai cael ystyr *Tileri* ac *Abertileri*, oni buassai i *Tilen* agor y drws.

*Towyn*. Ceir llawer iawn o leoedd o'r enw hwn, ac y maent fynychaf, ac fe ddylent fod bob amser, ar lan y môr.

Digitized by Google

Dylid sillebu yr enw yn *Tywyn*. Ei wreiddyn yw *tyw*, sef ymdaeniad; ac y mae yn perthyn i *tywod*.

*Trach Dindyrn*. Ceir gallt, neu fynydd, o'r enw hwn uwch law Mynachlog Tintern; a cheir bryn ger Dinbych o'r enw *Trach*, a thyddyndy o'i flaen o'r enw *Taldrach*. Ystyr *trach* yw *bryn* megys yn ymestyn i dir isel. Ystyr *trach dindyrn* yw *trach-gaerdeyrn*, teyrn=brenin.

*Traeth*. Ystyr yr hen air hwn yw lle agored ar lan y môr, lle y mae gwyneb y tir yn gydwastad â'r don. Y mae genym lawer iawn o enwau yn cynnwys y gair hwn ynddynt; megys, Traethmawr, Traethsaeth, Traeth Artro, a Trefdraeth. Y mae *Pentraeth* yng Nghymru. *Doli Pentraeth* oedd enw yr hen wraig a siaradodd y Gerniwaeg yn olaf o bawb yn y wlad hòno. "Pwy bynag a bieffo dir yng nglan traeth, efe bieufydd gyfled ac y tir o'r traeth; a gwnaed gored arno os myn."—*Cyfreithiau Cymreig*.

*Trafle*. Mae nant yn Nhroed yr Aur, ac un arall rhwng Llangeitho a Llanbadarn Odwyn, o'r enw hwn; ac y mae hefyd le o'r un enw. *Traf*, cyffroad, gwylltineb, rhediad buan, a *llif*, sef dwfr gwyllt. Cymharer y gair hwn â *Cothi* ac *Ysgothi*.

*Traws*. Ystyr y gair hwn yw *croes*. *Traws Fynydd*=Croes Fynydd.

*Tref*. Yr ydym wedi dangos yn y sylwadau arweiniol sut yr oedd ein hynafiaid yn arfer *bod* a *thref*. Y mae llawer iawn o leoedd yn ein gwlad o'r enw *Tref*, hyny yw, yn cael ei gyssylltu ag enwau ac ansoddeiriau i wneyd enwau lleoedd; ac yn ddilys, y mae llawer o honynt yn enwau tlysion. Ef allai nad oes un rhan o Gymru mor aml o'r enw hwn a swydd Benfro. Y mae rhwng Abergwaen a Thy Ddewi le o'r enw *Tref Asser*, lle yr ymddengys y trigai yr enwog ddysgawdwr *Asser Mevensis*. Y mae *Tre Hywel*, *Tre Fadog*, *Tre Rhys*. *Tre Forgan*, *Tre Wilym*, a lleoedd ereill o enwau dynion wedi eu cyssylltu â *Tref*. Y mae hefyd ansoddeiriau wedi eu cyssylltu â *Thref*; megys *Trewen*, *Trelwyd*, *&c*. Y mae *Trellyffaint*, *Tregifft* (Tregrifft), *Trebared*, *Tregaer*, a llawer o'r fath i'w cael. *Trefa* oedd ein teidiau yn galw *Hamburg*. Y mae *Tred* yn golygu agos yr un peth a *Tref*; *Coed Andred*, *Caer Andred*; ac y mae rhandir yng Ngwent o'r enw *Tred Eleirch (Swanton)*.

*Troed*, sef y rhan isaf o'r dyn. Y mae llawer iawn o enwau llysiau yn dwyn y gair hwn yn eu henwau, ac y mae llawer o enwau lleoedd yn ei gynnwys; megys *Troed y Bryn* (neu *waelod* y bryn), *Troed yr Allt*, *Troed y Rhiw*, *Troed y Feidir*,* a *Troed y Bwlch*. Y mae enwau ar y Cyfandir wedi eu gwneyd yn debyg i hyn; megys *Piedmont*, *&c*. Y mae yn ymddangos fod rhai enwau wedi cael eu troi o *tref* i *troed*. Y mae Eglwys yng Ngheredigion a elwir *Troed yr Aur*, yr hon a elwir gynt yn *Tre Deyrn*, sef *Tref y Brenin*. Y mae olion hen lys tua chwarter milltir oddi wrth yr Eglwys, o'r enw *Llys Owain*, yr hwn, y mae lle i gredu, oedd lys *Owain ab Hywel Dda*, brenin Ceredigion; ac felly, y mae tebygolrwydd i gredu mai oddi wrth y *brenin* Owain y cafodd y lle yr enw.

*Tryal*. Y mae amryw leoedd o'r enw hwn yn y Deheudir. Cawn ef yng ngeiriadur Dr.. Puw yn gyfystyr â'r Seisoneg *homestead*; ond nid ydym yn gwybod am darddiad ac awdurdod y Dr. Nid ydym yn gallu gweled dim yn *try* yn yr ystyr hyny. Y mae y lleoedd hyn bob amser, mor bell ag ydym wedi sylwi, yn sefyll ar leoedd uchel; megys *Tryalau*, ym mhlwyf Penboir; *Tryal y Pwll*, ym mhlwyf Cynwyl; *Tryal Brith*, ym mhlwyf Llangeler; *Tryal*, Llanpenal, &c. Y mae genym y fath eiriau a *tryblith*, *trylen*, *tryloew*; *Trygarn* sydd enw lle; *Tryweryn* (tra gloew), &c. Dywed y Doethor Puw fod *try* yn droad o *trw*, yr hyn a olyga *berffeithrwydd*, peth yn y radd *bellaf*, neu *berffaith*; ac ymddengys i ni mai ystyr *tryal*, neu *tryael*, yw man uchaf *ael bryn*, neu *allt*. Y mae amryw ystyrion i *ael* ac *al*, ac y mae *al* ac *ael* am *gynnyrch* yn gyfystyr; felly hawdd y gallasai *ael* am *brow* gael ei droi yn *al*. Yn y modd hyn, credwn mai *pen*, neu gopa *ael*, yw ystyr *Tryal*, neu *Tryael*.

*Twrch*. Y mae llawer iawn o afonydd yng Nghymru o'r enw hwn. Y mae yr enw yn cael ei roddi iddynt am eu bod yn suddo mewn manau i'r ddaiar, ac yna yn codi drachefn. Barna llawer mai *Maesyfed* a elwir felly am fod y tir yn y parth hwnw yn *llyncu* y dwfr, ac yn ei fwrw i fyny drachefn, neu yn fwy priodol, fod y dwfr yn *twrio* y tir, ac yn ymgodi drachefn. Y mae genym lawer lle o'r enw *Cwmtwrch*, *Blaentwrch*, *&c*.

*Ty*. Y mae ystyr y gair hwn, sef *annedd*, yn eithaf eglur. Y mae llawer lle yn cynnwys y gair hwn, naill ai yn y dechreu neu yn y diwedd; megys *Ty'n y Gwndwn*, *Ty'n y Coed*, *Ty'n yr Allt*, *Ty'n y Fro*. Y mae pentref ym mhlwyf Lledrod o'r enw *Ty'n y Swydd*. Nid yw ym mhell iawn o *Swydd Ffynnon Oer*; ac y mae y lle hwnw yn cael ei alw felly am mai yno yr oedd llys barn cwmmwd Mefenydd; ac y mae *Ty'n y Swydd* yn cael ei alw felly am ei fod ar derfyn y *swydd*, *swyddogaeth*, neu *raglawiaeth* swydd barn Mefenydd.

*Tyddyn*. Ystyr y gair hwn yw tir o driniaeth yr aradr, yr oged, a phob trafodiaeth amaethyddol. Y mae llawer o'r

* *Meidir*, heolan, neu ffordd gul.



Digitized by Google

enwau *Tyddyn Du, Tyddyn Mawr, Tyddyn y Berllan*,* *Tyddyn Sieffre, &c.*

*Tyno.* Gwreiddyn y gair hwn yw *twn*, yr hyn a arwydda *toredig*, sef tir yn cael ei gymmeryd i mewn, a'i *dori* gan yr aradr. *Cantref y Tyno Coch* oedd hen enw Ceredigion. Mae *Ton*, ym Morganwg, yn golygu yr un peth; megys *Ton yr Efail, Tonglas, &c.*

"Nid oes dwyn, na dwys *dyno*
Yn neutu glyn Nant y Glo—
Na wyddost."—*D. ab Gwilym.*

*Tyweli*, afon ym mhlwyf Llanfihangel ar Arth. Ystyr yr hon yw *Taw-el-wy*, sef dwfr neu afon dawel.

WY, WYSG, neu *Gwy* a *Gwysg*. Y mae *Wy*, neu *Wysg*, yn air am ddwfr; ac fel yr ydym wedi sylwi, y mae yn cyfansoddi nifer fawr o enwau ein hafonydd. Y mae yn rhyfedd fod rhai ysgolheigion Cymreig wedi rhyfygu traethu nad yw *gwy* yn perthyn i'r Gymraeg, ac mai i'r Wyddelaeg yn unig y perthyna; ac felly dychymmygu mai y Gwyddelod fu yn preswylio yma gyntaf, ac mai hwy fu yn rhoddi enwau ar ein hafonydd; ond y mae *gwy* i'w weled mor eglur a'r haul yn *Gwydd* (Gwy-ydd) *Hwyad* (gwyad), *Gwylan*, *Gwydir*,† *Gwyach* (enw aderyn), a llawer ereill. Y mae genym afonydd o'r enwau *Wy*, neu *Gwy*, ac *Wysg*, neu *Gwysg*.

(*I'w barhau.*)

---

## MYFYRDOD UWCH BEDD FY MAM A'M CHWAER.

PAN lwyd fachludai'r heulwen
Ar fynwent werdd y Llan,
Eisteddais dan yr ywen
Gysgodai'r dawel fan
Gorweddai'r hyn sydd farwol
O'm tyner fam a'm chwaer,
Y rhai mewn serch ymlynol dwfn
Sa'i ar fy nghof yn glaer.

Eu gruddiau beirdd liw'r rhosyn
Droes yn orwelw drwm;
O fewn y bedd, eu haddurn
Yw'r eirch a'u rhwydwe plwm;
A'r ffrwd ger llaw brysura
Ei thaith i'r môr mewn hedd,
Ddangosai fyrdra dyddiau'r ddwy
Trwy'r dyrys fyd i'r bedd.

Gylch careg lwyd fwsoglaidd
Sydd uwch eu beddrod prudd,
Y plenais flodau euraidd
Mewn tyner serch a ffydd;
Arblygant wylaidd gofiant
Dan dlysog ddagrau gwlith,
Ac esgyn eu harogliant per
I'r gwynawl awel flith.

Yng ngwyll y cyfnos llwydaidd
Gysgodai'r fynwent werdd,
Lleddf gnul yr hwyrgloch drymaidd
Adseinia'u galar gerdd;
A'r adar ganant odlau
Ar wyrdd rosynau'u bedd,
Fel arlun o'u heneidiau byw
Mewn hoen yng ngwlad yr hedd.

Cyn-swynion gwag bleserau
Anghofia'r bedd i gyd,
Mor wael yng nghelloedd angau
Yw aur a rhwysg y byd;
Holl gyfoeth tlawd marwolion
O dan y llehi trwch,
Yw daiar bedd a cholofn faen
Ar eu dideimlad lwch.

Ar rudd y blodau peraidd
A huliant wellt eu bedd,
Pelydrai'r ser arianaidd
Mewn dwfn gariadus hedd,
A'u delw teg'n arwyddol
O'u bywyd peraidd sawr,
Ac o'u dedwyddwch dwyfol byth,
Mor bur a haul y wawr.

Heb deimlo'u brau adfeiliant,
Na llygredd gwelw'u gwedd,
Mewn cell o glai gorweddant,
Yn fwyd i bryf y bedd;
A'r serch at Dduw gartrefodd
O fewn mynwesau'r ddwy,
Nid yma mae—ehedodd fry
Gyda'u hysbrydoedd hwy.

'Mysg blodau'u bedd chwareuai
Eur-liwiog glöyn byw,
'Rhwn gynt mewn cell orweddai
Yn lindys marw gwyw;
A'i hoenus lon adfywiad
I ryddid bywyd cu,
Gysgodai'u hadgyfodiad hwy
O lwch y ddaiar ddu.

Fel noethlwm rawn gwywedig
Gorweddant yn y bedd,
O swn y byd blinedig
Gorphwyso maent mewn hedd;
Nes, fel y tywys gwyrddion,
Blodeua'u cyrff yng nghyd,
Gan uno â'u hysbrydion glân
I fyw mewn nefol fyd.

O lwch y dail sy'n trengu
Ar ael eu beddrod oer,
Ail flodau dd'ont i fyny
Mor deg eu gwedd a'r lloer;
'Run modd o'r llwch maluriol
Sydd dan y blodau per,
Ail gyfyd cyrff ysbrydol pur,
A dysglaer fel y ser.

O gylch eu bedd mae'n gorwedd
Hen bobl y plwyf i gyd,
Pob oed, tylawd a bonedd,
A'u llwch gymmysga 'nghyd;
Athronwyr, beirdd, a seintiau,
Sydd yma 'nghwsg mewn hedd,
A'u hysbryd chwardd trwy'r blodau teg
Sydd yn goreuro'u bedd.

Trwm ddu lanerchi pruddion
Hen fynwent Llan y plwyf
Yw'r fan 'mhlith llwch marwolion
I ddofi dynol nwyf;

---

* *Tyddyn y Briddell*, "the tenement of the clod."—*Cam. Reg.*, vol. I., p. 312.

† *Gwy-dir*, sef *tir dyfrllyd*, enw palas yng Ngwynedd.

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 141. MEDI, 1868. CYF. 12.

Y mae y rhan fwyaf o'r Ymneillduwyr yn parhau yn gyndyn yn eu hymlyniad wrth ddeddf *Parliament* y flwyddyn 1644, wrth fod o hyd yn wrthwynebol i Fedydd *private* ac i Gymmun *private* yn achos afiechyd a salwch; yr hyn sydd yn greulondeb ac afresymolrwydd i'r eithaf, a hyny mewn mater ysbrydol, tuag at fabanod cleifion a chymmunwyr cleifion.

Yr oedd y *Directory* yn cynghori arferyd Gweddi yr Arglwydd yn yr addoliad cyhoeddus. Ond y mae hyny wedi ei ddiddymu yn llwyr er ys oesoedd, ond yn unig ym mhlith y Wesleyaid; nid hawdd gwybod ar ba egwyddor y mae'r Calfiniaid, y Bedyddwyr, a'r Independiaid, wedi ymuno mewn math o gynghrair annuwiol i lwyr ymwrthod â gweddi yr Arglwydd Iesu yn yr addoliad cyhoeddus. Hwyrach mai am ei bod yn *ffurf*. Ac eto, y mae yr Ymneillduwyr yn llawn mor selog a'r Eglwys dros ffurf o *hymnau*. Ond ar ba egwyddor resymol y mabwysiedir ffurf o *fawl*, ac y condemnir ffurf o *weddi?* Os ffurf ydyw Gweddi'r Arglwydd, mae hi yn ffurf *ddwyfol*; ac y mae Crist yn gorchymmyn i ni ei *ddywedyd* pan weddiom: ac ni feiddia'r Eglwys ddim troi y gorchymmyn dwyfol heibio.

Ar y cyfan, y mae seremoniau yr addoliad cyhoeddus ym mhlith yr Ymneillduwyr yn effaith deddf-roddiad Parliamentaidd yn y flwyddyn 1644.

BRONLLWYN.

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

*(Parhâd o dudalen 242.)*

Y FYRNWY, afon doreithiog o bysgod, ym Mhowys. Tebyg taw *Maranwy* yw y ffurf gyntefig o'r enw, ond ei fod wedi ei wasgu i ddwy sill; a thrwy fod y fannod *y* o'i flaen, cafodd *M* ei throi i *F*. *Maran* sy gyfystyr ag *eog (salmon)*; hefyd, golyga iseldir ar lan afon.

"Llyfn mor, llawen *maranedd*."
*Aneurin.*

Tebyg fod y Dr. Powel, pan yn galw *Y Fyrnwy* yn *Marnevia* yn ei sylwadau ar Giraldus Cambrensis, yn cadw golwg ar yr ystyr hwn. Dywedai Mr. Pennant fod yr afon hon yn teilyngu yr enw "*piscosus amnis*" gymmaint ag un afon a wyddai efe. Cymharer *Maranwy* â *Pysgotwr* (Pysgod-ddwr), yng Ngheredigion.

*Y Ro Fawr*. Ceir lle ym mhlwyf Llangathen o'r enw hwn. Y mae lleoedd hefyd o'r enw hwn ger Aberystwyth ac Abermaw. Yr ystyr yw *gro*, sef lle llawn *gro* ar lan afon neu fôr. Ystyrir ef yn enw benywaidd, fel *man* llawn gro; ac felly daeth y fannod *y* i mewn, i daflu ffwrdd yr *g*.

"Ni thaw fy mhen am Weno,
Mwy na'r aig ym min y *ro*."
*L. G. Cothi.*

*Ynys*. Dywed Dr. Paw, fod y gair hwn yn cael ei wneyd i fyny o *ws*, yr hyn a arwydda *peth uchaf;* ac *ys*, yr hyn sydd yn codi neu yn bwrw allan. Yr ydym yn deall wrth y gair, tir amgylchedig gan ddwfr, neu o'r hyn leiaf yn agos a bod felly. *Ynys Prydain, Ynys Werdd, Ynys Wyth, &c.* Y mae genym leoedd o'r enw hwn, ac enwau dynion, yng nghyd ag enwau ereill, yng nglyn ag ef. *Ynys Pyr* (Pyr y Dwyrain), enw ynys ger Dinbych y Pysgod; *Ynys Wair* (Lundy); *Ynys Afallon* (Glastonbury); *Y Lasynys*, hen dreftadaeth Elis Wyn; ac *Ynys Hir*. Y mae y gair *ynys* ar gael yn yr Iwerddon; megys *Ennis Killen, Ennis Corthy, &c.*

*Ysgwd, ffrwd, Ysgwd yr Hen Ryd*, Brycheiniog; *Ysgwd*, yn Henllan, Ceredigion.

*Ystrad*. Ystyr y gair hwn yw gwastadedd gweddol eang. Y mae genym lawer o leoedd yn dwyn yr enw hwn; megys *Ystrad Tywi, Ystrad Yw, Ystrad Aeron, Ystrad Fellte, Ystrad Gynlais, Ystrad Ffin, Ystrad Dwrallt* (dwr hallt, meddir), &c.

*Ystum*. Ystyr y gair hwn, yn ei gymhwysiad at enwau lleoedd, yw *troad;* megys *Ystumdwy, Ystum Cegid, &c.*

### PENNOD III.

*Rhes o Wreiddeiriau y Gymraeg mewn enwau lleoedd.*

Yr ydym bellach wedi traethu yn *gyffredinol* ar ffurfiad enwau; ac hefyd wedi dangos sut y mae enwau wedi cael eu newid, lleoedd wedi cael eu henwau oddi wrth ddynion, ac wedi rhoddi llechres o enwau yn ol y wyddor: a bellach ni a derfynwn gyda dangos ychydig o athroniaeth gwreiddeiriau y Gymraeg yn enwau lleoedd. Gwasanaethed y bennod hon hefyd fel attodiad i amryw enwau a ddiangasant o'n cof.

Ab, *mab, Mabwynion, Tab* Wiliam (Ty *ab* Wiliam), yn Aberporth; *Mabwys*, tir y *mab*. Ceir llawer lle o'r enw hwn. Ffolineb mawr, tybied, mai *may bush* y Seisoneg yw.

*Ab*, bwriad allan, aber, bwriad allan afon i afon arall, neu i'r môr; Aberteifi, Aberystwyth, Aberffraw.

*Ach*, dwfr; *Ach*eth, ger Abergorlech, *Ach* Ddu, &c.

*Ad*=at, adwydd, bwlch, neu *adwydd* mewn bwlch; Pen yr *Adwy*.

*Add*, yn grynhoawl addon, ffrwythau; Cwm *Addon*.

*Aidd*, bywiogrwydd, cariad, gwres; *Aedden*, Llyn *Aedd*wen.

*Aer*, rhyfel; *Aer*fach.

*Aeth*, pig, *eith*in; Hiraeth, neu Hiraith, Hireithog.

*Air*, dysgleirdeb; *Aer*on, neu *Air*on, *Aer*wysg, Nanhoron.

Digitized by Google

*Al*, elfen, bywyd; *Alaw*, *Aled*, *Alwen*, *Alclwyd*.

*Am*, amgylch, o ddeutu; Amlwch.

*Aml*, amyd, amryw; Aman, Cwmamman.

*An*, neu *Ain*, elfen ddansawdd, nant; Brean, Brân, Tawelan.

*Ar*, uchaf; Argoed, Aran Fowddu.

*Ar* (hir), tir gwrteithiedig, talar; Maes y Brynar, Arad (ermig i drin tir), Arad, Aberarad.

*Arth*, peth aruthr, trystfawr; yr afon Arth, Dinarth, Arthen, Aberarthen, Arthog, Bronarthen (trigle BRUTUS).

*As*, tir gwastad; llecyn wedi ei dynu i mewn o fynydd, *asol*: Pen yr Asol, Bedwas.

*At*, cyfnewidiad o *ad*, dychweliad, neu ail dro; Bwlch yr Attal.

*Aw*, dwfr; *Awon*; *Hawen*: *afon*; Blaenafon.

BAD, cwch; Porth y Bad, Ty'r Bad.

*Bal*, ymestyniad allan, *balch*; Bala, Beili, Penbeili.

*Ban*, uchel; *Banau* Brycheiniog, *Ban*gor.

*Bar*, noeth-uchel; Barlwm, Berwyn.

*Bar*, terfyn; Bargod, Barre.

*Bed*, sefyllfa ddigyffro, *bedw*; Bedw, Blaenbedw, Bedwas.

*Bledd*, gwastadedd agored; Bleddfa.

*Bod*, trigfa; Bodedeyrn, Hafod.

*Bre*, mynydd; Brean, Brân, Moelfre.

*Braich*, estyniad allan; Braich y Pwll, Brechfa.

*Brith*, amryw liwiog; Brithdir.

*Bu*, boech; *bual*, ych gwyllt; Buallt.

*Bu*, buwch; Rhyd y Fuwch.

*Budd*, ennill, buddugoliaeth; Buddugre, ym Meirion.

*Bur*, gwylltineb, angerdd, ffroch, broch. *Burym* a ddeillia o'r gwreiddair hwn, am ei fod yn ewynu a gweithio yn wyllt. Mae afon o'r enw Buri (Burwy) yn swydd Gaerfyrddin, a elwid felly am ei bod yn llidus a gwyllt ei rhediad, ac felly fel Burym yn ewynu; yna Pont y Berem, a Bury Port.

*Bw*, bygythiad, bwgan, bwn. Aderyn y Bwn, a elwid felly am ei swn trymaidd; yna Boncath, Nant y Boncath, &c.

*Bwlch*, toriad; Bwlch y Groes, Bwlch y Fadfa, Bwlch Gwynt, Bwlch Bychan.

*Bwrdd*, astell neu faen gwastad; Bwrdd Arthur.

*Bwth*, annedd; Bwthyn, Bw'sant, ger Clynnog.

CAD, brwydr, cadw, cadair; Rhos y Gadair, Pencader, Cader Idris, Cadlys.

*Cae*, darn o dir cauedig, coed cae; Pen y Cae.* *Caer*, Caerfyrddin.

*Cail*, praidd; Ceilwart, ym Meirion.

*Cain*, hardd; Caint, Caint Bach, Ceiniog, Cenen, Careg Cenen.

*Cal*, caled; Rhyd Galed, Clettwr.

*Cam*, gwyrog; Camddwr, Pont ar Gamddwr, Ty Cam, Camnant.

*Camp*, gorchest; Cemmaes.

*Car*, cariad; Angharad, neu Engharad, Lletty Angharad.

*Ced*, elw; Cedris, Pant y Cedris.

*Cefn*, y tu ol; Cefn Mawr, Cefn y Ceirw, Cefn Bralau.

*Cel*, anghyoedd, cyssegredig; Celynog, neu Clynnog, Pant y Celyn.

*Cell*, lle cil o'r neilldu; Cellan.

*Cer*, bywiog; Ceri, Cerist.

*Cerdd*, symmudol, cerddin, cerdin; Pant y Cerdin, Abercerdin.

*Cern*, ochr, ochr llethr; y Gernos.

*Cest*, tor, codiad crwn a serth; Bron Gest, Cwm y Gest, Moel y Gest, Bryn y Gest, a Seisonigeiddwyd yn *Prendergast*.

*Ceth*, dyrys, anbydrin, tywyll, cethin; Cefncethin.

*Cil*, encil; Cilrhedyn, Cilcenin.

*Clas*, gwyrddfaes; Clas (Clasbury), Clasmerddin.

*Cloch*, ermig i wneyd swn; Maenclochog.

*Clog*, clogwyn, pen; y Glog, Clogau.

*Clyd*, cysgodol; Cwmclyd, Clydach, Cledan (afon ger Llanrhystyd).

*Clyn*, lle llawn o fangoed; Clyn Coch, Clyn Melyn, Clyn Eiddw.

*Cnol*, cnipell gron; y Gnol, ger Castell Nedd.

*Cnwc*, twmpath, codiad tir; Cnwc Glas, Pen Cnwc.

*Cnwch*, neu *Cnwwch*, llwyn, perth o lwyni; Cnwch Eithinog, yn agos i Ystrad Ffin. Ceir y gair hwn mewn llawer o leoedd mynyddig heb law hwnw.

*Coed*, gwydd, coedlan; Coetty, Coed y Parc, Terracoed (Tir y Coed).

*Coeg*, gwag; Ffynnon Goeg.

*Col*, peth yn ymestyn allan, colyn; Col, Ysgolion Duon, Drysgol, Drysgolgoch.

*Côr*, cylch, côr mewn Eglwys; Bangor, Corwen.

*Coth*, bwriad allan, ysgothiad; Cothi, Glyn Cothi.

*Crib*, copa; Crib y Wern, Gallt y Gribyn.

*Croes*, traws; Bwlch y Groes.

*Crug*, twmpath; Crug Bach, Crug Hywel, y Wyddgrug.

*Cuch*, garw; Cuch, Abercuch, Glyncuch.

*Cwm*, tir isel; Cwm Bychan.

*Cyd*, uniad; Cydweli.

*Cyf*, uniad; Cyfartha.

DAR, derw, Bryn Derwen, Llwyn Derw, Derlwyn.

*Din*, amddiffynfa; Dinas, Dinas Mawddwy, Dinas Cerdin.

*Dol*, plygiad, camiad, tir cam rhwng troion afon; Dolgellau, Dolgoch.

*Dwfn*; Pant Dwfn, Defynog (?) Dyfed.

* Yr ydym yn meddwl mai Isaac Taylor sydd yn traethu fod *Quebec* yn perthyn i *quai*, y Ffrancaeg (*Quay*, Seisonig), yn perthyn i *cae* a *caer*, y Gymraeg; hyny yw, yn berthynas Geltaidd trwy y Ffrancaeg.

Digitized by Google

*Dwfr*, gwy; Dyfrdwy, Glandwr, Dyffryn, Blaen Dyffryn.

*Dy*, blaenddawd cadarnhaol; Dyserth.

EB, bwriad allan; ebol, ebai: Ebwy, Glyn Ebwy.

*El*, symmudol, bywiog, elfenol; Elan, Elwy, Sierfel.

*Esg*, bwriad allan, esgoriad, esgair; Esgairgraig, Esgair Wylym.

FFAL, troelliad. Y mae *ffal* yn air Celtig, yn neillduol yn y Galaeg am *lif*; a hyny, ef allai, am fod llif yn troi mewn pyllau is law rheieidr. Y mae afon yn Lloegr o'r enw *Ffal*, ac oddi wrthi y derbyn *Falmouth* ei henw.

*Ffald*, ceufa; Ffald y Brenin.

*Ffest*, enciliad buan; Ffestiniog.

*Ffraw*, buan; Ffraw, Aberffraw.

*Ffridd*, coedwig, dernyn o dir cauedig; Bwlch y Ffridd, Ffridd Fawr.

*Ffrwd*, pistyll; Glan y Ffrwd.

*Ffwnt*, ffynnon; Blaen Ffynnon, Tre Ffynnon.

GALLT, esgyniad, serthfan; Gallt y Cadno, y Wenallt.

*Garth*, codiad tir; Cenarth, Llanfihangel ar Arth, Penarth.

*Glan*, ymyl; Glanaman, Glan y Môr, Glandyweli.

*Gloew*, glân, dysglaer; Gloewon, Blaen Gloewon.

*Glyn*, lle cul rhwng dau fryn ar lan afon; Glyndyfrdwy.

*Glŷn*, glynu, ymlyn, ymlyniad; Emlyn, Castell Newydd Emlyn. Galwyd y lle felly o herwydd *ymlyn* yr afon yn y lle. Try *y* yn *e*, fel mewn amryw eiriau ereill.

*Gog*, gogo; Gogerddan, Llandysylio Gogo.

*Golch*, suddiad, peth a olchir gan ddwfr; yr Olchon ar lan yr Wy.

*Gor*, gwych, tra uchel, nawdd; Gorllwyn, Llanfair Orllwyn.

*Gwaen*, tir gwastad llaith; Gwaen yr Esgor, Gwaen Helygen.

*Gwar*, yr ochr uchaf; Gwarallt, Gwarffynnon, Gwarfigyn.

*Gwas*, gwasanaethwr; Gilfach y Gweision.

*Gwel*, gwelediad; Llywel, Llywelan.

*Gwern*, coed o'r enw; Gwern y Clepa, Gwernmedd, Gwern Ddafydd.

*Gwy*, dwfr; Gwy, Glangwy, Conwy, Elwy, Teifi (Tafwy).

*Gwydd*, coed, gwyddel; Gwyddelwern, Trewyddel.

*Gwyn*, gwyneb, agored, y rhan uchaf; Gwynedd.

*Gwymp*, tlws; Gwempfa, Gwempa.

*Gwyth*, hen wely afon, dwfr araf ei rediad; yr Wythfawr, Glan yr Wyth, yn Ystrad Tywi.

*Gwystl*, ammod; Arwystli.

HAF, yr hyn sydd yn ymdaenu, llawndid; Hafren, Maes yr Haf, Hafod.

*Haidd*, math o yd; Dolhaidd, a Bronheidden, ger llaw eu gilydd ym Mhenboir.

*Hen*, oedranus; Hen Feddau, Hendref, Hendy, Ty Hen.

*Hob*, mochyn; Brynhob, ger Pont Rhydfendigaid, a elwir yn awr Brynhope.

IAL, tir agored; Ial, ym Mhowys, Bronial, Penforial, yng Ngheredigion.

*Is*, isel; Is Cenen, Is Meloch, Iscuch.

*Ion*, Duw; Ty'r Ion, Pant Ty'r Ion, ger Llandudoch.

LLAIN, dernyn main fel cleddau; Llain y Mwnt, Llain y Weddfa.

*Llan*, dernyn tlws o dir amgauedig; Llanerch, Llandeilo.

*Lleb*, melyn; Glyn Llebin (Llebain).

*Llech*, corff gwastad, careg; Blaencillech, Penllech yr Ast.

*Lled*, yr hyn sy groes i *hyd*, llydan; Rhydlydan, Cwmllydan.

*Llethr*, bron, codiad tir; Llethr Llestri, Llethr Neuadd, Llethr Deri.

*Llif*, gorlawnder o ddwfr; Llifon, Glynllifon.

*Lloc*, diogelfa, cadwrfa anifeiliaid, &c.; Clynllocau.

*Llum*, peth amlwg yn ymestyn i'r lan; Pumlumon, Moelumon.

*Llwnc*, llwng; Trallwng Coch, ym Mhowys, Trallwng, ym Mrycheiniog.

*Llwybr*, tramwyfa; Penllwybr.

*Llwch*, llyn; dylifiad dwfr: Llychwr, Tal y Llychau.

*Llwyd*, enw ar liw; Ty Llwyd, Castell Llwyd.

*Llwyn*, coedfa, &c.; Llwyn Gwiwer (Llwyn Gwair), Llwyn Dafydd, Llwyn Einion.

*Llyfn*, teg; Llyfni, Cwmllynfell, Cwmllyfni.

MA, sefyllfa, &c.; y Fadfa.

*Mach*, lle cysgodol, diogelfa; Machynlleth, Bach y Rhew, y Fachwen.

*Maen*, careg; Maenclochog, Maentwrog, Tremain (*main*, lluosog o *maen*).

*Maer*, yr hyn sy sefydlog, golygwr; Maerdref, Maerdy.

*Maes*, tir, tir agored; Maes Cynffych, Maes y Crugiau, Maes y Pandy.

*Mac*, maethiad, macwy; Gwern Macwy.

*Mai*, gwastadedd teg, mis Mai; Meifod, Pen y Fai, Cilfai, Myddfai.

*Main*, gwan, cul; Meinddwr.

*Mâl*, maniad gan felin; Rhyd y Felin, Melinddwr.

*March*, brasdyfol; Marchwiail, ym Mhowys.

*Math*, gwastadfa; Mathafarn, Mathrafael.

*Mawr*, peth croes i *bach*; Maes Mawr, Traws Mawr.

*Mau*, hunan, meudwy, un fydd wrtho ei hun; Cwmmeudwy.

*Medd*, tyner, symmudol; Gwern y Medd.

Digitized by Google

*Mêl*, yr hyn sy felus; Nant y Mêl.
*Men*, ermig at gludo; Pant y Fen.
*Mer*, dyferiad, tarddiant; Cymmer, Rhyd Cymmerau (gwel *Berwa*).
*Mig*, mignen; Bigni. Cymharer *mig* â *big*; a *mer* â *ber*.
*Min*, ymyl; Minffordd, Min y Don.
*Moc*, efelychiad, gwawd; Moc, yn Llandyssul.
*Môch*, buan, gwyllt; Mochnant, Mochno; eto Mwch, Mwchau, ger Llanstephan.
*Moedd*, uchel; Moeddyn, Moeddawg.
*Moel*, llwm, lle uchel didyfiant, crug, pentwr uchel; Moel y Mwnt, Moelfamau, Moel Wynion.
*Môr*, y weilgi; Morfa, Penmorfa.
*Mud*, dystaw; Medain, Mudyr, Mudyreilin.
*Mwch*, ehud, buan; Mwchau.

(*I'w barhau.*)

---

## PRYDDEST AR YMDRECHFA RHYDDID.

(*Parhâd o dudalen 234.*)

HA, dad Athroniaeth! O Socrates fawr!
Drwy'th allu di yr anfarwolwyd Groeg,
Trysorau ddygaist i oleuni dydd,
A fuasent hebot fyth dan leni cudd;
Daioni wnaethost, a dy gyfoeth oedd
*Doethineb;* a gogoniant oedd dy *wobr!*
Brawddegau barddawl Plato oe'nt fal mêl;
Xenophon a feddai deimlad byw,
Rhinwedd a Dysg a fyth ganmolent hwy,
Rhyddid a safai fel y graig yn awr,
Caethiwed hunai yn ei hoeraidd gell,
A llawryf Hedd goronai aeliau Groeg!

Rhyddid a chwifia'i baner uwch yr Aifft,
Yr hon fu gynt yn ymherodraeth gref;
Mae enwog ddinas Cairo heddyw'n rhydd!
Ac Alecsandria sydd yn gyrchfan swyn;
Prysured eto yr hyfrydol ddydd
I faner Iesu chwifio uwch ei phen!
Ymladdodd Rhyddid lawer brwydr boeth
Yng ngwlad y Twrc; a duwies Rhyddid sydd
Yn gwenu draw yng Nghaergystenyn fawr!
Ha, dyma'r wlad ga'dd benaf fraint y byd,
Yn hon y ganwyd T'wysog nef a llawr,
Yn wael ei wedd ym mhreseb Bethlehem:
Efe yw gobaith Rhyddid dynol ryw,
Ar ol ffarwelio â theganau byd!

Ennillodd Rhyddid frwydrau fil
Ym mro-dir Palestina;
A dygodd Hedd i'r ddynol hil,
Trwy Aberth drud Calfaria;
Mae ymherodraeth Rwsia fawr
Yn deml wech i Ryddid;
I'r Pwyliad tristlawn mae yn awr
Wir obaith am ei fywyd!

Trwy oer ororau Gwlad y Ia
Mae Rhyddid yn blaguro;
Alltudwyd gormes a thrahâ
Yn llwyr o'r ynys hòno:
Trwy Norway gun, a Sweden ferth,
A Denmarc, ynys lonydd,
A gwlad Hanover, gwelir gwerth
Y dduwies gain ysblenydd!

Lle treigla'r Rhine i'r weilgi mawr,
Rhwng dolydd gwyrddion hyfryd,
Ymledu'n gyflym mae yn awr
Wareiddiol wenau Rhyddid;
Cyflawnodd hon orchestion fyrdd
Dros achos annibyniaeth,
A fyddant o dan fythol urdd
A pharch gan y ddynoliaeth.

Llaw Rhyddid fu'n gweithio er cael Hindostan
Yn rhydd o afaelion Caethiwed;
Ceir gweled paganiaeth yng ngoleu'r gwawl can
Yn syrthio i ddofn ogof Abred!
Yn ynys gain Gorsig* ymladdwyd yn hyf,
Dros Ryddid ymdrechwyd yn wrol;
Mae serch at ei fam-wlad yn dyrchu yn gryf
Ym mynwes pob dewrddyn arwrol!

Negroaid yr Amerig
Ynt heddyw'n feibion *rhydd;*
Caethwasaeth erch fileinig
Ga'dd wel'd ei holaf ddydd!
Aeth Rhyddid i'r Gorllewin
Ar fin y gloew gledd,
Ennillodd Fuddugoliaeth,
A'r Negro gafodd Hedd!

Yng ngwlad Amerig y bu ymdrech fawr
Rhwng Rhyddid a Chaethiwed lwyd ei gwawr,
Breiniau y Negro sethrid o dan draed,
A'i gefn melynddu hulid â choch-waed;
Cwynfanus lef y Negro gwael a thlawd
A ddiystyrid, ac arllwysid gwawd
A phoenau arno gan ei feistriaid erch,
Ac ato ni ddangosent radd o serch,
Ond ymhyfrydent yn ei ofid ef,
Yr hyn ganfuwyd gan Lyw mawr y nef,
Yr Hwn appwyntiodd Lincoln fawr ei ddawn
I ddwyn Rhyddhâd, a gwir ddedwyddwch llawn
I fro'r Amerig. Dacw Ryddid gain
Yn d'od, a thyn yr awchlym gledd o'i wain!

Clywch! clywch y magnelau yn rhuo nes crynu
Mynyddoedd Amerig, a'r meirch yn carlamu
Trwy'r eang ddyffrynoedd, tarandrwst eu carnau
A glywir yn gwyllt ddiaspedain y bryniau!
Y llengoedd a huliant y meusydd cylchynol,
A'r tew-fwg ymddyrcha i'r oror awyrol
Yn dorchau caddugawl, ac oer-gyrff yr angau
Yn filoedd a huliant y ceindeg ororau;
Y gelyn a faeddwyd—i freichiau marwolaeth
Y syrthiodd; a Rhyddid ga'dd lwyr fuddugoliaeth!

Y Negro melynddu a gana yr awron,
Gwych ryddid feddianna, a seinia alawon
I Lincoln fyth glodfawr—yr arwr aneilydd,
'Mhen mil o flynyddoedd dyrchefir ei glodydd!

Tra'r Andes fawr yn dyrchu'i phen
I wyrdd eigionau'r nef,
Dyrchefir clodydd Rhyddid wen
Mewn hyfryd lafar lef!
Cadwyni aur sydd wrthi 'nglŷn,
O Wynfa disgyn wnaeth;
A rhoddodd hyfryd felus win
I'r Negro clwyfus caeth!

---

* Ynys ym Môr y Canoldir, trigolion yr hon a ymdrechasant yn wrol ym mhlaid Rhyddid yn y cynoesoedd.

Digitized by Google

# YR HAUL.

## Cyfres Caerfyrddin.

"YNG NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI."
"A GAIR DUW YN UCHAF."

RHIF. 142. HYDREF, 1868. CYF. 12.

lawn, a dinystrio eu Heglwys er mwyn boddloni uchelgais. Nid ydym yn credu y bydd i etholwyr Lloegr anghofio gweithredoedd eu teidiau, ac egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd, dros y rhai y darfu i'r merthyron drengu wrth yr ystanc, trwy roddi cymhorth i'r blaid chwildroadol.

Bydded i ni yng Nghymru bleidio dynion sydd yn caru ein gwlad a'n sefydliadau; dynion sydd am adgyweirio, ac nid am ddinystrio ac Americaneiddio ein sefydliadau. Hyderwn, pan ddaw dydd yr etholiad, y pleidleisiwch dros y fath ddynion a'r Meistri Howel Gwyn, Stanley Harding Giffard, Jones a Puxley, Scourfield ac Edmund, a Mallet Vaughan—dynion egwyddorol, dynion sydd yn teimlo dros eich lles, dynion ag sydd yn debyg o wneyd lles i chwi. Peidiwch cymmeryd eich cam-arwain a'ch twyllo gan bregethwyr politicaidd bol y clawdd, y rhai sydd yn gwybod cymmaint am wleidyddiaeth ag a ŵyr buwch am y lleuad.

IDWAL.

O.Y. Clywais fod ficer ac ynad o sir Gaerfyrddin yn pleidio Sartoris y Radical, yr hwn sydd wedi tyngedu ei hun i dynu yr Eglwys i lawr. Mae yn anhawdd genym gredu fod cymmaint ag un offeiriad i'w gael mor fradwrus i'r Eglwys; ond os oes rhai o honynt i'w cael, goreu po gyntaf y bydd iddynt gyfnewid eu hochr. Yr ydym yn hyderu nad yw yr hyn a glywsom yn wir am y ficer, ac mai un o chwedlau anwireddus y Radicaliaid ydyw.

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

*(Parhâd o dudalen 270.)*

NANT, afonig; Nanhoron, Nant Ystalwen, Nantbreni.

*Neu*, dymuniad, dymunfa, neuadd; Neuadd Trefawr.

OD, eira, odwyn, gwyn iawn, *snow-white;* Llanbadarn Odwyn, Manod. Dyna ein hen syniad am *Odwyn*, sef gwyn fel yr *od* neu'r eira, gan ei gymharu â *pygddu*, sef du o liw y *pyg;* ond teg mynegu fod hanesyddiaeth yn taflu ychydig ammheuaeth ar yr ystyr hwn. Yr oedd gan Teithwalch, Arglwydd Ceredigion, fab o'r enw *Odwyn*, yr hwn a breswyliai yng Nghastell *Odwyn;* ac y mae yn debyg taw efe a'i hadeiladodd, ac felly y mae yn debyg taw oddi wrtho ef y cafodd y castell yr enw. Ond yr oedd yr Eglwys i gael cyn hyny, wedi ei sylfaenu gan yr hen Sant Padarn, digon tebyg. I amddiffyn y syniad olaf, gellir tybied taw *Odwyn* a'i hailadeiladodd, ac iddi gael yr enw Llanbadarn *Odwyn* o hyny allan, fel y mae genym Llanddewi Rhydderch, &c. Gellir dywedyd hefyd o du *od wyn*, fod yr Eglwys yn rhyfeddol o amlwg agos i holl Ddyffryn Aeron; ac os oedd yn *wen*, gallasai gael y dynodiad hwnw fel Eglwys wen ac Eglwys lwyd. Barned y darllenydd drosto ei hun, pa un o'r ddau ystyr sy fwyaf cymhwys.

*Ol*, nod ar ol; Olwen,* Pant Olwen, Olmarch,† ger Llanbedr.

PAITH, eglur; Dyffryn Paith, Peithyll.

*Pal*, dernyn gwastad ar fan uchel, amgeufa; Pal, Palau, Penrhiwpal.

*Pant*, man isel; Pant y Rhew, Pant yr Haidd. Mae *Pannau* weithiau yn ffurf luosog o hono; megys Pannau, yn Llandysilio Gogo.

*Parc*, parthiad, parc; Penparc, Parcau, Parc Rhydderch, oddi wrth Rhydderch Llwyd.

*Pig*, peth main; Typica, Castell Pigyn.

*Pil*, ffos o ddwfr; Pilroth, Pilau, Pil Bach.

*Pis*, ffrwd, pistyll; Penpistyll, Blaenpistyll.

*Porth*, agoriad; Porth y Fynwent, Aberporth, Porth Aethwy, Porth Dinorwig.

*Pow*, ymdaeniad, ymafaeliad; Powys.

*Prys*, mangoed, prysg; Prysg, Pen y Prysg, Dolprysgoed, Prysaddfed.

*Pump*, pedwar ac un; Pumlumon, Pumsaint.

*Pwll*, lle dwfn; Pwll Heli, Pwll Tinbyd.

RHAG, blaen; Rhagad.

*Rhai*, bwriad allan, dysgleirdeb; Rhaiadr Gwy, Rhaiadr Mochnant.

*Rhan*, parth, rhan o beth; Rhandir.

*Rhed*, ennill; Cilrhedyn, Gilfach Redyn. Gelwid y twf *rhedyn* felly, am eu bod yn rhedeg, neu yn ennill y tir lle byddont yn tyfu.

*Rhew*, caledrwydd, ia, &c.; Pant y Rhew, Bach y Rhew.

*Rhos*, tir gwaenog uchel; Rhos y Medre (Mydrau, cylchoedd).

*Rhudd*, coch tywyll; Rhuddlan, Rhuthin (Rhudd-ddin).

*Rhwth*, agored, siglenog; Rhoth, Pilroth (ger Llanstephan).

*Rhyd*, basle mewn afon; Rhyd y Ceir, Rhyd y Fuwch, Rhyd Lewis.

SARN, peth wedi ei daenu, peth agored, tir agored; Pensarn, Sarnau.

*Sân*, rhwyd, dull troellog; Cilsân, Sanan, Abersanan.

*Soch*, dwfr llonydd, neu ddwfr araf ei rediad; Soch, Abersoch.

---

* *Olwen*, duwies y blodau ym mhlith yr hen Gymry. Dywedid fod blodau yn tyfu yn ol ei thraed. Bu hefyd yn enw benyw.

† Cafodd y lle hwn ei alw oddi wrth lun pedol march mewn careg fawr, medd y werin. Y mae ol felly yn agos i'r Tryfil, ym Mrycheiniog. Diammheu mai olion rhyw bryfed, ag y perthyn i ddaiareg eu holrhain, ydynt, ac nid ol pedol march.

Digitized by Google

lawn, a dinystrio eu Heglwys er mwyn boddloni uchelgais. Nid ydym yn credu y bydd i etholwyr Lloegr anghofio gweithredoedd eu teidiau, ac egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd, dros y rhai y darfu i'r merthyron drengu wrth yr ystanc, trwy roddi cymhorth i'r blaid chwildroadol.

Bydded i ni yng Nghymru bleidio dynion sydd yn caru ein gwlad a'n sefydliadau; dynion sydd am adgyweirio, ac nid am ddinystrio ac Americaneiddio ein sefydliadau. Hyderwn, pan ddaw dydd yr etholiad, y pleidleisiwch dros y fath ddynion a'r Meistri Howel Gwyn, Stanley Harding Giffard, Jones a Puxley, Scourfield ac Edmund, a Mallet Vaughan—dynion egwyddorol, dynion sydd yn teimlo dros eich lles, dynion ag sydd yn debyg o wneyd lles i chwi. Peidiwch cymmeryd eich cam-arwain a'ch twyllo gan bregethwyr politicaidd bol y clawdd, y rhai sydd yn gwybod cymmaint am wleidyddiaeth ag a wyr buwch am y lleuad.

IDWAL.

O.Y. Clywais fod ficer ac ynad o sir Gaerfyrddin yn pleidio Sartoris y Radical, yr hwn sydd wedi tyngedu ei hun i dynu yr Eglwys i lawr. Mae yn anhawdd genym gredu fod cymmaint ag un offeiriad i'w gael mor fradwrus i'r Eglwys; ond os oes rhai o honynt i'w cael, goreu po gyntaf y bydd iddynt gyfnewid eu hochr. Yr ydym yn hyderu nad yw yr hyn a glywsom yn wir am y ficer, ac mai un o chwedlau anwireddus y Radicaliaid ydyw.

---

## CYFANSODDIAD ATHRONYDDOL ENWAU LLEOEDD CYMREIG YNG NGHYMRU.

*(Parhâd o dudalen 270.)*

NANT, afonig; Nanhoron, Nant Ystalwen, Nantbreni.

*Neu*, dymuniad, dymunfa, neuadd; Neuadd Trefawr.

OD, eira, odwyn, gwyn iawn, *snow-white;* Llanbadarn Odwyn, Manod. Dyna ein hen syniad am *Odwyn*, sef gwyn fel yr *od* neu'r eira, gan ei gymharu â *pygddu*, sef du o liw y *pyg;* ond teg mynegu fod hanesyddiaeth yn taflu ychydig ammheuaeth ar yr ystyr hwn. Yr oedd gan Teithwalch, Arglwydd Ceredigion, fab o'r enw *Odwyn*, yr hwn a breswyliai yng Nghastell *Odwyn;* ac y mae yn debyg taw efe a'i hadeiladodd, ac felly y mae yn debyg taw oddi wrtho ef y cafodd y castell yr enw. Ond yr oedd yr Eglwys i gael cyn hyny, wedi ei sylfaenu gan yr hen Sant Padarn, digon tebyg. I amddiffyn y syniad olaf, gellir tybied taw *Odwyn* a'i hailadeiladodd, ac iddi gael yr enw Llanbadarn *Odwyn* o hyny allan, fel y mae genym Llanddewi Rhydderch, &c. Gellir dywedyd hefyd o du *od wyn*, fod yr Eglwys yn rhyfeddol o amlwg agos i holl Ddyffryn Aeron; ac os oedd yn *wen*, gallasai gael y dynodiad hwnw fel Eglwys wen ac Eglwys lwyd. Barned y darllenydd drosto ei hun, pa un o'r ddau ystyr sy fwyaf cymhwys.

*Ol*, nod ar ol; Olwen,* Pant Olwen, Olmarch,† ger Llanbedr.

PAITH, eglur; Dyffryn Paith, Peithyll.

*Pal*, dernyn gwastad ar fan uchel, amgeufa; Pal, Palau, Penrhiwpal.

*Pant*, man isel; Pant y Rhew, Pant yr Haidd. Mae *Pannau* weithiau yn ffurf luosog o hono; megys Pannau, yn Llandysilio Gogo.

*Parc*, parthiad, parc; Penparc, Parcau, Parc Rhydderch, oddi wrth Rhydderch Llwyd.

*Pig*, peth main; Typica, Castell Pigyn.

*Pil*, ffos o ddwfr; Pilroth, Pilau, Pil Bach.

*Pis*, ffrwd, pistyll; Penpistyll, Blaenpistyll.

*Porth*, agoriad; Porth y Fynwent, Aberporth, Porth Aethwy, Porth Dinorwig.

*Pow*, ymdaeniad, ymafaeliad; Powys.

*Prys*, mangoed, prysg; Prysg, Pen y Prysg, Dolprysgoed, Prysaddfed.

*Pump*, pedwar ac un; Pumlumon, Pumsaint.

*Pwll*, lle dwfn; Pwll Heli, Pwll Tinbyd.

RHAG, blaen; Rhagad.

*Rhai*, bwriad allan, dysgleirdeb; Rhaiadr Gwy, Rhaiadr Mochnant.

*Rhan*, parth, rhan o beth; Rhandir.

*Rhed*, ennill; Cilrhedyn, Gilfach Redyn. Gelwid y twf *rhedyn* felly, am eu bod yn rhedeg, neu yn ennill y tir lle byddont yn tyfu.

*Rhew*, caledrwydd, ia, &c.; Pant y Rhew, Bach y Rhew.

*Rhos*, tir gwaenog uchel; Rhos y Medre (Mydrau, cylchoedd).

*Rhudd*, coch tywyll; Rhuddlan, Rhuthin (Rhudd-ddin).

*Rhwth*, agored, siglenog; Rhoth, Pilroth (ger Llanstephan).

*Rhyd*, basle mewn afon; Rhyd y Ceir, Rhyd y Fuwch, Rhyd Lewis.

SARN, peth wedi ei daenu, peth agored, tir agored; Pensarn, Sarnau.

*Sân*, rhwyd, dull troellog; Cilsân, Sanan, Abersanan.

*Soch*, dwfr llonydd, neu ddwfr araf ei rediad; Soch, Abersoch.

---

* *Olwen*, duwies y blodau ym mhlith yr hen Gymry. Dywedid fod blodau yn tyfu yn ol ei thraed. Bu hefyd yn enw benyw.

† Cafodd y lle hwn ei alw oddi wrth lun pedol march mewn careg fawr, medd y werin. Y mae ol felly yn agos i'r Tryfil, ym Mrycheiniog. Diammheu mai olion rhyw bryfed, ag y perthyn i ddaiareg eu holrhain, ydynt, ac nid ol pedol march.

Digitized by Google

*Swl* (b. *Sol*), gwastad, araf; Solfach.

TAL, pen; Talsarn, Tal y Bont.

*Tan*, is; Tan y Rhiw, Tan yr Allt.

*Til*, main, bychan, ysgafn, sionc, bywiog; Tilen, Glantilen, Abertileri.

*Trach*, bryn isel rhwng bryniau o uwch;

*Traeth*, lle gwastad ar lan y môr; Traeth Mawr, Pentraeth (Mon).

*Traf*, gwyllt, rhwydd; Trafle, yn Llanbadarn Odwyn.

*Traws*, croes; Trawsfynydd.

*Tref*, haddef; Tref Asser.

*Troed*, y rhan isaf o ddyn, ac hefyd i bethau difywyd; Troed y Rhiw.

*Try*, eithaf; Tryal.

*Twn*, ton; Gwndwn, Ton yr Efail, Ton, ger Llanymddyfri, Tyno Coch.

*Ty*, annedd; Ty Ddewi.

UL, lleithder; Cwmul.

WN, peth uchaf; ynys: Ynys Dawy.

Yr ydym, yn rhes y gwreiddiau hyn, wedi dangos fod enwau lleoedd yn ein gwlad wedi cael eu cymmeryd gan mwyaf yn athronyddol o'r Gymraeg, a gwaith hawdd fyddai ychwanegu y rhif. Rhydd y Dr. Puw wreiddiau y Gymraeg yn 223; Gwrgant yn 210; ac Arfonwyson yn 292: ac y mae yn debyg y gellid, gyda manylrwydd, gael holl elfenau yr iaith mewn enwau lleoedd yn ein gwlad; ac ar yr un pryd gael trysorau o lenyddiaeth athronyddol yn guddiedig yn nyffrynoedd ac ar fryniau ein gwlad, na feddyliodd nemawr am danynt erioed. Dyweded beilchion yr oes hon am iselder cymdeithasol ein hynafiaid, y pethau a fynont, yr oeddynt yn uwch mewn gwreiddiad nag mae neb o honynt hwy wedi amgyffred, ac mewn rhyw bethau yn uwch nag yn yr oes ffrostfawr bresennol—yn neillduol mewn gosod enwau athronyddol ar leoedd.

Cymmerasom at gasglu yr enwau, a gwneyd sylwadau arnynt, mewn rhan, er mwyn ymdrechu dyeithrio ychydig o'r meddwl oddi wrth dymmestloedd geirwon iawn ag oeddym wedi cyfarfod mewn bywyd; ac oni bai hyny, buasai y rhes enwau yn llawer llawnach. Afraid mynegu fod hon yn efrydiaeth anwyl genym. Ys dywedodd yr hen Siencyn Tomos, o'r Cwmdu,—

"Deued gwŷr llên yn dawel,
A'u dyfyr gynghyr heb gel,
A rhoddent, llunient yn llawn
Fry yn enwog farn uniawn;
A'r anghall na ddeallo,
Dystawed, na feied fo."

GWYNIONYDD.

*Gwelliant Gwallau.*

Yn agos i ddechreu y bennod gyntaf, yn lle "Tre Gawn," darllener *Tregaron*.

Eto, yn lle "o Gymraeg neu ydd," darllener, *o Gymraeg newydd*.

## AR LAWR YN YR HEOL.

(EFELYCHIAD.)

Ar lawr yn yr heol yn welw ac oer,
Gorweddai â'i gwyneb ar gyfer y lloer;
Newynodd, nid ydoedd ond ieuanc a gwael,
Mewn dinas lle'r ydoedd cyflawnder i'w gael;
Yr oedd yn ddirmygus gan bob peth oedd bur,
Fe gamrai pawb ymaith heb ofal na chur.
'Roedd cannoedd â'u bwriad ar wagedd a phleser,
A channoedd yn meddu ar lawnder ac amser,
I ddysgu'r crwydredig am rinwedd y gwaed,
A chodi yr isel o'r llwch ar ei draed,
Er dangos i ddynion fod bywyd bob pryd
'N anfeidrol mwy gwerthfawr na'r bydoedd i gyd.
O'r swynion ymffrostgar, mor hardd oedd ei hael,
Ei gruddiau mor dyner, ond heddyw mor wael;
O! gwelwch ei gwefus fel gwenent mor fwyn,
A'i llygaid hudasant ugeiniau â'u swyn:
'R un gair yn dragywydd o'i geneu ni ddaw,
Ni raid i neb wrido o'i herwydd rhag llaw,
Aeth adref, hyderwn, a'i gwisgoedd yn glaer
Yng nghwmni'r angylion mewn cerbyd o aur.
Rhyw fam a fu'n troelli mewn dagrau oedd hallt,
A'i bysedd, ddolenau melynion ei gwallt;
Rhyw dad ymostyngai yn orlawn o serch,
Gofynai'n ddifrifol am fendith i'w ferch:
Mor galed yw meddwl wrth weled ei phryd,
Mai ofer fu'r cariad a'r gofal i gyd,
Y dagrau llosgedig a'r ofnau gwir fawr,
O 'r gofid a'r gwylio fu arni bob awr.
Dychymmyg dyn arlun o fwthyn bach clyd,
A blodau yn hulio ei furiau i gyd;
A dau lled oedranus o'i fewn ef yn byw,
Eu hunig ddyddanwch yw Beibl eu Duw;
Eu gwallt sy fel eira, a dwysder eu gwedd
Sy'n dangos mor fuan y cwympant i'r bedd.
Mewn gweddi ymblygant—yn crynu mae'u llais,
Wrth anfon mewn dagrau i'r nefoedd eu cais;
Ni chauant eu llygaid drwy gydol y nos
O herwydd eu pryder am rian mor dlos:
Mae'n well i'r ddau ganwaith heb wybod yn awr
Am helynt yr eneth a garent mor fawr,
Ei bod ar yr heol yn unig ac oer,
Yn gorwedd yn farw dan wenau y lloer.

HENRY ROWLANDS.

*Llanrhaiadr ym Mochnant.*

## CHARLES JAMES BLOMFIELD, D.D. DIWEDDAR ESGOB LLUNDAIN.

GANWYD y gwr enwog, defnyddiol, a thra llafurus hwn yn Bury St. Edmund's, Mai 29, 1786. Yr oedd ei dad yn athraw ysgol flodeuog yn y dref hòno. Aeth yntau i'r ysgol hòno pan yn wyth oed. Ac am ei fod yn blentyn byr o gorffolaeth, gelwid ef gan y bechgyn ereill dan yr enw *Tit Blomfield*. Daeth ym mlaen yn gyflymach na'r cyffredin o lawer, a byddai yn codi yn fore iawn i ddysgu pethau ereill, megys llysieuaeth, Ffrancaeg, Italaeg, heb law ei wersi ysgol.

Gwnaed ef yn aelod o Goleg y Drindod, Caergrawnt, yn 1804, pan yn ddeunaw oed: ac yn y flwyddyn ganlynol gwnaed ef yn Ysgolor o'r coleg. Ond yr oedd yn nechreu ei yrfa golegol yn

Digitized by Google